

Adroddiad a chyfrifon 2006

## CYNNWYS

1 DATGANIAD Y CADEIRYDD  
4 CYFLENWI DŴR  
8 DIOGELU'R AMGYLCHEDD

12 GWEITHIO AR RAN CYMUNEDAU  
15 POBL & PARTNERIAID  
16 CYSYLLTIADAU CWSMERIAID

18 ADOLYGIAD ARIANNOL  
22 RISG  
25 ADRODDIAD A CHYFRIFON

**Cyflenwi dŵr** 71 cronfa ddŵr a 91 gwaith trin dŵr ■ cyflenwi 900 miliwn litr of ddŵr yfed bob dydd drwy 27,000 cilometr o bibellau dŵr, 550 gorsaf bwmpio a 560 cronfa wasanaeth ■ cynnal dros 300,000 prawf dŵr yn y flwyddyn ■ cyrraedd y targed gostwng gollyngiadau.

**Diogelu'r amgylchedd** 19,000 cilometr o garthffosydd, 1,700 gorsaf pwmpio carthion, 3,300 gorlifriad dŵr storm a 850 gwaith trin dŵr gwastraff ■ cwblhau gwaith trin dŵr gwastraff Caergybi gwerth £35 miliwn ■ 47 gwobr 'baner las', 50 gwobr 'arfordir gwyrdd' a 109 'gwobr glan môr' ■ gweithfeydd trin dŵr gwastraff triniaeth lawn yn gwasanaethu dros 99% o gwsmeriaid.

**Cymunedau, cwsmeriaid & pobl** 1.2 miliwn cwsmer preswyl a dros 100,000 cwsmer busnes

■ 12,000 o blant ysgol wedi ymweld ag un o bedair canolfan addysg Dŵr Cymru ■ canolfan gwasanaeth cwsmeriaid 24 awr, llinell ddi-dâl ■ 3,000 cwsmer wedi cofrestru ar gyfer gwasanaethau ychwanegol.

**Arolwg ariannol** Cynyddu'r 'buddran cwsmeriaid' i £19 ■ gwerth cyfalaf rheoleiddiol o £3 biliwn, dyledion net o £2.4 biliwn ■ wedi cyllido'r rhaglen fuddsoddi gwerth £1.2 biliwn hyd 2010, fydd yn dwyn buddion sylweddol i gwsmeriaid a'r amgylchedd.




Mae **Glas Cymru** yn gwmni un diben a sefydlwyd i gaffaelio, ariannu a rheoli Dŵr Cymru Welsh Water. Sefydlwyd fel 'cwmni cyfyngedig trwy warant' heb gyfranddalwyr. O ganlyniad bydd yn cadw unrhyw wargedion ariannol ac yn eu defnyddio er lles cwsmeriaid Dŵr Cymru. O dan reolaeth Glas Cymru, ariannir asedau a buddsoddiad cyfalaf Dŵr Cymru drwy gyfrwng bondiau, benthyciadau a chronfeydd gwargedion ariannol. Gwneir yr holl weithgaredd beunyddiol gan bartneriaid contract arbenigol a gyflogir gan Dŵr Cymru yn dilyn prosesau tendro cystadleuol. Nod model busnes Glas Cymru yw gostwng costau ariannu asedau Dŵr Cymru, sef cost unigol fwyaf y diwydiant dŵr, a

gwella gwasanaethau wrth gyflogi'r mentrau arbenigol gorau i gynnal pob gweithgaredd y busnes. Hyd yma defnyddiwyd arbedion ariannol i ddatblygu cronfeydd wrth gefn y busnes er mwyn diogelu Dŵr Cymru a'i gwsmeriaid rhag unrhyw gostau annisgwyl a gwella adnoddau credyd er mwyn cadw costau ariannu'r cwmni mor isel â phosibl yn y dyfodol. Yn ogystal mae'r arbedion effeithiolrwydd hyn wedi cyllido rhai buddsoddiadau dethol i wella gwasanaethau a'r 'buddran cwsmeriaid' blynyddol.


O ran maint **Dŵr Cymru** yw chweched cwmni dŵr a charthffosiaeth rheoleiddig Cymru a Lloegr, gan gynrychioli oddeutu 8% o'r sector yn nhermau asedau gweithredol. Mae'n darparu gwasanaeth cyhoeddus hanfodol ar gyfer dros 3 miliwn o bobl yn byw yng Nghymru a rhai ardaloedd cyfagos yn Lloegr. Prif gyfrifoldeb y Cwmni yw rheoli, cynnal a diweddaru ei asedau er mwyn sicrhau cyflenwad dŵr yfed diogel a dibynadwy ar gyfer cwsmeriaid, a delio'n effeithiol â dŵr gwastraff er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd a'r amgylchedd naturiol. Dŵr Cymru yw unig is-gwmni masnachu Glas Cymru.

# Datganiad y Cadeirydd

Mae'n bleser adrodd ar flwyddyn foddhaol arall gan Glas Cymru a'i unig is-gwmni masnachu Dŵr Cymru. Yn gyffredinol, cynhaliwyd ein safonau gwasanaeth uchel ar gyfer ein cwsmeriaid ac, wrth barhau i wella'n perfformiad ariannol, llwyddwyd i gynyddu ein 'buddran cwsmeriaid' i £19.



## Gwasanaethu cwsmeriaid a diogelu'r amgylchedd

Ar sail 'Asesiad Perfformiad Cyffredinol' Ofwat rydym yn amcangyfrif fod Dŵr Cymru wedi cyrraedd 93% o'r uchafswm sgôr, ychydig yn is na 94% y flwyddyn flaenorol pan ddaeth Dŵr Cymru yn gydradd gyntaf o blith y 10 cwmni dŵr a charthffosiaeth rheoledig. Ar 10 o'r 15 mesur allweddol, roeddem ar yr un lefel neu'n well na'r flwyddyn flaenorol. 

Roedd y meysydd y llwyddwyd i wella yn bennaf yn gysylltiedig â gwasanaethau cyflenwi dŵr. Yn gyffredinol, cynhaliwyd safon uchel dŵr yfod Dŵr Cymru wrth wella'r sgoriau ar nifer o fesurau, gan adlewyrchu'r buddsoddiad cyfalaf ar ein rhwydwaith dosbarthu dŵr.

Yn ogystal, roedd nifer yr achosion pwysedd isel ac adeiladau'n colli cyflenwadau ar y lefel isaf erioed. Yn y maes hwn mae Dŵr Cymru wedi profi'n un o'r perfformwyr gorau yn y sector.

Llwyddwyd hefyd i gyrraedd ein targed gostwng gollyngiadau, sy'n golygu ein bod wedi'u gostwng bron 50% dros y 10 mlynedd diwethaf. Bydd Dŵr Cymru yn tynnu oddeutu 3% o ddŵr glaw ein rhanbarth ar gyfer cyflenwadau dŵr cyhoeddus, o gymharu â thua 20% yn ne ddwyrain Lloegr (50% mewn rhai ardaloedd). Mae gostyngiad yn y galw gan ddiwydiant ac yn ein gollyngiadau dŵr yn golygu fod Dŵr Cymru yn tynnu oddeutu 20% yn llai na 10 mlynedd yn ôl ar gyfer cyflenwadau cyhoeddus. Roedd lefelau glaw'r flwyddyn yn agos at y normal ac mae lefelau ein cronfeydd dŵr yn foddhaol ar hyn o bryd, er bod nifer fach o ardaloedd a allai wynebu problemau cyflenwad/galw yn ystod sychder. Rydym wedi cyflwyno cynlluniau i ddiogelu cyflenwadau yn yr ardaloedd hynny.

Mae rhai o afonydd a dyfroedd arfordir Cymru yn dal o'r safon uchaf yn y Deyrnas Unedig. Yn 2005, roedd 73 o'r 80 traeth nofio dynodedig ar arfordir Cymru wedi cyrraedd y safon 'canllaw' ansawdd dŵr angenrheidiol i ennill gwobr Baner Las Ewrop. O ganlyniad, enillodd Cymru 47 Baner Las ar

gyfer tymor haf 2006, treian o'r nifer a ddyfarnwyd ar draws y Deyrnas Unedig. Cydnabyddir cyfraniad Dŵr Cymru at y canlyniad ardderchog yma gan randdeiliaid y Cwmni.

Cynhaliwyd ein perfformiad ar gytundebau arllwys o'n gweithfeydd trin dŵr gwastraff ar lefel o 99%. Fodd bynnag, mae'r canlyniad yma'n tueddu i guddio'r ffaith fod angen ymdrech fawr ar sawl safle trin dŵr gwastraff allweddol, yn cynnwys Llangefni, Henffordd ac Abertawe, gan ein partneriaid gweithredu a chyfalaf er mwyn cyfarfod â safonau amgylcheddol tynn drwy gydol y flwyddyn. Cofnodwyd 311 achos llifogydd carthffosydd yn ystod y flwyddyn, ychydig yn uwch na'r flwyddyn flaenorol. Yn ogystal, yn dilyn problemau ar ein rhwydwaith carthffosydd cofnodwyd 17 achos llygredd difrifol, o gymharu ag 8 yn y flwyddyn flaenorol. Mae gostwng nifer y gweithfeydd trin dŵr gwastraff mewn perygl o fethu cyfarfod â'r safonau a gwella dibynadwyedd y rhwydwaith carthffosydd yn dal yn flaenoriaeth i'r Cwmni.

### Cryptosporidiwm yn y gogledd

Mae'n debyg yr wynebwyd yr her fwyaf ers i Glas Cymru ddod yn berchennog Dŵr Cymru ym mis Tachwedd 2005 pan gysylltwyd nifer uwch na'r arfer o achosion salwch, yn deillio o bresenoldeb cryptosporidiwm, â dŵr tap a gyflenwyd gan waith trin dŵr Cwellyn yn Eryri.

Penderfynodd Tim Monitro'r Digwyddiad, yr oedd y cwmni yn aelod llawn ohono, y dylai Dŵr Cymru anfon Hysbysiad Berwi Dŵr i 30,000 cwsmer oedd yn derbyn dŵr gan waith Cwellyn. Gwnaed hynny ar ôl ystyried yr holl ddata ac er bod gwaith trin dŵr Cwellyn yn gweithio'n normal. Er mwyn cymryd camau i adfer hyder y cyhoedd yn eu dŵr tap, gosododd Dŵr Cymru adnoddau trin dŵr uwchfioled ychwanegol yng ngwaith Cwellyn dros gyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd. Unwaith y dechreuodd weithio'n effeithiol, terfynodd y Tim Monitro yr Hysbysiad Berwi Dŵr ar ddiwedd Ionawr 2006.

Profodd y sefyllfa'n anghyfleus iawn i nifer fawr o'n cwsmeriaid ar adeg prysur iawn o'r flwyddyn. O ganlyniad fe wnaethom daliad *ex gratia* o £25 i bob cwsmer a effeithiwyd gan yr Hysbysiad Berwi Dŵr. Yn ogystal, profodd yn gyfnod heriol i'r tîm monitro, oedd yn cynnwys aelodau o bob rhan o gynghrair rheoli asedau Dŵr Cymru, a hoffwn dalu teyrnged iddynt am eu hymdrechion dros gyfnod anodd iawn.

### Cyllid a'r 'buddran cwsmeriaid'

Gwnaed llawer o waith ariannu yn ystod y flwyddyn, gan godi bron £600 miliwn ar gyfraddau llog cystadleuol. Byddwn yn arbed rhyw £6 miliwn y flwyddyn ar ôl ail-ariannu £525 miliwn o fondiau cyfradd ansefydlog yn ystod y flwyddyn. Bydd gwella'n heffeithiolrwydd ariannol yn ein helpu i gadw biliau cwsmeriaid yn is yn y dyfodol.

Ein nod ariannol allweddol yw gostwng lefelau dyledion net fel cyfran o Werth Cyfalaf Rheoleiddiol y Cwmni. Ar 31 Mawrth 2006, roedd y mesur gerio ariannol hwn yn 78%, o gymharu â 93% ym Mai 2001 pan gaffaeliodd Glas Cymru asedau Dŵr Cymru. Ar 31 Mawrth 2006 roedd 'cronfeydd ariannol' (sef y Gwerth Cyfalaf llai dyled net) yn werth £683 miliwn, o gymharu ag oddeutu £150 miliwn yn 2001 pan gymrwyd drosodd Dŵr Cymru. Yn wyneb y perfformiad ariannol gwell na'r disgwyl yma, penderfynodd y Bwrdd gynyddu'r 'buddran cwsmeriaid' o £18 i £19 ar gost o ryw £24 miliwn dros y flwyddyn.

Ar sail y 'buddran cwsmeriaid' ni fydd bil preswyl cyfartalog Dŵr Cymru yn uwch yn 2010 nag yr oedd yn 2000 mewn termau real. Ac yn ystod yr un cyfnod 10 mlynedd bydd Dŵr Cymru wedi buddsoddi tua £2.5 biliwn ar gynnal ei asedau a gwella gwasanaethau cwsmeriaid a'r amgylchedd. Mae'r 'buddran cwsmeriaid' o £19 wedi helpu i liniaru'r cynnydd mewn prisiau a wynebodd ein cwsmeriaid y llynedd yn dilyn adolygiad prisiau Ofwat, ac o help arbennig i gwsmeriaid ar incwm isel. Yn ei dro, bydd yn gwneud cyfraniad sylweddol at ein perfformiad casglu arian, sy'n un o'r gorau yn y sector.

### Pumed pen-blwydd

Ym mis Mai eleni, dathlwyd pumed pen-blwydd y dyroddiad bondiau gwerth £1.9 biliwn a ariannodd gaffaeliad Glas Cymru o Dŵr Cymru. Gall pawb a gefnogodd y dyroddiad bryd hynny, a phawb sydd wedi cydweithio â Dŵr Cymru ers 2001, edrych yn ôl gyda chrym foddhad ar y cyfnod hwnnw o weld beth a gyflawnwyd a'r gwelliant mewn perfformiad ers hynny.

Mae Dŵr Cymru wedi esgyn i frig cynghrair 'Asesiad Perfformiad Cyffredinol' Ofwat ar ôl bod yn agos at y gwaelod bum mlynedd yn ôl. Mae ansawdd afonydd a dyfroedd arfordir ein rhanbarth wedi parhau i wella ac yn awr yn cymharu â'r gorau yn y Deyrnas Unedig. Ers 2001 mae Glas Cymru wedi codi dros £1 biliwn ar y marchnadoedd cyfalaf - ar rai o'r cyfraddau llog isaf a gytunwyd gan unrhyw gwmni cyfleustodau ers preifateiddio'r diwydiant - er mwyn ariannu Dŵr Cymru a'i raglen buddsoddiad cyfalaf estynedig. Wrth wella cost effeithiolrwydd y busnes, mae 'cronfeydd ariannol' wedi tyfu i £683 miliwn, 22% o werth cyfalaf ei asedau, gan alluogi Dŵr Cymru i fod yr unig gwmni cyfleustodau i dalu 'buddran cwsmeriaid' blynyddol.

### Edrych ymlaen

Mae Ofwat wedi gosod targedau heriol ar gyfer Dŵr Cymru o ran parhau i wella cost effeithiolrwydd ym meysydd gweithredu a buddsoddiad cyfalaf. Credwn byddwn yn gallu cyrraedd y targedau hynny, er yn wynebu cynnydd sylweddol yn ein costau, yn arbennig costau pŵer a gododd oddeutu £9 miliwn, dros 50%, yn ystod y flwyddyn.

Llwyddwyd i drosglwyddo i contractau newydd hir dymor ar gyfer cyflenwi gwasanaethau, buddsoddiad cyfalaf a gwasanaethau incwm a bilio, heb effeithio lefelau gwasanaeth cwsmeriaid. Rydym wedi dechrau ar ein rhaglen buddsoddiad cyfalaf AMP4 heriol gwerth £1.2 biliwn am y cyfnod 2005-2010. Bydd y buddsoddiad parhaus yn arwain at welliannau pellach mewn gwasanaethau cwsmeriaid a'r

amgylchedd yn gyffredinol. Rwy'n falch iawn o weld ymateb Dŵr Cymru a'n partneriaid newydd i'r amryw heriau a wynebwyd yn ystod y flwyddyn, yn arbennig wrth gefnogi'r Tim Monitro achosion salwch o gryptosporidiwm yn y gogledd orllewin.

Er bod llawer o waith yn dal i'w wneud dros y blynyddoedd nesaf, o dan berchnogaeth Glas Cymru rwy'n

hyderus bydd Dŵr Cymru yn parhau i wella gwasanaethau a chynnig gwerth da am yr arian i'n cwsmeriaid.



**Arglwydd Burns**  
Cadeirydd

## 1 Mesurau perfformiad allweddol

Blwyddyn hyd 31 Mawrth 2006	Targed cynllun monitro <sup>5</sup>	Perfformiad blaenorol 2004-05	Perfformiad gwirioneddol 2005-06	Cyrraedd/curo'r targed	Cyrraedd/curo'r flwyddyn flaenorol
<b>Gwasanaeth cwsmeriaid</b>					
Adeiladau 'mewn perygl' o dderbyn pwysedd isel	242	235	221	✓	✓
Ymriadau cyflenwad dŵr anghynlluniedig	1,080	770	454	✓	✓
Adeiladau 'mewn perygl' o lifogydd carthffosydd <sup>1</sup>	528	n/a	514	✓	n/a
Lifogydd mewn adeiladau oherwydd carthffosydd gorlawn	136	108	81	✓	✓
Lifogydd mewn adeiladau oherwydd achosion eraill	120	108	150	✗	✗
Ymholiadau biliau atebwyd o fewn 5 dydd	100%	99.9%	99.9%	✗	✓
Cwynion ysgrifenedig atebwyd o fewn 10 diwrnod	99.9%	99.9%	99.4%	✗	✗
Cwynion ysgrifenedig derbyniwyd	n/a	8,202	9,948	n/a	✗
Mesuryddion darllenwyd yn y flwyddyn	99.9%	99.9%	99.9%	✓	✓
Galwadau ffôn ofer	1.3%	1.5%	1.6%	✗	✗
Galwadau ffôn yn derbyn tonau prysur	0%	0%	0.3%	✗	✗
Bodddhad galwadau ffôn <sup>2</sup>	n/a	n/a	4.59	n/a	n/a
<b>Ansawdd dŵr</b>					
Ansawdd dŵr 'o'r tap' <sup>3C</sup>	n/a	99.9%	99.9%	n/a	✓
Lefelau bacteria 'o'r tap' <sup>C</sup>	n/a	99.6%	99.6%	n/a	✓
Lefelau haearn 'o'r tap' <sup>C</sup>	98.9%	98.9%	99.2%	✓	✓
Mynegai Perfformiad Gweithredu <sup>C</sup>	n/a	99.7%	99.8%	n/a	✓
Mynegai Perfformiad Gweithredu (TIM) <sup>4C</sup>	n/a	99.5%	99.7%	n/a	✓
<b>Amgylchedd</b>					
Gollyngiadau (m <sup>3</sup> /km/day)	8.2	8.3	8.2	✓	✓
Achosion llygredd 'categori 1 a 2' <sup>C</sup>	n/a	8	17 <sup>6</sup>	n/a	✗
Achosion llygredd 'categori 3' <sup>C</sup>	n/a	195	194	n/a	✓
Gweithfeydd trin dŵr gwastraff yn dilyn safonau <sup>C</sup>	100%	100%	99.0%	✗	✗
Ailgylchu llaid carthion boddhaol <sup>C</sup>	100%	100%	100%	✓	✓
Dilyn safonau dŵr nofio arfordir 'mandadol' <sup>C</sup>	100%	100%	100%	✓	✓
Dilyn safonau dŵr nofio arfordir 'canllaw' <sup>C</sup>	n/a	86%	91%	n/a	✓

<sup>1</sup> Newidiwyd y categori yn 2005, gan gynyddu'r nifer.

<sup>2</sup> Mesur newydd ar gyfer 2005-06, sgôr allan o uchafswm o 5.

<sup>3</sup> Mesur yn awr yn seiliedig ar 'perfformiad cyfartalog ardal'.

<sup>4</sup> Mesur newydd ar gyfer 2005-06 sy'n ystyried perfformiad tyrfedd, haearn a manganis.

<sup>5</sup> Cynllun Monitro yn nodi targedau a gytunwyd â'r rheoleiddwyr adeg Adolygiad Prisiau 2004 ac yn gymwys ar gyfer y cyfnod pum mlynedd hyd 31 Mawrth 2010.

<sup>6</sup> 9 o'r achosion llygredd wedi deillio o 'allyriadau safonol', o gymharu ag 1 yn 2005.

<sup>C</sup> Blwyddyn galendr 2005, pob ffigur arall am y flwyddyn ariannol yn diwedd 31 Mawrth 2006.

# Cyflenwi dŵr

Prif gyfrifoldeb Dŵr Cymru yw darparu cyflenwad dŵr yfed diogel a dibynadwy ar gyfer ei gwsmeriaid, 24 awr, 365 diwrnod y flwyddyn, tra'n sicrhau na fydd gwaith tynnu a chyflenwi dŵr yn niweidio'r amgylchedd.

Mae Dŵr Cymru yn darparu gwasanaeth cyhoeddus hanfodol, gyda phwysigrwydd dŵr yfed yn nhermau iechyd y cyhoedd yn golygu rheoleiddiad cadarn o'n gwasanaethau cyflenwi dŵr. Mae llawer o'n gwaith yn destun rheolau statudol, gyda'r Arolygaeth Dŵr Yfed yn sicrhau ein bod yn dilyn y safonau perthnasol.

Byddwn yn monitro ansawdd a dibynadwyedd gwasanaethau ar gyfer ein cwsmeriaid, yn arbennig cyflenwi dŵr yfed diogel ac iachus, wrth ddilyn mesurau perfformiad allweddol.

## Adnoddau dŵr

Yn ystod y flwyddyn roedd lefelau glaw yn ardal Dŵr Cymru yn debyg i'r normal. Byddwn yn tynnu tua 95% o'r dŵr o afonydd a chronfeydd ar draws y wlad, gan gynnal lefelau'r afonydd wrth ryddhau dŵr o gronfeydd cadw yn unol â chytundebau gydag Asiantaeth yr Amgylchedd. Mae'r cytundebau hyn yn cynnwys amodau i gynnal llifau dŵr adeg cyfnodau sych. Byddwn yn tynnu'r 5% arall o ddŵr o'r tir, o ffynhonnau a thyllau turio.

Dros y 10 mlynedd diwethaf bron hanerwyd ein lefelau gollyngiadau, gyda'n perfformiad ar ollyngiadau'n debyg i weddill y diwydiant ar sail colledion per cilomedr o bibellau. Yn ystod y flwyddyn buddsoddwyd dros £6 miliwn ar waith i ostwng gollyngiadau. Trwsiodd 50 rhwygiad bob dydd ar gyfartaledd, gydag oddeutu 200 aelod staff yn gweithio llawn amser ar ddatgelu, trwsio ac atal gollyngiadau. Mae'r holl waith yma wedi gostwng gollyngiadau i 8.2m<sup>3</sup> per cilomedr o bibellau dŵr y dydd (2004-05: 8.3m<sup>3</sup> per cilomedr per dydd). 4

Gwelwyd cynnydd araf yn y galw am gyflenwadau preswyl ond mae'r galw am gyflenwadau dibreswyl wedi gostwng mwy, yn bennaf oherwydd y dirywiad ym meysydd gweithgynhyrchu a diwydiannau trwm. Mae hynny, ynghyd â'r gostyngiad mewn gollyngiadau, wedi cwtdogi'r angen i dynnu dŵr ar gyfer cyflenwadau cyhoeddus. Mae dosbarthiad dŵr wedi gostwng mwy na 10% dros y pum mlynedd diwethaf. Dosbarthiad cyfartalog 2005-06 oedd 866 MI/dydd. 5

Fodd bynnag, er yr adnoddau dŵr cymharol gryf mae rhai ardaloedd yn wynebu problemau cyflenwi

yn ystod cyfnodau sych. Trefnwyd cynlluniau i ddiogelu cyflenwadau yn yr ardaloedd hynny. 4

## Ansawdd dŵr yfed

Yn unol â'n mesurau monitro ansawdd, cynhaliwyd dros 300,000 prawf dŵr yn ystod y flwyddyn. Nodir nifer, amlder a math y samplau angenrheidiol yn y Rheoliadau Cyflenwi Dŵr (Ansawdd Dŵr) a ddaeth i rym ar 1 Ionawr 2004. Trosglwyddir y canlyniadau i'r Arolygaeth Dŵr Yfed, sy'n gwirio'r data.

Yn gyffredinol, cynhaliwyd safon uchel dŵr yfed Dŵr Cymru yn 2005 gan gynnal neu wella cydymffurfriad â nifer o fesurau allweddol.

Mae haearn yn dal yn brif achos dŵr afliwiedig o'r tap. Mae'r rhaglen adnewyddu pibellau a diweddarau gweithdrefnau wedi gwella perfformiad yn sylweddol o gymharu â'r gorffennol. Ein perfformiad ar safonau haearn oedd 99.2% (2004: 98.9%). 5

## HYDREF 05

DECHRAU GWAITH AR GYNLLUN GWERTH £2 MILIWN I GYNNAL SAFONAU DŴR YFED TRIGOLION POWYS.

Yn gyffredinol, roedd y perfformiad bacteriolegol yn debyg i 2004, ond llwyddwyd i wella'r perfformiad yn erbyn prif fesur ansawdd dŵr y diwydiant, sef OPI (operational performance index). OPI yw'r mesur cyffredinol o chwe pharamedr ansawdd dŵr sy'n adlewyrchu perfformiad gweithfeydd trin dŵr a'r rhwydweithiau dosbarthu. Ein perfformiad yn 2005 oedd 99.8% (2004: 99.7%). Mae hynny'n adlewyrchu'r ffocws a'r buddsoddiad i ostwng achosion dŵr afliwiedig ac isafu nifer y cwsmeriaid yn wynebu'r fath broblemau.


Yn ystod y flwyddyn awgrymodd yr Arolygaeth Dŵr Yfed newidiadau i fesur OPI er mwyn adlewyrchu disgwyliadau cwsmeriaid a'u pryderon am ansawdd dŵr yfed. O ganlyniad, mae'r darpar fesur OPI newydd (TIM) yn ystyried perfformiad tyrfedd, haearn a manganis, sef y prif ffactorau sy'n tueddu i afliwio dŵr.

Ar ôl cyflwyno'r rheoliadau newydd, penderfynodd yr Arolygaeth Dŵr Yfed gyflwyno mesur newydd ar gyfer ansawdd dŵr o'r tap - sef cydymffurfiad ardal cymedrig (mean


zonal compliance). Ein perfformiad yn 2005 oedd 99.9% (2004: 99.9%).

Yn ystod y flwyddyn gweithiwyd ar gynllun gwerth £11 miliwn yng Nghwm Tawe, ble roedd cwsmeriaid wedi wynebu cyfnodau o ddŵr afliwiedig oherwydd cyflwr y prif bibellau dŵr yn lleol. Er mwyn isafu'r effaith ar gyflenwadau a chwsmeriaid, trefnwyd y gwaith mewn dau gymal a rhagwelir ei offen yn 2006.


## 2 Gollyngiadau




## 3 Dosbarthiad



## 4 Cyflenwad a galw



## 5 Cydymffurfiad haearn a manganis



## 6 Cydymffurfiad bacteriolegol

	Cydymffurfiad 2005	Cydymffurfiad 2004
<b>Gwaith trin dŵr</b>		
Coliforms	99.9%	99.9%
E-Coli	100%	100%
<b>Cronfeydd gwasanaeth</b>		
Coliforms	99.9%	99.9%
E-Coli	100%	99.9%
<b>Cydymffurfiad ansawdd dŵr</b>		
Coliforms	99.6%	99.6%
E-Coli	99.9%	99.9%

Blwyddyn galendr

### Cryptosporidiwm

Ym mis Tachwedd 2005 datgelwyd nifer uwch na'r arfer o achosion salwch yn deillio o gryptosporidiwm yn y gogledd orllewin, a gysylltwyd â dŵr tap o waith trin dŵr Cwellyn yn Eryri. Yn dilyn cyngor gan y Tim Monitro, yr oedd Dŵr Cymru yn aelod llawn ohono, dosbarthwyd Hysbysiad Berwi Dŵr i 30,000 cartref a busnes yn derbyn dŵr gan Cwellyn. Cymrwyd y cam hwnnw er mwyn tawelu meddyliau'r cyhoedd er bod gwaith trin dŵr Cwellyn yn gweithio'n normal. Gosodwyd adnoddau trin uwchfioled yno dros gyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd ac unwaith y dechreuodd y rheiny weithio'n iawn codwyd yr Hysbysiad Berwi Dŵr ar ddiwedd Ionawr 2006.

### Systemau rheoli ansawdd

Mae'n rhaid cynnal systemau rheoli ansawdd er mwyn rheoli gweithgaredd beunyddiol y Cwmni yn effeithiol. Mae ein partner contract United Utilities wedi ennill achrediad ISO 9001 - 2000 ac wedi trosi o ISO 14001 - 1996 i safon amgylcheddol newydd ISO 14001 - 2004 yn ystod y flwyddyn.

Yn ystod y flwyddyn, derbyniodd ein partner contract Severn Trent Laboratories ei chweched a seithfed asesiad gan Bsi, gan gynnal ei achrediad ISO 9001 - 2000.

### Cynnal cyflenwadau

Ar gyfartaledd mae gan Dŵr Cymru fwy o bibellau dŵr na chwmmiau dŵr eraill ac mae'n wynebu mwy o rwygiadau na chyfartaledd y diwydiant. Y prif reswm am hynny yw oedran a chyflwr ein rhwydwaith dosbarthu 27,000 cilomedr ac amgylchedd gweithredu cyffredinol y Cwmni. Byddwn yn mesur achosion torri cyflenwadau heb rybudd yn dilyn rhwygiad, difrod trydydd parti neu gwblhau gwaith cynlluniedig yn hwyr. Byddwn yn ceisio tacllo rhwygiadau'n gyflym a chyfyngu ymyrraeth â chyflenwadau i'r cyfnod lleiaf posibl. Dros y pum mlynedd diwethaf gostyngwyd nifer yr ymyriadau'n para dros chwe awr (ond llai na 12 awr) gymaint â 70%. Yn ystod y flwyddyn dioddefodd 454 adeilad ymyriad anghynlluniedig â'u cyflenwad (2004-05: 770 adeilad). [8](#)


Byddwn yn anelu i ddarparu isafswm pwysedd dŵr o 10 metr ger y stoptap ar ffin eiddo. Wrth fonitro pwysedd yn ein 1,550 ardal ddosbarthu byddwn yn datgelu potensial broblemau ac yn gwneud gwaith i wella rhwydweithiau cyflenwi fel bo angen. Mae achosion pwysedd isel yn gallu newid wrth i ni gysylltu adeiladau newydd â'r rhwydwaith a phan fyddwn yn addrefnu asedau. Yn ystod y flwyddyn dilëwyd problemau pwysedd isel 1,798 adeilad ond ar ddiwedd y flwyddyn roedd 221 adeilad yn dal mewn perygl o wynebu problemau pwysedd isel (2004-05: 235). [9](#)

### Buddsoddiad cyfalaf [10](#)


Yn ystod y flwyddyn buddsoddwyd £107 miliwn wrth wella neu gynnal ein hasedau dŵr. Adnewyddwyd dros 407 cilomedr o brif bibellau dŵr er mwyn gwella ansawdd ein dŵr a'r perfformiad haearn o'r tap. Yn ogystal cyfnewidiwyd 72 cilomedr pellach o brif bibellau dŵr oedd yn ymyrryd â chyflenwadau cwsmeriaid ac adnewyddwyd 12 cilomedr er mwyn dargyfeirio dŵr.

Ar ben hynny gwnaed gwaith mewn dros 83 gwaith trin dŵr, 51 cronfa wasanaeth a 45 gorsaf pwmpio dŵr.


## 7 Mynegai perfformiad gweithredu



## 8 Ymyrraeth anghynlluniedig â chyflenwadau



## 9 Risg pwysedd isel



## 10 Buddsoddiad dŵr yn y flwyddyn

Gwaith	Gwariant
Gwella gweithfeydd trin dŵr	£4m
Adnewyddu'r rhwydwaith dŵr	£45m
Gosod mesuryddion	£5m
Atal gollyngiadau	£6m
Datblygiadau newydd	£6m
Cynnal asedau	£36m
Arall	£5m
<b>Cyfanswm</b>	<b>£107m</b>

# Diogelu'r amgylchedd

Mae cymunedau drwy'r wlad yn dibynnu ar Dŵr Cymru i gasglu a thrin dŵr gwastraff o gartrefi a busnesau – ynghyd â dŵr arwyneb a ffyrdd – mewn modd sy'n diogelu iechyd y cyhoedd ac yn gwarchod yr amgylchedd.

Yn debyg i ddŵr yfed, mae'n rhaid trin carthion a dŵr gwastraff yn effeithiol er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. O ganlyniad bydd rheoleiddwyr yn monitro gweithgareddau Dŵr Cymru yn ofalus. Mae llawer o'n gwaith yn destun rheolau statudol, gydag Asiantaeth yr Amgylchedd yn monitro ein perfformiad. Byddwn yn rheoli'r busnes yn unol â mesurau rheoleiddiol a pherfformiad sy'n sicrhau ansawdd a dibynadwyedd gwasanaethau ar gyfer ein cwsmeriaid, a'n cydymffurfiaid â safonau amgylcheddol.

## Dibynadwyedd y rhwydwaith carthffosiaeth

Mae llawer o rwydwaith carthffosydd 19,000 cilomedr Dŵr Cymru yn hen, gydag oedran cyfartalog o 60 blynedd, ac oddeutu treian dros 100 oed. Pennir maint y pibellau er mwyn cludo dŵr arwyneb o strydoedd ac ati ynghyd â dŵr gwastraff o gartrefi a busnesau. Mewn rhai llefydd nid yw'r rhwydwaith carthffosydd yn gallu ymdopi â'r llif dŵr ar ôl glaw trwm, sy'n gallu arwain at ddŵr yn llifo i mewn i adeiladau. Byddwn yn mesur y tebygolrwydd o hynny ac yn cofnodi achosion gwirioneddol yn deillio o orlwytho carthffosydd ac achosion eraill, megis rhwystrau mewn pibellau a charthffosydd yn cwmpo.

Y llynedd buddsoddodd y Cwmni bron £4 miliwn er mwyn gostwng y risg o lifogydd o garthffosydd. Roedd yn cynnwys gostwng y posibilrwydd o lifogydd i mewn i 89 adeilad, 82 ohonynt ar ein cofrestr 'risg'. Ad-drefnwyd y gofrestr ar ddechrau'r flwyddyn i gynnwys adeiladau yr ystyriwyd gynt yn llai tebygol o ddioddef llifogydd, yn unol â methodoleg Ofwat. Yn ogystal, gwnaed gwaith ar 85 safle i ostwng y risg o lifogydd allanol. Yn ystod y flwyddyn, dioddefodd 81 adeilad lifogydd o garthffosydd yn gorlifo yn dilyn glaw trwm iawn. Dioddefodd 150 adeilad pellach lifogydd am resymau eraill, yn cynnwys rhwystrau o fewn pibellau a charthffosydd yn cwmpo. **i1** Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd 514 adeilad yn dal ar y gofrestr 'risg' **i2**

Byddwn yn dilyn rhaglen i waredu llaid, glanhau ac archwilio carthffosydd. Yn ystod y flwyddyn, archwiliwyd 72 cilomedr o garthffosydd gyda CCTV, sy'n ein helpu i asesu cyflwr y carthffosydd a buddsoddi yn y manau iawn.

Mae gostwng y risg o garthffosydd yn gorlifo yn dal yn flaenoriaeth i Dŵr Cymru a byddwn yn parhau i daclo problemau mewn adeiladau sy'n dioddef o lifogydd, ond mae'n anochel bydd achosion newydd

yn codi bob blwyddyn. Rydym wedi sefydlu amryw fentrau i nodi'r problemau, yn cynnwys 'fforymau llifogydd', er mwyn cydweithio â phob parti cysylltiedig. Maent yn cynnwys trigolion a hefyd y rheoleiddwyr ac awdurdodau eraill sy'n gyfrifol am ddraenio tir.

Yn ystod y flwyddyn cwmpodd 28.9 per 1,000 cilomedr o garthffosydd (2004-05: 29.2 cilomedr per 1,000 cilomedr). Mae ein perfformiad yn y maes hwn yn dal yn uwch na chyfartaledd y diwydiant (tua 13 per 1,000 cilomedr) ond mae wedi gwella dros y pum mlynedd diwethaf. **i3**

## Gorlifiadau dŵr storm

Mae bron 3,300 gorlifiad dŵr storm ar rwydwaith carthffosydd Dŵr Cymru a bydd y rhaglen fuddsoddi a gytunwyd gydag Asiantaeth Amgylchedd Cymru yn uwchraddio'r 460 sy'n gweithio'n anfodddhaol ar hyn o bryd. Uwchraddiwyd 62 gorlifiad dŵr storm yn ystod y flwyddyn gyntaf.

Yn ystod blwyddyn galendr 2005 roedd Dŵr Cymru yn gyfrifol am 17 achos llygredd 'categori 1' a 'categori 2'. **i4** Achoswyd y digwyddiadau difrifol hyn gan fethiant asedau neu problemau eraill ar ein rhwydwaith carthffosydd.

## GORFFENNAF 05

CWBLHAU CYNLLUN DŴR GWASTRAFF GWERTH  
£4.4 MILIWN YN WRECSAM.

## MEDI 05

GWAITH YN PARHAU AR RAGLEN FUDDSODDI GWERTH  
£53 MILIWN I WELLA DŴR NOFIO YN ARDAL Y BARRI.

Yn ogystal, roedd Dŵr Cymru yn gyfrifol am 194 digwyddiad 'categori 3' a achosodd niwed amgylcheddol cymharol fach.

Mae gwella perfformiad ar ddigwyddiadau amgylcheddol yn rhan bwysig o'r busnes. Eleni, diweddarwyd ein strategaeth gostwng achosion llygredd, gan sefydlu nifer o fentrau, yn cynnwys buddsoddiad pellach, gwella systemau data ac arwyddion, ac edrych i mewn i'r posibilrwydd o osod unedau telemetreg ar safleoedd.


### Trin dŵr gwastraff

Mae oddeutu 850 gwaith trin dŵr gwastraff yn rhanbarth Dŵr Cymru. Erbyn hyn gwasanaethir 99% o'n cwsmeriaid gan weithfeydd sy'n darparu triniaeth lawn, yn cynnwys prosesau biolegol a diheintio uwchfioled mewn lleoliadau allweddol ar yr arfordir. Yn 1996 dim ond 59% o'r dŵr gwastraff a gasglwyd gan Dŵr Cymru oedd yn derbyn triniaeth o'r fath. O ganlyniad, erbyn hyn rydym yn gollwng dŵr gwastraff i afonydd neu'r môr mewn ffordd sy'n diogelu'r amgylchedd.


Asiantaeth yr Amgylchedd sy'n pennu cytundebau gollwng dŵr gwastraff er mwyn diogelu ansawdd dŵr afonydd ac arfordir, ac yn monitro perfformiad Dŵr Cymru yn y maes. Yn 2005 cyfarfu'r Cwmni â 99% o'r safonau (2004: 99.3%). **15**

Rydym yn diheintio elifiant o 33 o'n gweithfeydd trin dŵr gwastraff gyda phrosesau uwchfioled, dull effeithiol o ostwng lefelau bacteria mewn gwelyau pysgod cregyn a dŵr nofio. Yn ystod y flwyddyn cyfarfu pob safle uwchfioled â'r

### 11 Carthffosydd yn gorlifo




### 12 Cofrestr risg gorlif carthffosydd




### 13 Carthffosydd yn cwmpo per 1,000 cilomedr



### 14 Llygredd



### 15 Cydymffurfriad trin dŵr gwastraff



safonau angenrheidiol, o gymharu â 2001 pan oedd dim ond 21% yn gwneud hynny.

### **Ansawdd dŵr arfordir ac afonydd**

Mae arfordir ardal Dŵr Cymru yn un o'r hiraf yn y sector, gyda diogelu dŵr oddi ar yr arfordir yn bwysig i'r diwydiant twristiaeth, sy'n cyflogi oddeutu 100,000 ac yn gwneud cyfraniad sylweddol at yr economi.

Yn 2005 cyrhaeddodd yr 80 traeth nofio (dosbarthiad yr Undeb Ewropeaidd) yng Nghymru y safonau mandadol a fynnir gan ddeddfwriaeth. Yn ogystal, cyrhaeddodd 73 traeth y safon 'canllaw' uchel iawn, y nifer fwyaf erioed. **16** Ar sail hynny, derbyniodd Cymru 47 'Baner Las' ar gyfer tymor 2006, treian o gyfanswm y Deyrnas Unedig, a 50 gwobr 'Arfordir Gwyrdd' ar gyfer traethau gwledig. **17** Dyma'r canlyniadau gorau hyd yma. **18** Ers 1995 mae Dŵr Cymru wedi buddsoddi dros £1 biliwn wrth ddiweddarau neu adeiladu gweithfeydd trin dŵr gwastraff drwy'r wlad er mwyn cyrraedd y safonau hyn.


Yn ogystal, mae safon afonydd Cymru yn cymharu â'r gorau yn y Deyrnas Unedig. Yn ôl arolwg ansawdd dŵr afonydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn 2004, roedd dros 98% o afonydd Cymru yn dda neu gweddol yn nhermau ansawdd cemegol a dros 99% yn dda neu gweddol o ran ansawdd biolegol. **19**

### **Buddsoddiad cyfalaf **20****


Yn ystod y flwyddyn buddsoddwyd £130 miliwn er mwyn gwella neu gynnal asedau dŵr gwastraff. Cwblhawyd cynlluniau diweddarau mewn dros 185 lleoliad a gwaith cynnal a chadw ar dros 500 safle. Roedd y gwaith yn golygu gwella 86 gorlifiad dŵr storm, yn cynnwys cynlluniau mawr yn Afan/Baglan a Rhosydd Cog, er mwyn gwella dŵr nofio yn Aberafan a'r Barri. Yn ogystal gwnaed gwaith mewn 81 gwaith trin dŵr gwastraff ac fe gwblhawyd gwaith trin dŵr gwastraff newydd Caerdybi. Bydd y cynllun gwerth £35 miliwn yn gwasanaethu 25,000 o bobl ar Ynys Môn. Mae'n cynnwys y prosesau trin biolegol diweddaraf ac fe gynlluniwyd er mwyn isafu'r effaith ar amgylchedd ac ecoleg yr ardal. Yn ogystal, gosodwyd 70 cilomedr o garthffosydd newydd ac adnewyddwyd 13 cilomedr.

Yn ystod y cyfnod adolygwyd 23 cynllun yn darparu cysylltiadau carthffosydd newydd fel rhan o'n rhaglen fonitro. Yn dilyn yr asesiad penderfynwyd mynd ymlaen â 6 cynllun yn ystod gweddill cyfnod AMP4.


## 16 Ansawdd dŵr nofo




## 17 Gwobrau traethau



## 18 Lleoliad traethau



## 19 Ansawdd dŵr afonydd



## 20 Buddsoddiad cyfalaf yn y flwyddyn

Gwaith	Gwariant
Gwella gweithfeydd trin dŵr gwastraff	£45m
Uwchraddio gorlifadau carthffosydd cyfunol	£40m
Darparu carthffosydd am y tro cyntaf	£1m
Atal gorlifadau carthffosydd	£4m
Cynnal carthffosydd	£10m
Trin llaid	£2m
Cysylltu datblygiadau newydd	£4m
Cynnal asedau dŵr gwastraff	£19m
Arall	£5m
<b>Cyfanswm</b>	<b>£130m</b>

# Gweithio ar ran cymunedau

Mae gwasanaethu cymunedau a'r amgylchedd yn bwysig iawn i Dŵr Cymru.

Ein nod yw bod yn bartner gwerthfawr a dibynadwy i'r ardaloedd byddwn yn gwasanaethu, wrth weithio i geisio gwneud gwahaniaeth o fewn y cymunedau hynny. O ganlyniad rydym wedi buddsoddi mewn nifer o feysydd o fudd uniongyrchol i'n cwsmeriaid.

## Addysg

Byddwn yn gweithio'n galed i gefnogi addysg. Fel rhan o'r rhaglen Byw a Dysgu gyda Dŵr, y llynedd ymwelodd 12,000 plentyn ag un o bedair canolfan addysg amgylcheddol Dŵr Cymru ar gyfer gwersi am ddim yn gysylltiedig â'r cwricwlwm. <sup>21</sup> Hyd yma mae dros 64,000 o blant ysgol wedi ymweld â'r canolfannau hyn. Paratoir a chyflwynir y gwersi gan athrawon ar secondiad, a byddant yn trafod cynefinoedd a chynnal natur, a hyrwyddo gwell dealltwriaeth o ddŵr yn ein bywydau bob dydd.

Erbyn hyn mae'r rhyngwyd yn arf dysg pwerus, gartref ac yn yr ysgol, ac rydym wedi datblygu gwefan addysg sy'n cynnwys adnoddau rhyngweithiol.

Mae'r wefan [www.livingandlearningwithwater.com](http://www.livingandlearningwithwater.com) yn ategu adnoddau gwefan dŵr yn yr ysgol [www.waterintheschool.co.uk](http://www.waterintheschool.co.uk)



a ddatblygwyd gyda rhai cwmnïau dŵr eraill, ac yn darparu popeth sydd angen i drefnu project cadwraeth dŵr. Mae hefyd yn ategu adnoddau'r CDROM (Water-World Explorers) a ddsbarthwyd i bob ysgol gynradd yn ein rhanbarth.

Yn ogystal mae Dŵr Cymru wedi cydweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth y Cynulliad i gefnogi'r fenter 'Think Water – Dewis Dŵr'.

Mae wedi darparu adnoddau dŵr oer mewn dros 380 ysgol yn ardaloedd Cymunedau Gyntaf Cymru.

## Hamdden

Mae Dŵr Cymru yn berchen dros 35,000 hectar o dir yng Nghymru, llawer ohono mewn ardaloedd prydfarth ac amgylcheddol sensitif.

Mae safleoedd 17 cronfa ddŵr yn agored i'r cyhoedd, sy'n darparu adnoddau chwaraeon a hamdden, ac yn cefnogi'r diwydiant twristiaeth. <sup>22</sup> Yn 2005 ymwelodd oddeutu 1 miliwn o bobl â'n gwahanol safleoedd, megis cronfa Llandegfedd neu'r canolfannau ymwelwyr yn Llys y Frân, Cwm Elan a Llyn Brenig.

## Treftadaeth

Am lawer o flynyddoedd mae'r Cwmni wedi cefnogi Amgueddfa Gwaith Dŵr Henffordd, sy'n casglu, adfer a dangos peiriannau'n gysylltiedig â chyflenwi dŵr yng Nghymru a'r Gororau. Eleni, gyda chymorth Cyllid y Loteri Dreftadaeth, English Heritage a Dŵr Cymru, mae'r Amgueddfa wedi adnewyddu is-orsaf pwmpio dŵr Broomy Hill, sydd ei hun yn gofodail. Rydym hefyd wedi darparu tir ychwanegol er mwyn ehangu'r amgueddfa yn y dyfodol.

## Gwirfoddoli

Rydym yn dal i hyrwyddo ein cynllun cymunedol sy'n helpu aelodau staff i gyfrannu at waith elusennol neu brojectau eraill o fewn eu cymunedau. Bydd llawer o'n staff ni a gweithwyr partneriaid contract yn gwirfoddoli i helpu projectau ac elusennau cymunedol.

## Atal trosedd

Yn ogystal, mae Dŵr Cymru yn cydweithio'n agos ag amryw gyrrff cymunedol i geisio atal trosedd. Rydym wedi cydweithio â'r heddlu a chyrrff eraill er mwyn taclo byrgleriaeth, gan helpu i ostwng y lefelau ble sefydlwyd partneriaethau lleol.

## GORFFENNAF 05

YSGOL GYNRADD PANTSIDE YN ENNILL CYSTADLEUAETH CERDDI DARLUNIADOL DŴR CYMRU, I HYRWYDDO BIOAMRYWIAETH MEWN CYNEFINOEDD DŴR.

## AWST 05

BEICATHON YMCHWIL LEWCEMIA 10 MILLTIR AR SAFLE LLYN BRENIG.

### Her ryngwladol

Sefydlwyd WaterAid fel elusen ryngwladol i ddarparu dŵr preswyl diogel, adnoddau glanweithdra ac addysg hylendid ar gyfer rhai o gymunedau tlotaf y byd. Ail-lansiwyd yng Nghymru yn 2004 ac mae ein staff yn glynu at eu targed i godi £1 miliwn erbyn 2014 wrth drefnu gweithgareddau codi arian gydol y flwyddyn. Codwyd dros £100,000 y llynedd. Yn ogystal, mae'r Cwmni wedi cynnal loteri WaterAid am flynyddoedd gyda chymorth y staff a byddwn yn gwahodd ein cwsmeriaid i gefnogi WaterAid bob blwyddyn. Y llynedd codwyd dros £30,000 ar ran yr elusen.

### Dŵr Cymru a'r amgylchedd


Mae Dŵr Cymru yn gweithio'n galed i ddiogelu a gwella amgylchedd yr ardaloedd mae'n gwasanaethu. Byddwn nid yn unig yn cyfarfod â'n dyletswyddau statudol, ond yn mynd ymhellach wrth ymgynghori a ffurfio partneriaethau gyda chyrff cymunedol, amgylcheddol a chadwraethol. Fe gefnogir y broses wrth drefnu cyfarfod blynyddol gydag uwch gynrychiolwyr ein rhanddeiliaid amgylcheddol.

Rydym yn ymwybodol o botensial effaith ein gwaith ar yr amgylchedd ac o'n cyfrifoldeb i'w ddiogelu er lles cenedlaethau'r dyfodol. Ar lefel sylfaenol byddwn yn ceisio isafu

unrhyw effaith ar yr amgylchedd wrth wneud ein gwaith, ynghyd ag unrhyw aflonyddwch ar gymunedau. Byddwn yn llunio rhaglenni gwaith er mwyn cyfyngu gwaith adeiladu a, ble'n bosibl gwella'r manau perthnasol er lles cymunedau a'r amgylchedd.


Ond byddwn hefyd yn ceisio tacio effeithiau amgylcheddol hir dymor. Lansiwyd ein project 'effeithiau amgylcheddol' yn 2004, sy'n cynnwys project rheoli carbon ar y cyd ag Ymddiriedolaeth Carbon Cymru. Mae'r cynnydd sylweddol mewn costau ynni dros y flwyddyn ddiwethaf wedi cadarnhau pwysigrwydd y gwaith, ynghyd â'r

## 21 Ymweliadau addysgol



## 22 Prif safleoedd hamdden

- |                       |                |
|-----------------------|----------------|
| 1 Llyn Alaw           | 10 Brynbuga    |
| 2 Cefni               | 11 Brycheiniog |
| 3 Dolwen & Plas Uchaf | 12 Cantref     |
| 4 Llyn Aled           | 13 Pentwyn     |
| 5 Llyn Brenig         | 14 Talybont    |
| 6 Alwen               | 15 Llwyn On    |
| 7 Cwm Elan            | 16 Pontsticill |
| 8 Rosebush            | 17 Llandegfedd |
| 9 Llys y Frân         |                |



galw uwch am ynni fydd yn deillio wrth ymateb i fesurau'r rheoleiddwyr megis y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr. Arweiniodd rhan gyntaf y project at ddiweddarau ein polisiau amgylcheddol, gan ganolbwyntio ar ein pedair thema allweddol.

### **Bioamrywiaeth**

Byddwn yn hyrwyddo'r arferion gorau ym maes cadwraeth. Er enghraifft, wrth ddatblygu cynefin newydd a chynlluniau rhywogaethau ar safle cronfa Llandegfedd, lleoliad poblogaidd yn ardal Pontypŵl sy'n cynnal pob math o weithgareddau hamdden, yn cynnwys pysgodfa dŵr llonydd a chlwb hwylio. Enillodd y safle wobwr gyntaf yn y categori gwlypdiroedd mawr fel rhan o her adar Ymddiriedolaeth Adareg Prydain, gan gydnabod nifer o ddatblygiadau megis gosod gwelyau brwyn a phyllau dŵr newydd, a chynllun i ddenu a bwydo adar yn y gaeaf.

### **Adnoddau/isafu gwastraff**

Bydd y Cwmni yn edrych am gyfleoedd i ddefnyddio adnoddau'n effeithiol ac isafu gwastraff, gan roi blaenoriaeth i opsiynau rheoli gwastraff cynaladwy, gyda gwaredu mewn tomenni sbwriel fel yr opsiwn olaf. Ac eithrio llaid carthion, ein llif gwastraff mwyaf yw adeiladu.

Mae ein partner contract Laing O'Rourke wedi datblygu cynllun ailgylchu agreg, sy'n gostwng y deunydd a waredir mewn tomenni sbwriel, yr angen am agreg newydd ac, yn anuniongyrchol, yr amserau teithio a'r galw am danwydd, tra'n arbed arian yn nhermau 'trethi agreg' a 'trethi tomenni sbwriel'.

### **Caffaelio amgylcheddol**

Byddwn yn dewis partneriaid contract sy'n dangos ymrwymiad a chyfrifoldeb i warchod yr amgylchedd, yn dilyn amcanion amgylcheddol y Cwmni ac yn awyddus i rannu arferion da yn y maes. Dros y blynyddoedd diwethaf, ble'n bosibl rydym wedi ceisio prynu offer a pheiriannau effeithiol er mwyn isafu eu heffaith ar yr amgylchedd.

### **Rheoli ynni**

Byddwn yn hyrwyddo ymwybyddiaeth a defnydd effeithiol o ynni ymhlith ein staff ac yn benodol yn ceisio adennill ynni o adnoddau a phrosesau busnes.

Yn 2005-06 comisiynwyd tair uned CHP (combined heat and power) newydd er mwyn llosgi nwy methan 'gwastraff' o brosesau trin dŵr gwastraff. Rydym eisoes wedi dechrau gosod rhagor o unedau CHP fydd yn darparu 200kW pellach o bŵer dros y 2-4 blynedd nesaf. Byddwn yn comisiynu'r gyntaf yn 2006 yng ngwaith trin dŵr gwastraff Caer, a ddylai gynhyrchu tua 25% o

ofynion pŵer y gwaith. Yn ogystal, adolygwyd ein hasedau er mwyn clustnodi'r potensial i sefydlu cynlluniau cynhyrchu trydan o ddŵr, sydd wedi arwain at gomisiynu cynllun newydd yn Eithinfynydd yn y gogledd sy'n cynhyrchu mwy o bŵer nag a ddefnyddir yn y gwaith - gan ei wneud yn ynni (& carbon) niwtral.

Yn y dyfodol bydd y project effeithiau amgylcheddol yn canolbwyntio ar bolisiau rheoli ynni fydd yn helpu i ostwng allyriadau CO<sub>2</sub>, yn cynnwys defnyddio ymgynghorydd annibynnol i sefydlu data llinell waelod.



## MEDI 05

CYNRYCHOLWYR O BOTSWANA, GWLAD PWYL AC INDIA YN YMWELD Â DŴR CYMRU ER MWYN DYSGU AM EI FODEL BUSNES UNIGRYW A'I BERTHASEDD I'W SEFYLLFAOEDD NHW.

## CHWEFROR 06

VICKY WORLEY, ARWEINYDD TÎM GDYA DŴR CYMRU, YN YMWELD Â BURKINA FASO AR RAGLEN ADDYSG WATERAID.

# Pobl & partneriaid

## Mae Dŵr Cymru yn gyfrifol am wasanaeth cyhoeddus hanfodol ac yn ei ddarparu wrth ddilyn model busnes unigryw.

Er ei fod yn cyflogi dim ond 152 person yn uniongyrchol, mae'n rhan ganolog o'r AMA (Asset Management Alliance) sy'n cynnwys tua 3,000 gweithiwr o 15 corff gwahanol, yn cydweithio drwy Gymru i ddarparu gwasanaethau o safon uchel ar gyfer cwsmeriaid Dŵr Cymru.

Mae pob partner contract yn rhannu ymrwymiad Dŵr Cymru i gynnal cysylltiadau adeiladol â staff, yn benodol y 'Cytundeb Cydweithio' â staff ac undebau llafur. Bydd hynny'n hanfodol os am wireddu gweledigaeth AMA o fod y cwmni dŵr gorau yn y Deyrnas Unedig ym marn ei gwsmeriaid. Rydym hefyd wedi trefnu cymhellion i symbylu perfformiad partneriaid allanol, yn cynnwys y posibilrwydd o daliadau pellach am berfformiad yn cyfateb i'r gorau yn y diwydiant ym meysydd ansawdd dŵr a'r amgylchedd a gwasanaethau cwsmeriaid.

Er bod staff yn tueddu i aros oddeutu 16 blynedd gyda'r Cwmni ar gyfartaledd, a throsiant gweithwyr yn llawer is na'r cyfartaledd cenedlaethol, mae Dŵr Cymru hefyd yn elwa'n sylweddol o brofiad eang AMA a'i bartneriaid contract o'r diwydiant dŵr. Bydd hynny'n bwysig iawn dros y blynyddoedd nesaf wrth i ni wynebu'r her allweddol o gyflwyno rhaglen 'Newid trwy IT', a ddyfeisiwyd er mwyn defnyddio technoleg gwybodaeth i wella gwasanaethau cwsmeriaid, a chynnal rhwydweithiau

dŵr a charthffosiaeth Dŵr Cymru yn fwy effeithiol.

Byddwn yn cysylltu tâl a chydabyddiaeth staff yn agos â pherfformiad y busnes. Yn y flwyddyn yn dilyn cyhoeddiad Ofwat fod Dŵr Cymru yn gydradd gyntaf yng nghynghrair perfformiad OPA, derbyniodd y staff swm o arian er mwyn cydnabod y llwyddiant hwnnw. Rhoddwyd yr un swm i bob aelod staff, oedd yn cyfateb i rodd uwch i'r bobl ar gyflogau is. Byddwn yn meincodi pecynnau tâl a buddion yn rheolaidd yn erbyn y farchnad waith yng Nghymru a marchnad ddiwydiannol a gwasanaethau'r Deyrnas Unedig.

Trefnir rhaglenni hyfforddi a datblygu er mwyn cynnal amcanion y busnes, a bydd pob aelod staff yn dilyn 'Cynllun Datblygu Personol' sy'n trosi amcanion y busnes yn amcanion personol y gellir eu mesur yn rheolaidd. Mae AMA yn cynnig cyfleoedd i eilio staff ar draws y busnes ehangach, sy'n ffordd o helpu staff i ddatblygu'n bersonol ac yn broffesiynol, gyda'r sgiliau a phrofiad i yrru'r Cwmni yn ei flaen. Mae cyfleoedd gwaith a datblygu'n agored i bawb, dim ots beth yw eu tarddiad ethnig, cenedl, anabledd, hil, lliw, tueddfryd rhywiol neu oedran.

Mae hysbysu ein staff o ddatblygiadau'n bwysig iawn a byddwn yn defnyddio amryw ddulliau cyfathrebu, yn cynnwys cyfarfodydd tîm misol, fforymau staff bob chwe

mis a chylchgrawn chwarterol - 'The Link'. Yn ogystal bydd y rheolwr gyfarwyddwr yn cyfarfod bob chwarter â grwpiau staff bach er mwyn trafod materion busnes cyfredol ac ateb unrhyw gwestiynau. Defnyddir negeseuon ebost a mewnrwyd y Cwmni er mwyn cyflwyno newyddion a datganiadau brys.

Yn ôl arolygon o farn ein staff, mae cysylltiadau staff yn dal yn bositif - eleni llenwyd yr holiadur blynyddol gan 78% o'r gweithwyr - gyda'r 10 uchaf yn yr amrediad 89-100%. Fodd bynnag, wynebodd y busnes nifer o newidiadau sylweddol yn 2005-06 ac fe nododd y staff nifer o feysydd oedd angen eu gwella. Byddwn yn canolbwyntio ar y rheiny dros y flwyddyn nesaf.

Mae iechyd, diogelwch a lles ein staff a phawb sy'n cydweithio â ni yn bwysig iawn. Yn y cyd-destun hwnnw mae ein system rheoli iechyd a diogelwch yn gymwys i bob partner contract a'u prif gyflenwyr nhw. Yn ystod 2005-06, gostyngodd nifer yr achosion iechyd a diogelwch adroddadwy oddeutu 8%, ac roedd nifer yr achosion nid-adroddadwy wedi gostwng mwy na 28%. Byddwn yn ymchwilio pob achos (a rhai lled agos) er mwyn gosod targedau i wella'n perfformiad. Mae manylion llawn ein perfformiad iechyd a diogelwch yn Adroddiad Iechyd a Diogelwch 2006 ar ein gwefan [www.dwrcymru.com](http://www.dwrcymru.com) neu gellir cael copi ar gais.

# Cysylltiadau cwsmeriaid

Mae gan Dŵr Cymru dros 1.2 miliwn cwsmer preswyl a dros 100,000 cwsmer busnes. I ni, mae'n bwysig eu bod yn teimlo fod y Cwmni'n edrych ar ôl eu gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth. Ein nod yw gwneud pethau'n iawn y tro cyntaf, bob tro, ac ymateb yn brydlon a chwrtais i gwsmeriaid bob tro byddant yn cysylltu â ni.

## Cysylltiadau cwsmeriaid

O brofiad rydym yn gwybod fod yn well gan gwsmeriaid beidio â defnyddio gwasanaethau ffôn otomatig a bydd 'pobl go iawn' yn parhau i ateb ein ffonau - gan ddefnyddio systemau otomatig dim ond pan fo'n ymarferol. Yn ystod y flwyddyn derbyniwyd bron 1.2 miliwn galwad ffôn (cynnydd o 6% ar 2004-05). Roedd tua 80% o'r galwadau gan gwsmeriaid am dalu biliau, holi am fil neu wneud trefniadau talu. Roedd yr 20% arall yn gysylltiedig ag ymholiadau gweithredu. Yn ogystal, derbyniwyd bron 143,000 ymholiad ysgrifenedig am filiau ac opsiynau talu, ac atebwyd 99.9% ohonynt o fewn pum diwrnod. **23**

Eleni oedd blwyddyn gyntaf mesur cyfun DG9 newydd Ofwat o adrodd ar alwadau ffôn. Profodd y perfformiad cyffredinol yn dda, gyda dim ond 1.6% o alwadau yn cael eu terfynu'n gynnar a 0.3% yn derbyn tonau prysur. **24** Yn ôl y mesur trin galwadau ffôn newydd, sgoriwyd 4.59 allan o uchafswm posibl o 5.

Yn ystod y flwyddyn dosbarthwyd dros 1.9 miliwn bil a gwellwyd y perfformiad casglu arian cyffredinol. Rydym yn cynnig nifer fawr o opsiynau talu i gwsmeriaid, yn cynnwys debyd uniongyrchol, cerdyn credyd a debyd, cerdyn talu ac adnoddau ar-lein. Bydd 48% o gwsmeriaid yn talu ar ddebyd uniongyrchol, 27% ar ôl derbyn bil, a 25% wrth ddefnyddio un o'r dulliau eraill. Er ein bod wedi gwella'n perfformiad casglu arian, rydym yn derbyn fod dyledion mawr yn gallu rhwystro rhai cwsmeriaid rhag talu biliau. Lansiwyd y Gronfa Cymorth Cwsmeriaid yn 2003 gyda chymorth y Ganolfan Cyngori Dinasyddion, ac mae'n dal i reoli'r ceisiadau ar ein rhan. Hyd yma helpwyd dros 550 cwsmer i dalu eu dyledion a dychwelyd i dalu biliau'n brydlon. Rydym hefyd yn cynnig prisiau grwpiau bregus sy'n sicrhau na fydd rhywun ar y cynllun yn talu mwy na'r bil preswyl cyfartalog.

Rydym hefyd yn ymwybodol fod rhai cwsmeriaid angen cymorth ychwanegol - yn cynnwys cwsmeriaid hŷn ac anabl - ac o ganlyniad yn cynnig amryw wasanaethau ychwanegol ar eu cyfer.

Maent yn cynnwys biliau print mawr neu braille, dŵr potel adeg argyfwng, cynllun cyfrinair ar gyfer ymweld â chartrefi, a gwasanaeth 'cnocio ac aros' ar gyfer cwsmeriaid sydd angen ychydig mwy o amser i ateb y drws. Mae bron 3,000 cwsmer wedi cofrestru ar gyfer y gwasanaethau ychwanegol hyn.

Ar hyn o bryd mae oddeutu 30% o'n cwsmeriaid ar fesurydd. Ar ddiwedd y flwyddyn dim ond 116 mesurydd oedd heb eu darllen gan y Cwmni neu'r cwsmer ac felly derbyniodd dros 99.9% o'n cwsmeriaid fil ar sail darlleniad mesurydd gwirioneddol. **25**

Cynyddodd nifer y cwynion ysgrifenedig eleni ychydig dros 20% i 9,948 (2004-05: 8,202). Mae hynny wedi gwrth-droi'r tueddiad diweddar. Roedd yn bennaf yn gysylltiedig â'r cynnydd cyffredinol mewn prisiau ar ddechrau'r cyfnod buddsoddi cyfredol, newidiadau i'n strwythur prisiau, carthffosydd yn gorlifo a'r salwch yn deillio o gryptosporidiwm tua diwedd 2005. Ar hyn o bryd rydym yn canolbwyntio ar ostwng nifer y camgymeriadau 'osgoadwy'. **26**

## CHWEFROR 06

TĪM GWASANAETH CWSMERIAID DŴR CYMRU YN ENNILL GWOBRA' DEFNYDD GORAU O'R GYMRAEG; GWOBRAU CANOLFANNAU CYSWLLT CYMRU.

### Ymchwil

Ers 1990 rydym wedi cyflogi corff ymchwil marchnad annibynnol i olrhain sylwadau cwsmeriaid bob chwe mis, yn benodol eu boddhad gyda gwasanaethau Dŵr Cymru. Yn ôl yr ymchwil ddiweddaraf, mae boddhad ag ansawdd dŵr ac ansawdd amgylcheddol afonydd yn dal i godi. Yn ogystal, mae bodlonrwydd ag ansawdd amgylchedd yr arfordir yn codi, gan adlewyrchu rhaglen £1 biliwn Dŵr Cymru i wella cyfleusterau trin dŵr gwastraff.

A byddwn yn olrhain barn ein cwsmeriaid ar werth ein gwasanaethau am yr arian, a sut mae'n cymharu â chwmnïau eraill.


27 28

Byddwn hefyd yn cyflogi ymchwilwyr annibynnol fel 'siopwyr ffug' sy'n asesu perfformiad ein canolfan gwasanaeth cwsmeriaid. Mae canolfannau gwasanaeth cwsmeriaid Dŵr Cymru yn dal i berfformio'n dda, gan guro meincnodau'r diwydiant a derbyn asesiadau boddhad rheolaidd dros 90%.

Ar ben hynny trefnir adolygiadau annibynnol er mwyn monitro barn y cwsmeriaid hynny sy'n cysylltu â ni. Maent yn dangos fod dros 70% o gwsmeriaid yn fodlon iawn neu lled fodlon â'n lefelau gwasanaeth.

Defnyddir yr ymchwil ar draws y Cwmni er mwyn gwella gwasanaethau cwsmeriaid yn gyffredinol.


### 23 Trafod ymholiadau bilio o fewn 5 dydd gwaith




### 24 Terfynu galwadau




### 25 Darllen mesuryddion




### 26 Cwynion ysgrifenedig



### 27 Gwerth am yr arian (0-10)



### 28 Boddhad cwsmeriaid



# Adolygiad ariannol

Strategaeth Glas Cymru yw cynnig buddsoddiad diogel, risg isel i fuddsoddwyr hir dymor. Wrth gryfhau ein sefyllfa ariannol, byddwn yn ceisio cadw costau benthyca'r dyfodol yn isel, gan ariannu buddsoddiad yn y busnes yn effeithiol, tra'n parhau i allu rhoi arian yn ôl i'n cwsmeriaid ar ffurf 'buddrannau cwsmeriaid' rheolaidd.

## Canlyniadau ariannol

Gwneir unig weithgaredd masnachol Grŵp Glas Cymru gan ei brif is-gwmni, Dŵr Cymru. Cyhoeddir adroddiad a chyfrifon Dŵr Cymru Cyfyngedig am y flwyddyn hyd 31 Mawrth 2006 ar wahân.

Trosiant Glas Cymru yn y flwyddyn hyd 31 Mawrth 2006 oedd £554 miliwn (2005: £494 miliwn) - sef cynnydd o 12%. Mae'n bennaf yn adlewyrchu'r cynnydd o 12.6% mewn prisiau yn ystod y flwyddyn. Effaith 'buddran cwsmeriaid' y flwyddyn oedd gostwng trosiant rhyw £23 miliwn (2005: £12 miliwn) yn is na fyddai wedi deillio o ddilyn y terfynau prisiau llawn a ganiatawyd gan Ofwat. Gostyngodd nifer y cwsmeriaid yn trosi'n wirfoddol i fesurydd dŵr i bron 27,000 cwsmer (2005: 31,000 cwsmer), tra ychwanegwyd 10,000 cwsmer newydd yn ystod y flwyddyn, pob un ohonynt ar fesurydd. Profwyd llwyddiant gydag amryw fentrau codi incwm, a ychwanegodd rhyw £2 miliwn at y sylfaen refeniw, yn bennaf wrth godi'r symiau cywir ar gwsmeriaid am eu gwasanaethau.

Roedd costau llog net y flwyddyn heb newid yn sylweddol ar £150 miliwn (2005: £143 miliwn - yn cynnwys elw o £6 miliwn wrth derfynu prydles ariannu) er y cynnydd mewn dyled net yn ystod y flwyddyn. Yn ogystal, o dan safonau adrodd ariannol rhyngwladol, codwyd swm o £33 miliwn yn erbyn y datganiad incwm am y newid mewn gwerth teg offerynnau ariannol (2005: £8 miliwn), sef eitem nid-arian. **79**

Elw cyn treth oedd £11 miliwn (2005: £4 miliwn). Gwnaed yr elw ar ôl cyllido'r 'buddran cwsmeriaid' o £18 ar gyfer cwsmeriaid yn derbyn gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff. Mae Bwrdd Glas Cymru wedi penderfynu cynyddu 'buddran cwsmeriaid' 2006-07 i £19 ac yn bwriadu ei chynnal o leiaf ar y lefel honno hyd 2010.

Credyd treth y cyfnod oedd £5 miliwn (2005: £1 miliwn), yn cynnwys cymorth treth grŵp a threth gorfforaeth blwyddyn gynt o £1 miliwn, a chredyd treth ohiriedig o £6 miliwn.

## Parhau i reoli costau


Costau gweithredu Glas Cymru (ac eithrio gwariant adnewyddu isadeiledd, dibrisiant ac amorteiddiad) oedd £213 miliwn (2005: £211 miliwn), sy'n cynrychioli gostyngiad o 1% mewn termau real, er y cynnydd sylweddol mewn costau ynni, oedd rhyw £9 miliwn (neu 54%) yn uwch na'r flwyddyn flaenorol. Cynhwyswyd costau taliad *ex gratia* o £25 i oddeutu 30,000 cwsmer yn y gogledd orllewin a effeithiwyd gan yr hysbysiad berwi dŵr o dan y costau gweithredu.

Contractau gweithredu allanol oedd yn gyfrifol am oddeutu 70% o'r costau gweithredu, yn cynnwys y contract gyda United Utilities Operating Services am reoli rhwydwaith dŵr a dŵr gwastraff y gogledd, a Kelda Water Services, yn effeithiol o 1 Ebrill 2005, am reoli rhwydwaith dŵr gwastraff de Cymru a swydd Henffordd. Trefnir y contractau hyn ar sail costau targed a ddyfeisiwyd er mwyn parhau i wella effeithiolrwydd gweithredu yn y cyfnod hyd fis Mawrth 2010. **80**

### 29 Diogelu llog

	2006 £m	2005 £m
Ar 31 Mawrth		
EBITDA (cyn 'buddran cwsmeriaid')	363	295
<b>Llog taladwy (ac eithrio mynegeo ac amorteiddio costau dyroddi):</b>		
Uwch ddyledion	114	95
Uwch ddyledion + bondiau dosbarth C	127	114
Cyfanswm dyledion	130	124
<b>Diogelu llog (EBITDA/llog net):</b>		
Uwch ddyledion	3.2x	3.1x
Uwch ddyledion + bondiau dosbarth C	2.9x	2.6x
Cyfanswm dyledion	2.8x	2.4x

### 30 Costau gweithredu



### 31 Graddau credyd bondiau Glas Cymru

	Standard & Poor's	Moody's	Fitch Ratings
Bondiau Dosbarth A	AAA	Aaa	AAA
Bondiau Dosbarth B	A-	A3	A
Bondiau Dosbarth C	BBB	Baa2	BBB+

Mae Dŵr Cymru a Thames Water, y partner contract gwasanaethau bilio ac incwm, yn dal i weithio'n galed i adennill dyledion gan gwsmeriaid. Er yr amgylchiadau anodd - nid oes hawl gan gwmnïau dŵr i ddatgysylltu cyflenwadau cwsmeriaid preswyl am fetu talu biliau - roedd casglu arian o flaen y targed. Costau drwg ddyledion yn y flwyddyn oedd £8 miliwn (2005: £8 miliwn) sy'n cynrychioli llai na 2% o'r trosiant blyneddol.

Gwariant cyfalaf gan Dŵr Cymru yn y flwyddyn (cyn grantiau cyfalaf a chyfraniadau datblygwyr ac yn cynnwys gwariant adnewyddu isadeiledd) oedd £238 miliwn (2005: £239 miliwn), sydd fwy neu lai'n unol â'r gwariant cyfartalog disgwylidied dros gyfnod pum mlynedd AMP4. Ers 1 Ebrill 2005, mae Dŵr Cymru wedi cydweithio â chynghrair newydd o bartneriaid buddsoddiad cyfalaf (Laing O'Rourke, Morrison, AMEC, Costain, MEICA, Black and Veatch) gyda'r nod o weithredu rhaglen fuddsoddi AMP4 am y gwerth gorau ar ran cwsmeriaid. Blaenoriaeth yn ystod blwyddyn gyntaf y rhaglen oedd ailasesu rhai cynlluniau allweddol er mwyn gostwng costau unedol yn unol â'r rhai a ragdybiwyd gan Ofwat yn Adolygiad Prisiau 2004. Ar ddechrau'r cyfnod, rhagwelwn bydd buddsoddiad o £1.2 biliwn dros gyfnod AMP4 yn fras yn dilyn lwfans Ofwat yn y Penderfyniad Terfynol.

#### Strategaeth ariannu & credyd-raddio

Ym marn y Bwrdd bydd o fudd hir dymor i gwsmeriaid Dŵr Cymru i barhau i ostwng y lefel gerio, gyda'r nod o ostwng costau ariannu cyfartalog ymhellach. Yna bydd yn gallu trosglwyddo'r arbedion i gwsmeriaid ar ffurf 'buddrannau cwsmeriaid' rheolaidd.

Adlewyrchwyd polisiau ariannol doeth y Grŵp a'i sefyllfa ariannol gref drwy'r penderfyniad gan Moody's yn gynharach yn y flwyddyn i uwchraddio'r bondiau dosbarth C o Baa3 i Baa2. Yn ogystal, adolygodd Fitch Ratings gyfraddau'r sector dŵr ar 16 Chwefror 2006, gan arwain at uwchraddio bondiau dosbarth B o A- i A a bondiau dosbarth C o BBB i BBB+. <sup>31</sup>

Er mwyn diogelu ansawdd credyd uchel y Grŵp, mae'r Bwrdd wedi cyflwyno polisiau ariannol call, yn cynnwys hoelio cyfraddau llog a risgiau arian tramor, a buddsoddi balansau arian. Mae Glas Cymru wedi isafu ei risg i newidiadau i gyfraddau'r farchnad, wrth sicrhau bod o leiaf 85% o'i rwymedigaethau yn rhai cyfradd sefydlog yn glwm i fynegai prisiau manwerthu'r Deyrnas Unedig (retail price index - RPI), neu'n cyfateb i falansau arian. Ym marn y Bwrdd mae cysylltu rhwymedigaethau ag RPI yn addas iawn i'r busnes, gan fod ei refferni

ac RCV hefyd yn glwm i RPI drwy system reoleiddio Ofwat.

Yn ystod y flwyddyn, trefnodd y Grŵp gcontractau deilliadau gwerth £587 miliwn, yn aeddfedu rhwng 2019 a 2040, gan drosi rhwymedigaethau cyfradd ansefydlog o dan brydlesi ariannu i rwymedigaethau'n glwm i RPI. Effaith hyn oedd dwyn cyfanswm rhwymedigaethau'r Grŵp yn glwm i RPI i oddeutu 54% o ddyled net ar 31 Mawrth 2006 (2005: 27%).

#### Gweithgaredd ariannu

Un mesur allweddol o berfformiad ariannol Glas Cymru yw'r lefel gerio - y gymhareb dyled net i RCV (Regulatory Capital Value). Wrth ostwng y lefel gerio o 93% ym Mai 2001 (dyddiad caffaelio Dŵr Cymru) i 78% ar 31 Mawrth 2006, mae sefyllfa ariannol y Grŵp wedi gwella'n sylweddol. Erbyn hyn mae 'cronfeydd ariannol' (RCV llai dyled net) yn £683 miliwn (2005: £538 miliwn). <sup>32 33 34</sup>

Cynyddodd dyled net (diffiniad at ddibenion cyfamodi yn y Cytundeb Termau Cyffredin ar gyfer y rhaglen fondiau) £54 miliwn yn y flwyddyn i £2,359 miliwn, yn cynnwys cost mynegeo o £17 miliwn (2005: £18 miliwn). Defnyddiwyd y cyllid ychwanegol a godwyd i ariannu rhan o'r rhaglen buddsoddi cyfalaf yn y flwyddyn ac adbrynu bondiau cyfradd ansefydlog.

Yn ystod y flwyddyn tynnodd Dŵr Cymru £114 miliwn pellach o dan adnoddau prydlesi ariannol gyda The Royal Bank of Scotland, Lloyds TSB, HSBC, Bayerische Landesbank, Norddeutsche Landesbank ac Alliance and Leicester. Ar 31 Mawrth 2006, roedd y cyfanswm prydlesi ariannol yn werth oddeutu £740 miliwn (2005: £631 miliwn). Roedd pob un o'r adnoddau prydlesi hyn yn cynnig costau ariannu cystadleuol o gymharu â chyfraddau tebyg ar y farchnad bondiau.

Cytunwyd adnoddau benthycy cyfnodol gwerth £100 miliwn gyda'r European Investment Bank ar 5 Rhagfyr 2005. Tynnwyd 'tranche' 15 mlynedd gwerth £25 miliwn o dan y benthyciad hwn yn ystod y flwyddyn, gan ddwyn y cyfanswm benthyciadau o'r ffynhonnell hon i £60 miliwn. Defnyddir y benthyciadau hyn i ariannu amrediad o broiectau buddsoddi, y rhan fwyaf ohonynt o fewn ardaloedd Amcan Un Ewrop fydd yn cael effaith bositif ar amgylchedd Cymru.

Ar 29 Ebrill 2005, trefnodd Dŵr Cymru (Financing) Ltd (DCFL) adnoddau credyd cylchol gyda Fortis Bank gwerth £75 miliwn. Yna ar 9 Mai 2005 cytunodd DCFL adnoddau credyd cylchol pum mlynedd gwerth £305 miliwn gyda grŵp o fanciau, pob un ohonynt eisoes â chysylltiad ariannol â Glas Cymru, yn cynnwys The Royal Bank of Scotland, Barclays, HSBC, Bayerische Landesbank, Norddeutsche Landesbank, ING a Sumitomo Mitsui Banking Corporation (Europe). Ar 12 Ebrill 2006, cytunodd y grŵp o fanciau i ymestyn yr adnoddau hyn am flwyddyn ychwanegol o 2010 i 2011. Ym mhob achos, byddant yn darparu adnoddau ariannol hyblyg ar gyfraddau cystadleuol o gymharu â chyfraddau'r farchnad bondiau. Ar 31 Mawrth 2006, tynnwyd £120 miliwn o dan y trefniadau hyn. Canslwyd yr adnoddau syndicâd banc blaenorol gwerth £150 miliwn ar 9 Mai 2005.

Yn wyneb sefyllfa hylifedd gadarn y Grŵp a'r newid mewn cyfraddau llog sylfaenol y marchnadoedd cyfalaf ers Mai 2001, rhoddwyd hysbysiad ar 16 Mai 2005 o'r bwriad i alw ac adbrynu'n gynnar ar 30 Mehefin 2005 y cyfresi bondiau isod:

**Dosbarth A3** - US\$286 miliwn (£200 miliwn), rhagwelir i aeddfedu Mawrth 2008.

**Dosbarth B2** - £100 miliwn, rhagwelir i aeddfedu Mawrth 2008.

**Dosbarth C2** - £125 miliwn, rhagwelir i aeddfedu Mawrth 2008.

Yn ogystal, yn ôl y disgwyl, rhoddwyd hysbysiad ar 10 Chwefror 2006 o'r bwriad i alw ac adbrynu'n gynnar ar 31 Mawrth 2006 y gyfran olaf o'r bondiau cyfradd ansefydlog:

**Dosbarth A2** - £100 miliwn, rhagwelir i aeddfedu Mawrth 2006.

Bydd arbediad ariannol o ryw £6 miliwn y flwyddyn yn deillio o adbrynu'n gynnar y bondiau cyfradd ansefydlog a ddyroddwyd ym Mai 2001, yn dilyn arbediad ariannol cynharach o £5 miliwn y flwyddyn wrth adbrynu'n gynnar y bondiau dosbarth D ar 31 Mawrth 2005. Erbyn hyn mae aeddfedrydd y bondiau cyfradd sefydlog a mynegedig yn amrywio o 2011 i 2031, gyda dim mwy na 20% yn aeddfedu mewn unrhyw gyfnod dwy flynedd, yn unol â'n polisi ail-ariannu. **55 36**

Parhaodd y bondiau rhestredig a ddyroddwyd gan DCFL i berfformio'n dda yn ystod y flwyddyn, gan fasnachu'n rheolaidd ar ffiniau is na llawer o fondiau sector dŵr tebyg yn aeddfedu dros yr un cyfnodau. Ym marn Glas Cymru mae'n adlewyrchu hyder buddsoddwyr yn ei berfformiad a'i sefyllfa ariannol.

Ar 31 Mawrth 2006 roedd adneuron arian neu arian wedi'i fuddsoddi gwerth oddeutu £14 miliwn gan y Grŵp, ynghyd ag adnoddau bancio heb eu cymryd o £335 miliwn, gan ddarparu lefel hylifedd uchel.

## Cyflwyno IFRS

Dyma ganlyniadau ariannol cyntaf Glas Cymru ar ôl iddo fabwysiadu'r safonau adrodd ariannol rhyngwladol (International Financial Reporting Standards - IFRS). Ail-nodwyd ffigurau cymharol am y flwyddyn hyd 31 Mawrth 2005 er mwyn cydymffurfio ag IFRS. Cyhoeddodd y Grŵp ddogfen gynhwysfawr ym mis Medi 2005 yn disgrifio effaith mabwysiadu IFRS. Yn achos Glas Cymru, bydd yn effeithio canlyniadau a mantolen y Grŵp ond yn cynrychioli newid cyfrifeg yn unig ac ni fydd yn effeithio llifau arian a sefyllfa ariannol sylfaenol y Grŵp.

## Rhagolygon

Nod y Bwrdd yw parhau i wella perfformiad ariannol y Cwmni yn ystod y cyfnod hyd 31 Mawrth 2010, tra'n ceisio cynnal neu gynyddu'r 'buddran cwsmeriaid'. Ym marn y Bwrdd prif fesurau'r perfformiad ariannol yw'r gymhareb asedau rheoledig (Regulatory Asset Ratio (RAR - y gymhareb dyled net i RCV) a'r amryw gymarebau diogelu llog (ICR - diffiniad yn y Cytundeb Termau Cyffredin). Mae Glas Cymru wedi bachu ar y cyfraddau llog cystadleuol ar y marchnadoedd ariannol yn ystod 2005-06 er mwyn ariannu ei anghenion cyfalaf am y cyfnod hyd 31 Mawrth 2010, sef diwedd y cyfnod buddsoddi pum mlynedd a'r cyfnod rheoli prisiau. Ym marn y Bwrdd bydd ei strategaeth ariannol yn rhoi'r Cwmni mewn sefyllfa gref i godi arian ar gyfer y rhaglen fuddsoddi ddilynol hyd 2015 ar delerau effeithiol, sy'n rhan bwysig o strategaeth y Cwmni i gadw biliau cwsmeriaid yn isel dros y tymor hir.

Y prif risgiau i'r nod ariannol yma fydd pwysau costau allanol. Yn benodol, mae costau pŵer wedi cynyddu'n ddramatig dros y ddwy flynedd ddiwethaf a rhagwelir cynnydd pellach yn 2006-07. Yn debyg i bob cwmni dŵr a charthffosiaeth, bydd Dŵr Cymru yn defnyddio llawer o ynni, yn arbennig

wrth gynnal prosesau pwmpio a thrin. Bydd gostwng costau wrth wella arferion gwaith a buddsoddi mewn cynlluniau ynni effeithiol yn lliniaru'r effaith ond ddim yn llwyr ddiogelu'r Cwmni rhag cynnydd mawr mewn costau ynni. Yn ogystal, mae costau unedol cynlluniau buddsoddi o dan bwysau costau deunyddiau a phrinder adnoddau o fewn y diwydiant adeiladu. Mae Dŵr Cymru yn ceisio lleddfu'r problemau hynny wrth drefnu adnoddau ar gyfer rhaglenni gwaith hir dymor gyda'i bartneriaid ac ailasesu cynlluniau a dulliau gwaith er mwyn gwella effeithiolrwydd. Yn ogystal, mae Dŵr Cymru a'i bartner Thames Water yn canolbwyntio ar gasglu arian gan


gwsmeriaid ac wedi cyflwyno system adennill dyledion newydd ar gyfer cwsmeriaid ar fesuryddion, wrth gydnabod y bygythiad i fesurau casglu arian yn dilyn y cynnydd mewn biliau dŵr a'r gwaharddiad ar ddatgysylltu cyflenwadau dŵr preswyl. O dan y cynlluniau costau targed, bydd Dŵr Cymru ond yn rhannu'r pwysau hyn ar gostau i rai graddau gyda'i bartneriaid.

Nid yw'r Cwmni yn rhagweld bydd yn talu trethi ar ei elw gweithredol yn ystod y flwyddyn hyd 31 Mawrth 2007, oherwydd y lwfansau treth ar ei raglen fuddsoddi. Bydd hynny hefyd yn dylanwadu ar rwymedigaethau treth y dyfodol.


### Gwadiad

Mae'r Adroddiad hwn yn cynnwys rhai datganiadau sy'n ystyried dyfodol y busnes a rhagolygon treth Grŵp Glas Cymru. Mae'r datganiadau a rhagolygon hyn yn cynrychioli elfen o risg ac ansicrwydd am eu bod yn gysylltiedig â digwyddiadau ac yn dibynnu ar amgylchiadau yn y dyfodol. Mae nifer o ffactorau a allai achosi newidiadau sylweddol i'r canlyniadau neu'r datblygiadau gwirioneddol i'r rhai a fyngwyd neu awgrymwyd gan y datganiadau hyn. Nid yw perfformiad yn y gorffennol yn arwydd o berfformiad yn y dyfodol a dylai pobl sydd angen cyngor drafod ag ymgynghorydd ariannol annibynnol.

### 32 Gerio (dyled net/RCV)



### 33 Tyfiant cronfeydd ariannol




### 34 Dyledion net & cronfeydd

	2006 £m	2005 £m
<b>Ar 31 Mawrth</b>		
RCV	3,042	2,843
Dyled net	2,359	2,305
'Cronfeydd' (RCV llai dyled net)	683	538
<b>Gerio (dyled net/RCV)</b>		
Uwch ddyledion	73%	72%
Uwch ddyledion + bondiau dosbarth C	78%	81%
Cyfanswm dyledion	78%	81%


### 35 Ffynonellau dyledion 2001

Ar 11 Mai 2001



### 36 Ffynonellau dyledion 2006

Ar 31 Mawrth 2006



# Risg

Mae asesu a lliniaru risgiau yn flaenoriaeth i'r busnes. Y Bwrdd sy'n gyffredinol gyfrifol am y systemau rheoli risgiau a rheolaeth fewnol, a ddisgrifir yn y datganiad Rheoli Corfforaethol ar dudalen 39 o'r Adroddiad. Nid oes hawl gan Glas Cymru i ddargyfeirio i wneud gweithgareddau eraill nad ydynt yn gysylltiedig â'r busnes dŵr a charthffosiaeth rheoledig. Mae hynny'n golygu fod natur a balans y risgiau i'w rheoli gan y busnes yn wahanol, ac i raddau helaeth yn is, na chwmnïau eraill o fewn sector cyfleustodau'r Deyrnas Unedig.

Mae Pwyllgor Ansawdd ac Amgylchedd y Bwrdd yn elfen bwysig o'r trefniadau rheoli, sy'n canolbwyntio ar ansawdd, gwasanaeth a rheoli risgiau wrth fonitro perfformiad Dŵr Cymru a'i bartneriaid contract. Disgrifir gwaith y Pwyllgor yn fwy manwl yn ei adroddiad blynyddol i'r Bwrdd. Mae copi ar ein gwefan neu mae modd cael un ar gais gan Ysgrifennydd y Cwmni.

Bydd y Grŵp yn wynebu risgiau o fewn pedwar categori bras, sef risgiau gweithredol, rheoleiddiol, caffaelio ac ariannol.

## Gweithredol

Mae amryw risgiau gweithredu, yn cynnwys:

- Effaith digwyddiadau gweithredu mawr ar iechyd y cyhoedd, ansawdd yr amgylchedd neu wasanaeth cwsmeriaid, boed yn deillio o fethiant offer, nodweddiad naturiol (ee 'gweithred Ddwyfol', llygredd o gyfansoddion naturiol) neu drydydd parti'n ymyrryd ag offer Dŵr Cymru

- newidiadau i gyfraith a rheoliadau amgylcheddol, diogelwch defnyddwyr ac iechyd a diogelwch, sydd fel arfer yn golygu codi safonau ansawdd dŵr, yr amgylchedd a diogelwch
- effaith tywydd garw iawn (newid hinsawdd) ar adnoddau dŵr yn ystod sychder a gallu rhwydwaith Dŵr Cymru i ymdopi â glaw trwm iawn
- achosion iechyd a diogelwch yn deillio o ddefnyddio asedau diwydiannol mawr a chymhleth.

Datblygwyd polisiau a strategaethau i lliniaru pob un o'r risgiau hyn a allai effeithio enw da, canlyniadau gweithredu a sefyllfa ariannol Dŵr Cymru.

Dros y tymor hir, bydd rhaid i Dŵr Cymru gynnal ei sylfaen asedau gwerth £13 biliwn er mwyn darparu gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff o safon uchel y mae cwsmeriaid yn disgwyl. Pennir lefelau cynnal, adnewyddu neu gyfnewid asedau gan y cyllid a ganiateir gan Ofwat drwy ei benderfyniad prisiau pum mlynedd. Yn dilyn penderfyniad prisiau 2005-10, bydd oedran cyfartalog asedau Dŵr Cymru yn hŷn nag ar gychwyn y cyfnod, a allai gynyddu'r risg o fethiant yn y dyfodol.

## Rheoleiddiol

Gall risgiau rheoleiddiol ddeillio o benderfyniadau prisiau Ofwat neu newidiadau i'r amgylchedd rheoleiddio, a fyddai'n effeithio pob cwmni yn y sector yn yr un ffordd.

Gall penderfyniad prisiau effeithio risgiau mewn amryw ffyrdd. Er enghraifft, petai'n darparu lwfansau cyfalaf annigonol neu'n seiliedig ar ragdybiaethau rheoleiddiol costau gweithredu, buddsoddiad cyfalaf a rhagolygon refeniw sy'n profi'n afrealistig. Mae cynllun busnes Dŵr Cymru yn ceisio cyfarfod â, a ble'n bosibl rhagori ar ragdybiaethau Ofwat yn y penderfyniad diwethaf ar gyfer 2005-10. Fodd bynnag, ar ddechrau'r cyfnod pum mlynedd ymddengys fod y nod hwnnw yn lled ansicr. Yn ogystal bydd canlyniad yr adolygiad nesaf yn 2010 yn cael effaith uniongyrchol ar lifau arian ac elw.

Bob blwyddyn, rhaid i Dŵr Cymru ddarparu data estynedig ar gyfer y rheoleiddwyr ar bob agwedd o'r busnes. Bydd yn cymryd y cyfrifoldeb hwnnw'n ddifrifol iawn ac mae wedi sefydlu prosesau i adolygu'r setiau data a sicrhau eu bod yn gywir ac yn ddibynadwy.

Yn ôl amodau ein trwydded, mae'n rhaid dilyn trefniadau rheoli cadarn, sy'n cynnal cyfrifoldeb Dŵr Cymru am ansawdd dŵr a'r amgylchedd, ac iechyd y cyhoedd. Mae manylion pellach am drefniadau rheoli'r Grŵp yn yr adroddiad Rheoli Corfforaethol ar dudalennau 39 i 45.

## Ariannol

Yn debyg i bob busnes, bydd Dŵr Cymru yn wynebu sawl risg ariannol, yn arbennig rhwng yr adolygiadau prisiau rheoleiddiol. Maent yn cynnwys:

- Risgiau refeniw, yn benodol newidiadau i'r galw am ddŵr trwy fesuryddion, colli cwsmeriaid busnes mawr a chynnydd mewn cystadleuaeth o fewn y sector dŵr

- casglu arian gan gwsmeriaid a methu adennill dyledion cwsmeriaid, sy'n risg sylweddol yn dilyn penderfyniad 1997 i wahardd datgysylltu cyflenwadau dŵr preswyl am fethu talu biliau
- Dŵr Cymru yn methu cyfarfod â thargedau heriol Ofwat am weithredu a rheoli cyfalaf yn effeithiol, y credir sydd angen er mwyn darparu gwasanaethau o safon uchel ar gyfer cwsmeriaid
- pwysau allanol ar gostau, megis effaith y cynnydd diweddar mewn prisiau pŵer, a allai rwystro'r Cwmni rhag cyrraedd targedau gweithredu a chostau cyfalaf Ofwat
- y risg ariannol cyffredinol yw'r bygythiad na fydd y Grŵp yn gallu ariannu ymrwymadau gweithredu a buddsoddiad cyfalaf Dŵr Cymru, a gyllidir trwy lif arian gweithredu'r Cwmni (biliau cwsmeriaid) a chyllido dyledion.

Polisi'r Grŵp yw sicrhau fod adnoddau digonol gan y busnes i gyfarfod ag o leiaf 12 mis o ofynion ariannol rhagweladwy. Fodd bynnag, wrth fachu ar gyfleoedd y farchnad, gostyngwyd y risg ariannol yn sylweddol yn ystod 2005-06 yn dilyn gwaith trysorlys i drefnu'r rhan helaeth o ofynion ariannu Dŵr Cymru ar gyfer y cyfnod hyd 2010. Mae sefyllfa ariannol y Grŵp ar 31 Mawrth 2006 yn dangos adnoddau ariannol a benthyg digonol, sy'n darparu elfen uchaf o hylifedd ar gyfer y busnes.

### Caffaelio

Mae'r risg caffaelio yn risg arbennig i Dŵr Cymru, gyda 85% o'i wariant gweithredu a chyfalaf blyneddol yn gyfrifoldeb darparwyr gwasanaeth allanol (ein 'partneriaid contract'). Disgrifir ein fframwaith trefnu contractau allanol yn y Cynllun Caffaelio ar wefan Dŵr Cymru. Mae modd cael copi ar gais gan Ysgrifennydd y Cwmni. Yn gyffredinol trefnwyd y contractau gweithredu cychwynnol am bedair blynedd, gan derfynu ar 31 Mawrth 2005. Ar ôl gwahodd tendrau cystadleuol, trefnwyd contractau newydd gyda phartneriaid contract yn para hyd at 15 mlynedd (yn amodol ar adolygiadau prisiau a pherfformiad bob pum mlynedd). Dyfeisiwyd y drefn hon er mwyn cymhell partneriaid contract i edrych ar eu cysylltiad â'r Cwmni fel un hir dymor, gan ostwng y risg o wrthdaro dros y tymor byr a symbylu buddsoddiad yn yr adnoddau, pobl a systemau i ddarparu gwasanaethau o safon uchel ar gyfer cwsmeriaid Dŵr Cymru.

### Risgiau eraill

Yn ogystal, bydd y Grŵp yn wynebu risgiau cyffredinol eraill, yn cynnwys:

- Risg yn gysylltiedig â newid. Mae Dŵr Cymru am gyflwyno rhaglen enfawr i gyflwyno newidiadau ar sail technolegau cyfathrebu, yn cynnwys gosod systemau newydd hyblyg yn lle hen brif gyfrifiadur mawr. Ar yr un pryd bydd yn adolygu a symleiddio prosesau busnes allweddol ac yn datblygu adnoddau newydd er mwyn galluogi Dŵr Cymru i ddod yn fwy effeithiol wrth ddarparu gwasanaethau ar gyfer cwsmeriaid

- yr angen i gadw a datblygu pobl allweddol o fewn Dŵr Cymru er mwyn sicrhau bydd y busnes yn cynnwys y sgiliau a'r cymwysterau angenrheidiol i gwrdd â'i gyfrifoldebau dros y tymor hir
- cynnydd mewn costau pensiwn oherwydd ffactorau tu hwnt i reolaeth y Bwrdd, megis pobl yn byw'n hirach. Fodd bynnag, gyda dim ond 160 aelod, mae'r cynllun pensiwn buddion diffiniedig (ni fydd yn derbyn aelodau newydd) yn gymharol fach o gymharu â maint y busnes
- darpariaeth a thelerau yswiriant fel arf allweddol i liniaru risgiau busnes. Bydd polisiau yswiriant yn diogelu eiddo, ymyriadau busnes, atebolrwydd cyhoeddus, llygredd amgylcheddol ac atebolrwydd cyflogwyr. Yn gyffredinol trefnir yswiriant ar sawl lefel, gyda'r haen gyntaf ar sail dynadwy a'r ail a haenau pellach gan gwmnïau yswiriant ar y farchnad.

Llun y clawr:  
Stuart Bailes, Ysgol Gelf, y Cyfryngau a Dylunio Casnewydd, Prifysgol Cymru, Casnewydd.  
Un o dderbynwyr Bwsari Ffotograffiaeth Dŵr Cymru 2006.

Argraffwyd yn Westdale Press Limited.  
Argraffwyd ar bapur a gynhyrchwyd o fwydion rhydd o glorin,  
o goedwigoedd a reolir ac adnewyddir yn ofalus.

## Adroddiad a chyfrifon 2006

### Cynnwys

Y Cyfarwyddwyr	26
Adroddiad y Cyfarwyddwyr	28
Adroddiad tâl 2005-06	32
Rheoli corfforaethol	39
Cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr	46
Adroddiad yr archwilwyr annibynnol i aelodau Glas Cymru Cyfyngedig	47
Prif ddatganiadau	49
Nodiadau i'r datganiadau ariannol	53

## Bwrdd y Cyfarwyddwyr sy'n gyfrifol am gyfeiriad strategol y Cwmni ac am adolygu'r perfformiad gweithredol a strategol.

### **ARGLWYDD BURNS, Cadeirydd** <sup>(N)</sup>

Penodwyd yn Gadeirydd ym mis Gorffennaf 2000. Mae'r Arglwydd Burns (62) yn gadeirydd Abbey National plc, dirprwy gadeirydd Marks & Spencer Group Plc ac yn gyfarwyddwr anweithredol o Banco Santander Central Hispano a Pearson Plc. Urddwyd yn arglwydd am oes yn 1998 ac roedd gynt yn brif ymgynghorydd economaidd i'r Trysorlys ac yn ysgrifennydd parhaol i'r Trysorlys. Mae hefyd yn gadeirydd corff llywodraethol yr Academi Gerdd Frenhinol ac yn gyn gadeirydd Comisiwn y Loteri Genedlaethol.

### **NIGEL ANNETT, Rheolwr Gyfarwyddwr**

Penodwyd yn Rheolwr Gyfarwyddwr yn Ionawr 2005. Mae Mr Annett (47) wedi bod yn gyfarwyddwr gweithredol o Glas Cymru ers Ebrill 2000, ac o Dŵr Cymru ers Mai 2001. Roedd gynt yn gyfarwyddwr Dŵr Cymru rhwng 1992 a 2000 a chyn hynny wedi dal amryw swyddi gyda banciau buddsoddi megis Schroders, County Natwest a Wasserstein Perella.

### **CHRIS JONES, Cyfarwyddwr Cyllid**

Penodwyd yn Gyfarwyddwr Cyllid Glas Cymru yn Ebrill 2000 ac o Dŵr Cymru ym Mai 2001. Roedd Mr Jones (41) gynt yn Gyfarwyddwr Rheoleiddio Dŵr Cymru rhwng 1996 a 2000. Cyn ymuno â Dŵr Cymru yn 1995, roedd yn gyfarwyddwr National Economic Research Associates a chyn hynny gweithiodd yn y Trysorlys ym maes cyfleustodau a phreifateiddio. Mae'n gyfarwyddwr anweithredol o Principality Building Society ac yn aelod o fwrdd y Sefydliad Materion Cymreig.

### **JIM O'SULLIVAN, Cyfarwyddwr Gweithredu** <sup>(Q)</sup>

Penodwyd yn Gyfarwyddwr Gweithredu ym Medi 2005. Mae Mr O'Sullivan (46) yn beiriannydd siartredig. Cyn ymuno â'r Bwrdd roedd yn gyfarwyddwr peirianeg a diogelwch National Grid Transco a chyn hynny yn gyfarwyddwr technegol ac ansawdd British Airways. Mae'n gyfarwyddwr anweithredol o Swyddfa Rheoleiddio'r Rheilffyrdd.

### **JOHN BRYANT, Cyfarwyddwr Anweithredol** <sup>(Q)(R)(N)</sup>

Penodwyd yn Gyfarwyddwr Anweithredol ym Mawrth 2001. Roedd Mr Bryant (62) gynt yn brif weithredwr British Steel a, hyd fis Rhagfyr 2000, yn gyd brif weithredwr Corus Plc. Mae'n gyfarwyddwr anweithredol o Costain Group Plc ac roedd yn gyfarwyddwr anweithredol o Bank of Wales Plc rhwng 1996 a 2001.



ARGLWYDD BURNS



NIGEL ANNETT



CHRIS JONES



JIM O'SULLIVAN



JOHN BRYANT



ALISON CARNWATH



GERAIN'T TALFAN DAVIES



Y FONESIG DEIDRE HINE



TONY HOBSON

## Aelodaeth Pwyllgorau'r Bwrdd

(Q) Ansawdd ac Amgylchedd

(A) Archwilio

(R) Tâl

(N) Enwebiadau

### ALISON CARNWATH, Cyfarwyddwr Anweithredol <sup>(A)(R)(N)</sup>

Penodwyd yn Gyfarwyddwr Anweithredol ym mis Gorffennaf 2000. Mae Mrs Carnwath (53) yn gyfarwyddwr anweithredol o Friends Provident Group Plc, Gallaher Group Plc, Land Securities Plc a Man Group Plc. Ar ôl derbyn cymhwyster cyfrifydd siartredig, treuliodd Mrs Carnwath 20 mlynedd yn gweithio ym maes banciau buddsoddi. Roedd yn gyfarwyddwr o J Henry Schroder Wagg ac yn rheolwr gyfarwyddwr Donaldson Lufkin Jenrette. Mae hefyd yn gyn gyfarwyddwr o Vitec Group plc, QA Group plc, Arcadia Group plc, Nationwide Building Society, Manweb plc a National Power plc.

### GERAINT TALFAN DAVIES, Cyfarwyddwr Anweithredol <sup>(A)(R)(N)</sup>

Penodwyd yn Gyfarwyddwr Anweithredol ym mis Gorffennaf 2000. Roedd Mr Davies (62) yn newyddiadurwr a aeth ymlaen i fwynhau gyrfa ym meysydd darlledu cyhoeddus a phreifat, yn cynnwys Rheolwr BBC Cymru drwy'r 1990au ac yn ddiweddarach yn aelod Cymreig o'r Awdurdod Radio. Mae'n gadeirydd y Sefydliad Materion Cymreig, yn llywodraethwr Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd, yn aelod o Fforwm Ymgynghorol BT Cymru ac yn gyn gadeirydd Cyngor Celfyddydau Cymru (2003-2006).

### Y FONESIG DEIDRE HINE, Cyfarwyddwr Anweithredol <sup>(Q)(R)(N)</sup>

Penodwyd yn Gyfarwyddwr Anweithredol ym Mawrth 2001. Mae'r Fonesig Deidre (68) yn gadeirydd BUPA Foundation a'r Royal Society of Medicine Press Board, yn aelod o Gomisiwn Penodiadau Tŷ'r Arglwyddi ac yn llywydd y British Medical Association. Mae'n gyn gadeirydd y Commission for Health Improvement, yn gyn llywydd The Royal Society of Medicine ac yn gyn brif swyddog meddygol Cymru. Urddwyd yn DBE yn 1996 am ei gwasanaeth ym maes meddygaeth.

### TONY HOBSON, Cyfarwyddwr Anweithredol <sup>(A)(R)(N)</sup>

Penodwyd yn Gyfarwyddwr Anweithredol ym mis Chwefror 2001. Mae Mr Hobson (58) yn gadeirydd Northern Foods Plc ac yn gyfarwyddwr anweithredol o HBOS Plc a Sage Group Plc. Mae'n gyfrifydd siartredig a oedd yn gyfarwyddwr cyllid Legal & General Group Plc rhwng 1987 a 2001 ac yn uwch gyfarwyddwr annibynnol o Thames Water Plc adeg ei gaffaeliad gan RWE yn 2000.

## Yr Aelodau

Ar hyn o bryd mae 57 Aelod, yn cynnwys Cyfarwyddwyr Glas Cymru.

Un o rolau allweddol yr Aelodau yw sicrhau bod y busnes yn parhau i ganolbwyntio ar ei brif ddiben o ddarparu gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth o safon uchel ar gyfer cwsmeriaid Dŵr Cymru. Wrth wneud hynny, bydd Aelodau yn cynnal rôl rheoli corfforaethol bwysig.

Dewisir yr Aelodau yn unol â phroses o dan arolygaeth Panel Dewis Aelodau annibynnol, sy'n cynnal aelodaeth gytbwys ac amrywiol gan adlewyrchu gymaint â phosibl yr amrediad o ddiddordebau cwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill y mae Dŵr Cymru yn gwasanaethu. Mae'r aelodaeth yn bersonol; felly nid yw'r Aelodau'n cynrychioli unrhyw grŵp neu rhanddeiliaid arbennig. Ni fydd yr Aelodau yn derbyn ffioedd nac yn meddu ar unrhyw ddiddordeb ariannol arall yn Glas Cymru.

Mae copi o restr Aelodau Glas Cymru, Polisi Aelodaeth y Cwmni ac amodau gorchwyl y Panel Dewis Aelodau ar wefan Glas Cymru [www.glascymru.com](http://www.glascymru.com) neu gellir eu cael wrth ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cwmni.

# Mae'r Cyfarwyddwyr yn cyflwyno adroddiad a datganiadau ariannol archwiliedig Glas Cymru Cyfyngedig am y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2006.

### Prif weithgareddau

Mae Glas Cymru yn gwmni cyfyngedig trwy warant a sefydlwyd yn unswydd i fod yn berchen Dŵr Cymru Cyfyngedig ('Dŵr Cymru') - chweched cwmni dŵr a charthffosiaeth rheoledig y Deyrnas Unedig o ran maint, sy'n gwasanaethu oddeutu 1.2 miliwn cwsmer preswyl a 120,000 cwsmer busnes. Mae cyfansoddiad y Cwmni yn mynnu cadw'r holl wargedion ariannol a gynhyrchir gan y Grŵp a'u hail-fuddsoddi er lles Dŵr Cymru a'i gwsmeriaid.

Disgrifir busnes a rhagolygon y Grŵp yn adolygiad y Cadeirydd a'r adolygiad perfformiad gweithredol ar dudalennau 1 i 17. Disgrifir yr elfennau ariannol yn yr adolygiad ariannol ar dudalennau 18 i 21.

### Canlyniadau ariannol a'r 'buddran cwsmeriaid'

Yr elw ar ôl treth am y flwyddyn ariannol yn diwedd 31 Mawrth 2006 oedd £11.3 miliwn, yn unol â'r disgrifiad ar dudalen 49. Yn 2005-06, derbyniodd ein cwsmeriaid 'buddran cwsmeriaid' o £23 miliwn, neu £18 per cartref a wasanaethir gan Dŵr Cymru (£9 dŵr, £9 gwasanaethau dŵr gwastraff). Polisi'r cwmni yw cynnal lefel y 'buddran cwsmeriaid' yn y cyfnod hyd 2010. Yn y flwyddyn ariannol 2006-07, cynyddwyd y 'buddran cwsmeriaid' i £19 per cartref (£9.50 dŵr, £9.50 gwasanaethau dŵr gwastraff).

### Cyfarwyddwyr

Nodir y Cyfarwyddwyr cyfredol ar dudalen 26. Gwasanaethodd bob un ohonynt drwy gydol blwyddyn ariannol 2005-06, ac eithrio Jim O'Sullivan a benodwyd yn Gyfarwyddwr ar 12 Medi 2005. Nid oes gan unrhyw Gyfarwyddwr ddi-ddordeb materol, uniongyrchol neu anuniongyrchol, mewn unrhyw gontract o bwys i fusnes y Cwmni, ac nid oes Cyfarwyddwr wedi gwneud hynny yn y gorffennol.

Yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2006 ar 7 Gorffennaf 2006 bydd Alison Carnwath, Geraint Talfan Davies, Tony Hobson a Jim O'Sullivan yn ymdeol ac yn gwneud cais i'w hailethol fel Cyfarwyddwyr. Nodir manylion pellach yn yr Adroddiad Rheoli ar dudalen 40 ac yn Hysbysiad Cyfarfod Blynyddol 2006.

Nodir y taliadau i'r Cyfarwyddwyr a'r strategaeth a gymeradwywyd gan y Bwrdd yn yr Adroddiad Tâl am y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2006 ar dudalennau 32 i 38. Fe wneir cynnig i gymeradwyo Adroddiad Tâl 2006 yn y Cyfarfod Blynyddol.

### Aelodau

Ar ddyddiad yr adroddiad hwn, mae gan Glas Cymru 57 Aelod yn cynnwys Cyfarwyddwyr y Cwmni. Nodir y newidiadau yn yr aelodaeth ers Cyfarfod Blynyddol 2005, gyda gwybodaeth am rôl yr Aelodau a'r broses i'w penodi o dan gyfarwyddyd panel dewis annibynnol, yn yr Adroddiad Rheoli ar dudalen 43. Darperir gwybodaeth bellach a manylion cryno'r Aelodau cyfredol ar gais, neu ar wefan Glas Cymru [www.glascymru.com](http://www.glascymru.com)

### Busnes cyfrifol

Mae disgrifiad o'r dulliau byddwn yn dilyn er cyfarfod â'n cyfrifoldebau corfforaethol cymdeithasol i'n cwsmeriaid, y cymunedau byddwn yn gwasanaethu, ein gweithwyr yn y gweithle ac i'r amgylchedd ar dudalennau 12 i 17.

## Gweithwyr

Ar 31 Mawrth 2006 roedd Dŵr Cymru yn cyflogi 152 person. Ac eithrio Cyfarwyddwyr y Cwmni, nid yw Glas Cymru yn cyflogi unrhyw berson.

Elfen allweddol wrth barhau i wella perfformiad y busnes a lefelau gwasanaeth cwsmeriaid Dŵr Cymru yw ein buddsoddiad parhaol yn ein staff ar bob lefel. Rydym wedi ymrwymo i ddarparu cyfleoedd cyfartal a byddwn yn ceisio trin pob aelod staff yn deg ym mhob agwedd o gyflogaeth, yn cynnwys recriwtio, hyfforddiant, datblygu gyrfaedd a dyrchafu. Byddwn yn ystyried pobl fydd yn ymgeisio am swyddi gyda Dŵr Cymru ar sail eu sgiliau a gallu yn unig.

Yn ein barn ni, dylai pob aelod staff gael cyfle i uchafu eu potensial. Byddwn yn asesu anghenion hyfforddi a datblygu fel rhan o adolygiad datblygu blynyddol pob aelod staff.

Mae strategaeth Dŵr Cymru i gontractio gwasanaethau yn allanol wedi gwednewid dulliau darparu gwasanaethau i gwsmeriaid ers 2001 ac wedi gwneud cyfraniad sylweddol at wella lefelau gwasanaeth cwsmeriaid dros y pum mlynedd diwethaf. I raddau helaeth, llwyddwyd i wneud hynny wrth ddatblygu 'cynghreiriau' gweithredu ble byddwn yn cymell partneriaid contract i gydweithio â Dŵr Cymru mewn 'un tîm' i weithredu cynllun busnes y Cwmni.

Ein gweithwyr sy'n sicrhau llwyddiant y busnes ac mae'n bwysig eu bod yn rhannu'r llwyddiant hwnnw. Byddwn yn gwneud hynny wrth gynnal cynllun cymell staff, sy'n talu bonws blynyddol yn gysylltiedig â'r perfformiad ariannol a lefel gwasanaeth cwsmeriaid y busnes. Yn ogystal, y llynedd derbyniodd y staff fonws hir dymor yn gysylltiedig â pherfformiad ariannol cyffredinol y busnes rhwng 2001 a 2005. O ganlyniad, yn 2005-06 derbyniodd bob aelod staff yr uchafswm posibl o dan y cynlluniau hyn, sef £4,500 yr un.

Nid oes unrhyw beth yn bwysicach i ni nag iechyd a diogelwch ein gweithwyr, neu rai byddwn yn effeithio wrth wneud ein gwaith. Nodir yr ymrwymiad i iechyd a diogelwch a pherfformiad Dŵr Cymru a'i bartneriaid contract yn 2005-06 yn Adroddiad Iechyd a Diogelwch 2006. Mae modd cael copi o'r ddogfen ar gais neu ar wefan Dŵr Cymru [www.dwrcymru.com](http://www.dwrcymru.com)

Mae gwybodaeth bellach ar faterion staff ar dudalen 15.

## Amgylchedd

Rydym wedi ymrwymo i wella perfformiad gweithredol ac amgylcheddol y busnes, gyda Phwyllgor Ansawdd ac Amgylchedd y Bwrdd yn ei fonitro bob mis. Gellir cael copi o Adroddiad 2006 y Pwyllgor ar gais neu ar wefan Dŵr Cymru [www.dwrcymru.com](http://www.dwrcymru.com). Nodir gwybodaeth bellach am ein gwaith i ddiogelu'r amgylchedd a bioamrywiaeth ar dudalen 14 ac mewn dau adroddiad a gyhoeddwyd y llynedd. Mae'r Arolwg Bioamrywiaeth ac Arolwg Amgylcheddol yn disgrifio ein fframwaith gweithredu, ein perfformiad diweddar a'r heriau sy'n wynebu'r cwmni.

## Ymchwil a datblygu

Dŵr Cymru sy'n gyfrifol am yr holl wariant ar ymchwil a datblygu, a bydd yn monitro a chyfrannu at amryw fentrau gan y diwydiant, yn bennaf fel aelod o UK Water Industry Research Limited. Wrth wneud hynny, ac wrth barhau i rannu arferion da yn dilyn buddsoddiad mewn ymchwil a datblygu a mentrau eraill gan bartneriaid allanol Dŵr Cymru, byddwn yn gwella effeithiolrwydd y busnes ac yn cyfarfod â safonau dŵr yfed, elifant carthion a thrin llaid cenedlaethol a rhyngwladol.

### Polisi talu

Ein polisi yw cytuno telerau talu ar ddechrau perthynas gyda chyflenwr, a'u newid dim ond trwy gytundeb. Byddwn yn gwneud taliadau yn unol â'r telerau a gytunwyd, ac eithrio pan fyddwn yn hysbysu cyflenwr o broblem gydag anfoneb. Os digwydd hynny, byddwn yn ceisio datrys unrhyw broblem yn brydlon. Y telerau talu safonol i gyflenwyr nwyddau a gwasanaethau yw 30 diwrnod o ddyddiad derbyn anfoneb gywir ar gyfer nwyddau neu wasanaethau boddhaol a archebwyd neu dderbyniwyd, oni chytunir telerau eraill fel rhan o gontract.

Yn 2005-06, y cyfnod talu cyfartalog oedd 61 diwrnod (2005: 70 diwrnod). Wrth gyfrif hynny, mae rheoliadau'n mynnu ein bod yn cynnwys arian credydwy'r masnachol a gedwir o dan gontractau projectau buddsoddi cyfalaf Dŵr Cymru. Bydd hynny'n amrywio o flwyddyn i flwyddyn ac yn tueddu i ymestyn y cyfnod talu cyfartalog am y flwyddyn.

### Rhoddion

Yn ystod y flwyddyn, gwnaed rhoddion elusennol gwerth £33,395 (2005: £22,394). Roeddent yn cynnwys rhoddion unigol dros £200 i: WaterAid (£16,000), Cadw Cymru'n Daclus (£10,000), Hereford Waterworks Museum (£5,000), Y Gronfa Cadeiriau Olwyn (£1,000), St John's Ambulance (£600) ac NSPCC (£500). O'r rheiny, roedd WaterAid, St John's Ambulance a NSPCC yn elusennau cenedlaethol.

O ran polisi, ni fydd y Grŵp yn rhoi arian i bleidiau gwleidyddol. Ni wnaed unrhyw daliadau neu roddion mewn cynnyrch yr oedd rhaid eu datgelu o dan Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000.

### Cynllun Iaith Gymraeg

Rydym yn hapus i ddelio â chwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill yn Gymraeg neu Saesneg, a byddwn yn ceisio darparu'n un safonau gwasanaeth yn y ddwy iaith. Rydym yn dilyn Cynllun Iaith Gymraeg cymeradwyedig o dan amodau Deddf Iaith Gymraeg 1993.

### Cyfrifon rheoleddig (Dŵr Cymru)

O dan amod F, Offeryn Penodi Dŵr Cymru, rhaid i'r cwmni gyhoeddi gwybodaeth ariannol bellach fel 'busnes penodedig'. Cyhoeddir copi o'r wybodaeth ar wefan Dŵr Cymru neu bydd ar gael fel arall ar gais gan Ysgrifennydd y Cwmni ar ôl 15 Gorffennaf 2006.

### Safonau adrodd ariannol rhyngwladol

Yn ystod y flwyddyn, mabwysiadodd Glas Cymru IFRS (International Financial Reporting Standards) ac adlewyrchir hynny yng nghanlyniadau ariannol y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2006. Cyhoeddwyd dogfen fabwysiadu IFRS Glas Cymru, yn cynnwys disgrifiad o'r prif newidiadau i'r polisiau cyfrifeg a'r effaith gysylltiedig ar ganlyniadau'r Grŵp, ar 21 Medi 2005. Mae copi o'r ddogfen ar wefan y cwmni. Mae cysoniad o'r incwm net ac asedau net rhwng IFRS ac UK GAAP yn Nodyn 28 i Gyfrifon 2005-06.

### Busnes gweithredol

Mae'r Cyfarwyddwyr yn fodlon fod adnoddau digonol gan y Grŵp i barhau mewn busnes am y dyfodol rhagweladwy. O ganlyniad, paratowyd datganiadau ariannol y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2006 ar sail busnes gweithredol.

## Archwilwyr

PricewaterhouseCoopers LLP a weithredodd fel archwilwyr Glas Cymru ar gyfrifon y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2006. Fel rhan o'r broses archwilio mae pob Cyfarwyddwr wedi cadarnhau, hyd y gwyddant, ar ddyddiad y datganiadau ariannol (a) nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohono, a (b) eu bod wedi cymryd camau i fod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol a sicrhau fod archwilwyr y Cwmni yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Mae PricewaterhouseCoopers LLP wedi cadarnhau ei fod yn fodlon parhau fel archwilydd ac fe ystyrir cynnig i'w ailbenodi yng nghyfarfod blynyddol cyffredinol 2006. Fodd bynnag, ar hyn o bryd mae'r Grŵp yn gwahodd cynigion i ddarparu gwasanaethau archwilio allanol am y flwyddyn ariannol 2006-07. Rhagwelir cwblhau'r broses erbyn haf 2006 pan fydd PricewaterhouseCoopers LLP, oni ailbenodir, yn ymddiswyddo a bydd y Bwrdd yn penodi archwilwyr newydd.

## Cyfarfod cyffredinol blynyddol

Nodir hysbysiad ar gyfer Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2006 ar ddydd Gwener 7 Gorffennaf 2006 mewn dogfen a anfonwyd at Aelodau Glas Cymru gyda'r adroddiad hwn.

Mae busnes y Cyfarfod Blynyddol yn cynnwys cymeradwyo Adroddiad y Cyfarwyddwyr, y Datganiadau Ariannol a'r Adroddiad Tâl am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2006, ac ailbenodi pedwar Cyfarwyddwr sy'n ymddeol ac yn gwneud cais i'w hailbenodi. Mae'r cynigion hyn yn eitemau busnes cyffredin ar gyfer Cyfarfod Blynyddol 2006, sef materion a drafodir bob blwyddyn. Nid oes unrhyw faterion busnes arbennig.

Trwy orchymyn y Bwrdd



**Richard Curtis LLB, ACIS**  
Ysgrifennydd y Cwmni  
7 Mehefin 2006

### Cydymffurfriad

Mae'r adroddiad hwn yn dilyn gofynion Rheoliadau Adroddiad Tâl Cyfarwyddwyr 2002 (y 'Rheoliadau'), a ymgorfforwyd bellach o fewn Deddf Cwmnïau 1985. Cadarnhawyd gan y Bwrdd i'w gymeradwyo gan Aelodau Glas Cymru yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2006.

Yn unol â'r Rheoliadau, archwiliwyd tabl taliadau'r Cyfarwyddwyr, y tabl bonws perfformiad hir dymor a'r tabl pensiynau ar dudalennau 36 a 37; adolygwyd gweddill yr adroddiad gan PricewaterhouseCoopers LLP er sicrhau cysondeb, ond nid yw'n destun archwiliad o dan y Rheoliadau.

Nodir dull Glas Cymru o gydymffurfio ag Egwyddorion Rheoli Da a'r Cod Arferion Gorau (y 'Cod Cyfunol') yn yr Adroddiad Rheoli Corfforaethol ar dudalen 39. Cadarnhawn ein bod wedi dilyn amodau'r Cod Cyfunol wrth baratoi'r adroddiad hwn.

### Pwyllgor Tâl

Cadeirydd y Pwyllgor Tâl (y 'Pwyllgor') yw Alison Carnwath ac mae'n cynnwys pob Cyfarwyddwr Anweithredol. Bydd Cadeirydd y Bwrdd a'r Rheolwr Gyfarwyddwr yn mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor trwy wahoddiad, fel bo'n addas. Mae pob aelod o'r Pwyllgor yn annibynnol o'r rheolwr ac ar wahân i'w ffioedd fel Cyfarwyddwyr nid oes unrhyw ddiddordeb ariannol ganddynt yn y Grŵp. Cyfarfu'r pwyllgor bum gwaith yn 2005-06 a nodir presenoldeb aelodau'r pwyllgor yn yr Adroddiad Rheoli Corfforaethol ar dudalen 40.

Rôl y Pwyllgor Tâl yw cymeradwyo, gweithredu ac adolygu'r polisi ac arferion tâl, ac yn benodol:

- cytuno polisi a fframwaith tâl y Cadeirydd a'r Cyfarwyddwyr Anweithredol a Gweithredol gyda'r Bwrdd
- cytuno telerau contractau gwasanaeth a thâl Cyfarwyddwyr Gweithredol ac uwch reolwr
- pennu trefniadau cymhelliant fydd yn symbylu perfformiad gwell ac yn gwobrwyo unigolion mewn ffordd deg a chyfrifol am eu cyfraniad at lwyddiant y Cwmni.

Mae amodau gorchwyl y Pwyllgor ar wefan y Cwmni neu gellir cael copi ar gais gan Ysgrifennydd y Cwmni.

Bydd Ysgrifennydd y Cwmni a'r Pennaeth Adnoddau Dynol yn mynychu pob cyfarfod o'r Pwyllgor ac yn darparu cyngor a gwybodaeth fel bo angen. Yn ogystal, mae'r Pwyllgor wedi gofyn am gyngor allanol annibynnol ar rai agweddau ar bolisiau tâl ac arferion gorau. Yn 2005-06, cynghorwyd y Pwyllgor gan:

- New Bridge Street Consultants LLP ('New Bridge Street'), a gynghorodd ar arferion gorau'r farchnad wrth gynllunio trefniadau symbylu perfformiad newydd, meincodi tâl Cyfarwyddwyr Gweithredol, contractau gwasanaeth a thâl uwch reolwr, ac arolwg o'r ffioedd taladwy i Gadeirydd y Bwrdd. Yn ogystal, cynghorodd New Bridge Street y Bwrdd ar adolygiad o ffioedd y Cyfarwyddwyr Anweithredol
- Linklaters & Alliance, sy'n rhoi cyngor cyfreithiol i'r Pwyllgor ar gontractau gwasanaeth a phensiynau Cyfarwyddwyr. Mae hefyd yn rhoi cyngor cyfreithiol i'r Grŵp
- Barnett Waddingham LLP, sy'n cynghori ar bensiynau. Yn 2006/7 bydd New Bridge Street yn darparu'r cyngor yma.

Ym marn y Pwyllgor, nid oedd gwrthdaro'n codi oherwydd bod y cyrff hyn yn cynghori'r Grŵp a'r Pwyllgor.

### Polisi Tâl

Dyfeisiwyd y polisi tâl er mwyn recriwtio, ysgogi a chadw unigolion allweddol ar farchnad gystadleuol a gweithredu trefniadau tâl sy'n cyfuno gymaint â phosibl buddion yr unigolyn a diddordebau hir dymor y Grŵp; yn arbennig, buddion cwsmeriaid Dŵr Cymru. O ganlyniad, seilir cyfran uchel o dâl y Cyfarwyddwyr ar berfformiad.

Mae'r polisi tâl yn gymwys i'r tîm rheoli, ynghyd â'r Cyfarwyddwyr Gweithredol, a seiliwyd ar yr egwyddorion dilynol:

- yn gyffredinol, bydd pecynnau tâl yn gystadleuol o'u cymharu â'r farchnad berthnasol
- yr elfen berfformiad 'ansefydlog' o dâl Cyfarwyddwyr, nad yw'n bensiynadwy, yn uwch na'r arfer mewn cwmnïau tebyg er cyrraedd targedau perfformiad heriol
- perfformiad ariannol a gwasanaethau cwsmeriaid yw'r meini prawf allweddol o ran pennu llwyddiant y busnes, ac felly maent yn elfennau allweddol o'r tâl ar sail perfformiad
- rhaid i'r Pwyllgor ddarparu cyfuniad o gymhellion blynyddol a hir dymor er ysgogi unigolion ac unioni eu buddion nhw ag amcanion hir dymor Glas Cymru a chwsmeriaid Dŵr Cymru
- bydd polisi tâl 2005 yn adlewyrchu bwriad y Bwrdd y dylai Dŵr Cymru gynnal perfformiad cyson gyda'r gorau yn y sector, ac os am ennill bonws rhaid i'r Cyfarwyddwyr sicrhau perfformiad ariannol a gwasanaethau cwsmeriaid gwell na'r hyn a ddisgwylir gan reoleiddwyr Dŵr Cymru.

Yn 2005-06 roedd y cwmnïau cymharol yn cynnwys y cwmnïau dŵr ar y farchnad stoc (AWG plc, Kelda plc, Pennon plc, Severn Trent plc ac United Utilities plc), ynghyd â National Grid a Scottish Power. Bydd y Pwyllgor Tâl yn adolygu addasrwydd y grŵp cymharol bob blwyddyn.

Cymeradwywyd y polisi tâl uchod ('Polisi Tâl 2005') gan Aelodau Glas Cymru yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2005 yn effeithiol o 1 Ebrill 2005. Cymrodd drosodd o'r polisi tâl a fabwysiadwyd yn 2001 am y cyfnod hyd 31 Mawrth 2005 ('Polisi Tal 2001'), a seiliwyd ar yr un egwyddorion. Pennwyd y bonws ariannol blynyddol a'r bonws cymhelliant hir dymor a dalwyd i'r Cyfarwyddwyr Gweithredol ym mis Hydref 2005, am berfformiad 2004-05, yn unol â Pholisi Tâl 2001.

#### **Polisi Bonws: Bonws Perfformiad Blynyddol**

Yr uchafswm bonws ariannol blynyddol taladwy yw 80% o'r cyflog sylfaenol ('PPBS' - percentage points of the base salary), gyda 50 PPBS (62.5% o'r uchafswm) yn daladwy am gyrraedd y 'targed' perfformiad. Rhennir yr uchafswm bonws yn gyfartal rhwng yr elfennau gwasanaeth cwsmeriaid a pherfformiad ariannol, ac mae'r bonws blynyddol yn daladwy o fewn chwe mis o ddiwedd y flwyddyn berthnasol.

Pennir yr elfen gwasanaeth cwsmeriaid wrth gyfeirio at Asesiad Perfformiad Cyffredinol Ofwat a gall gynrychioli hyd at 40 PPBS am fod yn gyntaf yng nghynghrair Ofwat o ran perfformiad 10 cwmni dŵr a charthffosiaeth Cymru a Lloegr. Bydd 8 PPBS (20% o'r uchafswm) yn daladwy am gyrraedd y perfformiad canolrif, sef sgôr cyfartalog y 5ed a 6ed cwmni yn y cynghrair, gan wobrwyo sgoriau uwch na hynny ar sail cyfradd linol.

Mae'r Asesiad Perfformiad yn cynnwys mesurau perfformiad nid-ariannol ar gyfer:

- cyflenwadau dŵr: ee ymyrraeth/cyfyngu cyflenwadau a chyrraedd safonau dŵr yfed
- mesurau carthffosiaeth: ee gorlifiadau carthion ac ansawdd arllwysyadau elifiant
- perfformiad gwasanaethau cwsmeriaid: ee cyflymder ymateb i ymholiadau bilio ffôn ac ysgrifenedig a delio â chwynion ysgrifenedig.

Ar ddisgresiwn y Pwyllgor, gellir codi neu ostwng y bonws hyd at 10 PPBS er mwyn adlewyrchu elfennau gwasanaeth cwsmeriaid amlwg ac arwyddocaol na nodwyd gan yr Asesiad Perfformiad.

Seilir yr elfen ariannol ar lif arian net (cyn gwariant cyfalaf ond ar ôl llog taladwy) a gall ennill hyd at 40 PPBS. Gwobrwyr perfformiad ar gyfradd linol o sero am gyfarfod â llifau arian blynyddol cytundeb rheoleiddio 2005-10 a gyhoeddwyd gan Ofwat yn Rhagfyr 2004 (y 'Penderfyniad Terfynol'), 25 PPBS (62.5% o'r uchafswm) a 40 PPBS am gyrraedd y targed ac isafswm lefelau yn eu tro a gymeradwywyd gan y Pwyllgor. Bydd cyrraedd y targed busnes yn mynnu bod Dŵr Cymru yn perfformio'n well na 'Penderfyniad Terfynol' Ofwat, sef ffactor allweddol os yw'r busnes am gyrraedd amcanion heriol y Bwrdd.

Mae Cyfrifon 2005-06 yn cynnwys cronïad o £241,834 (cyfwerth â 49.9 pwynt sylfaenol) gan adlewyrchu amcangyfrif cyfredol y Pwyllgor o berfformiad cymharol Dŵr Cymru am y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2006. Bydd y Pwyllgor yn gwneud ei asesiad terfynol o'r bonws taladwy ar gyfer 2005-06 ym mis Hydref 2006 yn dilyn cyhoeddi adroddiad Lefelau Gwasanaeth Ofwat.

### Polisi Bonws: Cynllun Cymhelliant Hir Dymor

Dyma gynllun cymhelliant hir dymor (y Cynllun) a gyflwynwyd fel rhan o Bolisi Tâl 2005. Mae'n gweithredu'n flynyddol o 1 Ebrill 2005 ar sail cyfnod treigl tair blynedd (ac eithrio yn ystod y ddwy flynedd gyntaf). Yr uchafswm bonws taladwy o dan y Cynllun fydd 60 PPBS, gyda 30 PPBS (50% o'r uchafswm) yn daladwy am gyrraedd y 'targed' perfformiad. Rhennir yr uchafswm bonws yn gyfartal rhwng yr elfennau perfformiad ariannol a gwasanaethau cwsmeriaid.

Trefnir taliadau o dan y Cynllun o fewn chwe mis o ddiwedd y flwyddyn olaf berthnasol, ond gellir gohirio'r taliad ar ddisgresiwn y Pwyllgor yn achos dirywiad arwyddocaol yn y perfformiad. Gellir gohirio taliad am hyd at ddwy flynedd, neu tan y gwrth-droir y sefyllfa, p'un bynnag yw'r cynharaf.

Yn ogystal, gohirir taliad hyd at 20 PPBS os bydd un o'r Asiantaethau Credyd-raddio (Rating Agencies) yn penderfynu monitro perfformiad un o fondiau'r cwmni, un ai tan y penderfynir atal monitro neu eu hisraddio. Yn achos israddiad bydd taliad o 20 PPBS yn fforffed.

Pennir yr elfen gwasanaeth cwsmeriaid wrth gyfeirio at safle Dŵr Cymru ar gynghrair Asesiad Perfformiad diwygiedig, a grynhoir wrth agregu sgoriau Asesiad Perfformiad am y tair blynedd blaenorol hyd at ac yn cynnwys blwyddyn yr asesiad. Bydd bonws yn daladwy ar raddfa symudol, sef 100% (30 PPBS) am fod yn gyntaf, 75% am ail, 50% trydydd, 25% pedwerydd a sero am fod yn bumed neu is o'r 10 cwmni cymharol.

Seilir yr elfen perfformiad ariannol ar 'Gronfeydd Ariannol' (Gwerth Cyfalaf Rheoleiddiol llai dyled net) ar ddiwedd y flwyddyn berthnasol, a ddiffiniwyd at ddibenion Adroddiad Buddsoddwyr chwarterol y Cwmni. Ystyrir tyfiant Cronfeydd Ariannol fel y mesur ariannol gorau o ddiddordeb cwsmeriaid yn y busnes, gan mai o'r Cronfeydd Ariannol yr ariannir y 'buddran cwsmeriaid' a'r buddsoddiad ychwanegol i wella gwasanaethau. O ganlyniad mae cynnydd mewn Cronfeydd Ariannol yn adlewyrchu amcanion Glas Cymru ac yn unioni buddion Cyfarwyddwyr Gweithredol a chwsmeriaid mewn modd syml ac uniongyrchol.

Fel arfer bydd y Pwyllgor yn cadarnhau amrediadau targedau tair blynedd ymlaen llaw. Fodd bynnag, byddant yn destun adolygiad gan y Pwyllgor bob blwyddyn o dan amgylchiadau penodol. Maent yn cynnwys: (a) gwahaniaethau rhwng chwyddiant gwirioneddol a'r rhagdybiaethau gwreiddiol; (b) pan fydd y Bwrdd yn newid y 'buddran cwsmeriaid' ar ôl gwneud y rhagolwg gwreiddiol; (c) yn achos unrhyw ddylanwad sylweddol ar gronfeydd ariannol na ragwelwyd yn wreiddiol a bod y Pwyllgor yn penderfynu ei fod tu hwnt i reolaeth y Cyfarwyddwyr Gweithredol. Mesurir taliadau bonws wrth gyfeirio at lefel is, y Penderfyniad Terfynol, ble nad oes bonws yn daladwy, targed i ennill 50% o'r uchafswm bonws a lefel uwch, a bennir gan y Pwyllgor, i ennill yr uchafswm bonws. Yma eto, bydd cyrraedd y targed yn mynnu bod Dŵr Cymru yn perfformio'n well na 'Penderfyniad Terfynol' Ofwat, sef ffactor allweddol os yw'r busnes am gyrraedd amcanion heriol y Bwrdd.

Ar ei ddisgresiwn gall y Pwyllgor godi neu ostwng y bonws er mwyn adlewyrchu digwyddiadau neu ffactorau na ystyriwyd gan yr uchod, cyn belled y cyfiawnheir y fath newid yn yr adroddiad blynyddol perthnasol.

Mae Cyfrifon 2005-06 yn cynnwys cronniad o £241,834 (cyfwerth â 44.1 pwynt sylfaenol) gan adlewyrchu amcangyfrif cyfredol y Pwyllgor o berfformiad cymharol Dŵr Cymru am y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2006. Bydd y Pwyllgor yn gwneud ei asesiad terfynol o'r bonws taladwy ar gyfer 2005-06 ym mis Hydref 2006 yn dilyn cyhoeddiad adroddiad Lefelau Gwasanaeth Ofwat.

### Tâl: Cadeirydd a'r Cyfarwyddwyr Anweithredol

Cyfrifoldeb y Pwyllgor a'r Bwrdd yw pennu ffioedd y Cadeirydd a'r Cyfarwyddwyr Anweithredol yn eu tro. Adolygwyd y ffioedd o 1 Ebrill 2006 i'r symiau dilynol:

Cadeirydd	£172,000 (2005: £164,000)
Cyfarwyddwyr Anweithredol	£48,000 (2005: 45,000)

Ni thelir symiau ychwanegol i'r Cadeirydd neu unrhyw Gyfarwyddwr Anweithredol am gadeirio neu weithredu fel aelod o Bwyllgorau'r Bwrdd, neu am dderbyn cyfrifoldebau arbennig ar ran y Bwrdd (manyllion pellach yn y Datganiad Rheoli Corfforaethol ar dudalen 40). Adolygir y ffioedd bob blwyddyn.

Penodir y Cadeirydd a'r Cyfarwyddwyr Anweithredol drwy gyfrwng llythyrau penodi a gellir terfynu'r penodiad wrth roi rhybudd o dri mis. Gaill y naill ochr derfynu'r penodiad, ond ni fydd unrhyw iawndal yn daladwy gan y Cwmni wrth derfynu penodiad.

### Tâl - Cyfarwyddwyr Gweithredol

#### Cyflog

Ar 1 Ebrill 2006, cyflogau sylfaenol y Cyfarwyddwyr Gweithredol oedd:

Nigel Annett (Rheolwr Gyfarwyddwr)	£231,000 (2005: £220,000)
Jim O'Sullivan (Cyfarwyddwr Gweithredu)	£178,500 (2005: £170,000) ( <i>Penodwyd 12 Medi 2005</i> )
Chris Jones (Cyfarwyddwr Cyllid)	£178,500 (2005: £170,000)

Pennwyd y cyflogau sylfaenol gan y Pwyllgor wrth ystyried data o'r farchnad gan New Bridge Street, ac yn dilyn newidiadau mewn cyfrifoldebau yn dilyn ymddeoliad Mike Brooker ar 31 Mawrth 2005. Adolygir y cyflogau sylfaenol bob blwyddyn.

#### Bonws

##### Bonws perfformiad blynyddol

Ym mis Hydref 2005 derbyniodd y Cyfarwyddwyr Gweithredol fonws cymhelliant am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2005 yn cyfateb i 77.3% o'u cyflog, gyda 50% ohono'n gysylltiedig â pherfformiad yn erbyn targedau gwasanaeth cwsmeriaid a 27.3% yn ymwneud â chyrraedd targedau ariannol. Roedd hynny'n cymharu â chroniad o 60.8% yng Nghyfrifon 2004-05.

##### Bonws hir dymor

Yn 2005-06, derbyniodd y Cyfarwyddwyr Gweithredol mewn swydd ar 31 Mawrth 2005 fonws hir dymor o dan Bolisi Tâl 2001. Yn unol ag Adroddiad Tâl 2005, pennwyd ar sail dau fesur a aseswyd dros y cyfnod pedair blynedd yn diweddu 31 Mawrth 2005: (i) cynnydd mewn Cronfeydd Ariannol y Cwmni' a (ii) newidiadau i gyfraddau bondiau'r Cwmni.

O dan y cynllun hwn, talwyd hanner y wobwr ym mis Medi 2005. Gohiriwyd yr hanner arall am ddwy flynedd a bydd yn daladwy ym mis Medi 2007 heb unrhyw amodau perfformiad arall. Fodd bynnag, ar ôl ymddeol ar 31 Mawrth 2005, derbyniodd Mike Brooker (ym mis Medi 2005) y bonws hir dymor llawn a gronodd dros y cyfnod pedair blynedd hyd 31 Mawrth 2005.

##### Cynllun Cymhelliant Hir Dymor (2005)

Cyflwynwyd y Cynllun Cymhelliant Hir Dymor ym mis Ebrill 2005 fel rhan o Bolisi Tâl 2005. Fe wneir y taliad cyntaf o dan y Cynllun hwn ym mis Hydref 2006.

## Pensiynau

Mae'n bolisi gan y Cwmni i drefnu pensiynau ar gyfer Cyfarwyddwyr Gweithredol. Mae Dŵr Cymru yn cynnal cynllun pensiwn buddion diffiniedig a chynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig. Mae NC Annett a CA Jones yn aelodau o'r cynllun buddion diffiniedig a J O'Sullivan yn aelod o'r cynllun cyfraniadau diffiniedig.

	Pensiwn cronedig (y flwyddyn)	Cynnydd pensiwn crownedig yn y flwyddyn	Gwerth trosglwyddo 31 Mawrth 06	Cyferweth trosglwyddo'r cynnydd	Gwerth trosglwyddo 31 Mawrth 06	Cyfraniadau cyfarwyddwyr	Cyfraniadau'r cwmni**
NC Annett*	£51,322	£6,482	£331,267	£53,278	£421,890	£13,710	£49,585
CA Jones*	£38,720	£6,158	£183,763	£39,681	£243,621	£10,710	£38,735
J O'Sullivan ***	-	-	-	-	-	-	£23,702

\* Pensiwn cronedig yn cynnwys gwasanaeth blaenorol fel rhan o Gynllun Pensiwn Dŵr Hyder.

\*\* Ymddeolodd MP Brooker ar 31 Mawrth 2005 gyda phensiwn heb ei ostegu. Gwnaed cronaid o £270,000 yng nghyfrifon 2005 mewn cysylltiad â MP Brooker, a dalwyd wedyn i'r cynllun pensiwn yn y flwyddyn yn diweddau 31 Mawrth 2006.

\*\*\* Ymunodd Jim O'Sullivan â'r cwmni ar 12 Medi 2005. Gan ei fod yn aelod o'r cynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig, nid oes rhwymedigaethau pensiwn cronedig.

Mae'r Cwmni wedi gwneud darpariaeth ar gyfer rhwymedigaethau'n deillio o ymrwymadau contract i Gyfarwyddwyr Gweithredol ynglŷn â 'terfyn enillion' Cyllid y Wlad. Ar 31 Mawrth 2006 roedd yn werth £220,000 (2005: £204,000).

Oedran ymddeol arferol Cyfarwyddwyr o dan Gynllun Pensiwn Dŵr Cymru yw 60 ac, yn achos y cynllun Buddion Diffiniedig, mae buddion yn cronni ar 1/45 o'r cyflog am bob blwyddyn o wasanaeth pensiynadwy, yn amodol ar uchafswm pensiwn ar yr oedran pensiwn arferol o ddwy ran o dair o'r cyflog pensiynadwy terfynol. Yn ogystal, mae'r cynlluniau Cyfraniadau Diffiniedig a Buddion Diffiniedig yn darparu yswiriant bywyd o bedair gwaith y cyflog pensiynadwy yn achos marwolaeth mewn swydd, pensiwn yn daladwy yn achos salwch a phensiwn yn daladwy i'r priod yn achos marwolaeth. Mae'r Cyfarwyddwyr Gweithredol hefyd yn aelodau o gynllun iechyd ac yswiriant meddygol preifat.

## Tâl cyfarwyddwyr (ac eithrio buddion pensiwn a bonws perfformiad hir dymor)

Mae'r tabl isod yn nodi tâl cyfarwyddwyr am y flwyddyn yn diweddau 31 Mawrth 2006, yn cynnwys amcangyfrif gorau o'r bonws perfformiad blynyddol ar gyfer perfformiad gwasanaeth cwsmeriaid 2005-06. Fel arfer telir y bonws perfformiad blynyddol ym mis Medi, yn dilyn cyhoeddiad Adroddiad Lefelau Gwasanaeth Ofwat, sy'n nodi perfformiad 10 cwmni dŵr a charthffosiaeth Cymru a Lloegr a data OPA y flwyddyn ariannol berthnasol. Datgelir unrhyw newid mewn amcangyfrifon bonws yn Adroddiad Tâl y flwyddyn ddilynol.

Ym marn y Pwyllgor dyma'r drefn fwyaf ystyrion, am ei bod yn caniatáu cymhariad uniongyrchol o daliadau Cyfarwyddwyr o flwyddyn i flwyddyn. Darperir yr wybodaeth lawn at ddibenion y Ddeddf Cwmnïau yn y tabl a'r nodiadau atodol.

Dyma enillion y cyfarwyddwyr yn y flwyddyn ariannol yn diweddau 31 Mawrth 2006.

	Arglwydd									
	Burns	NC Annett	CA Jones	J O'Sullivan <sup>1</sup>	JM Bryant	A Carnwath	GT Davies	DJ Hine	AJ Hobson	Cyfanswm
2005-06										
Cyflog		220,000	170,000	94,808						£484,808
Bonws 2005-06										
Bonws blynyddol <sup>2</sup>		109,741	84,800	47,292						£241,833
Buddion mewn cynnyrch <sup>3</sup>		1,931	1,451	708						£4,090
Ffioedd	164,000				45,000	45,000	45,000	45,000	45,000	£389,000
Cyfanswm tâl 2005-06	£164,000	£331,672	£256,251	£142,808	£45,000	£45,000	£45,000	£45,000	£45,000	£1,119,731

## Tâl Cyfarwyddwyr am y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2005.

2004-05	Arglwydd									Cyfanswm
	Burns	MP Brooker <sup>4</sup>	NC Annett	CA Jones	JM Bryant	A Carnwath	GT Davies	DJ Hine	AJ Hobson	
Cyflog <sup>5</sup>		£194,958	£152,713	£139,256						£486,927
Bonws 2004-05 a nodwyd yn Adroddiad & Cyfrifon <sup>6</sup>		£118,534	£84,668	£84,668						£287,870
Addasiad bonws 2004-05		£ 32,169	£22,977	£22,977						£78,123
Cyfanswm bonws <sup>7</sup>		£150,703	£107,645	£107,645						£365,993
Buddion mewn cynnyrch		£9,378	£9,612	£10,013						£29,003
Ffioedd	155,000				41,334	41,334	41,334	41,334	41,334	£361,670
Cyfanswm tâl 2004-05	£155,000	£355,039	£269,970	£256,914	£41,334	£41,334	£41,334	£41,334	£41,334	£1,243,593

### Nodiadau

1 Penodwyd J O'Sullivan yn Gyfarwyddwr ar 12 Medi 2005.

2 Mae datganiadau ariannol y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2006 yn cynnwys darpariaeth o £241,833 (49.9% o'r cyflog sylfaenol) ar gyfer potensial bonws blynyddol taladwy i Gyfarwyddwyr Gweithredol am berfformiad blwyddyn ariannol 2005-06. Amcangyfrifwyd bydd y Cwmni yn Sed yn Asesiad Perfformiad Cyffredinol Ofwat ar gyfer 2005-06. Pennir y symiau terfynol i'w talu i bob cyfarwyddwr pan fydd Ofwat yn cyhoeddi canlyniadau OPA 2005-06 yn yr hydref 2006, a gallai fod yn uwch neu'n is.

3 Mae buddion mewn cynnyrch yn gysylltiedig ag yswiriant meddygol preifat, yswiriant salwch ac yswiriant bywyd. Yn 2004-05, derbyniodd y Cyfarwyddwyr Gweithredol atodiad cyflog yn hytrach na char cwmni - dilëwyd yr atodiad erbyn hyn.

4 Ymdeolodd MP Brooker fel Gyfarwyddwr ar 31 Mawrth 2005.

5 Mae'r cyflog yn cynnwys swm o £13,457 a dalwyd i NC Annett yn ystod y cyfnod 1 Ionawr i 31 Mawrth 2005.

6 Nodwyd bonws perfformiad o £287,870 yn Adroddiad & Cyfrifon 2004-05 a amcangyfrifodd byddai'r Cwmni yn 3ydd yn Asesiad Perfformiad Cyffredinol Ofwat ar gyfer 2004-05.

7 Bonws perfformiad gwirioneddol 2004-05 oedd £365,993 (77.3% o'r cyflog). Talwyd ym mis Hydref 2005 yn dilyn cyhoeddiad OPA Ofwat ar gyfer 2005-06, a gadarnhaodd safle Dŵr Cymru yn gydradd gyntaf.

8 Nid yw tabl tâl 2004-05 yn cynnwys darpariaethau ar gyfer hawliau Cyfarwyddwyr o dan y cynllun bonws perfformiad hir dymor am y cyfnod yn diwedd 31 Mawrth 2005. Talwyd 50% ym Medi 2005, gyda'r gweddill yn daladwy ym Medi 2007. Yn 2004-05 derbyniodd NC Annett a CA Jones £111,405 (50% o'r hawl), MP Brooker £311,932 (100% o'r hawl yn dilyn ymdeoliad).

9 Y cyfarwyddwr ar y cyflog uchaf yn 2005-06 oedd NC Annett: £331,672 (2005: MP Brooker £355,039).

## Tâl Cyfarwyddwyr: Cynllun Cymhelliant Hir Dymor

Yn ogystal â'r taliadau yn y tabl ar dudalen 36, gwneir darpariaeth yng Nghyfrifon 2005-06 ar gyfer yr hawl cyntaf taladwy o dan y cynllun cymhelliant hir dymor (tair blynedd) a fabwysiadwyd ar 1 Ebrill 2005 sy'n daladwy ym mis Hydref 2006, nad oes cymharydd blwyddyn flaenorol ar ei gyfer.

Mae'r ddarpariaeth o £213,844 yn cynrychioli 44.1% o'r cyflog ac amcangyfrifwyd bydd y Cwmni yn 3ydd yn OPA Ofwat am y tair blynedd 2003-04 i 2005-06:

NC Annett £97,040

CA Jones £74,985

J O'Sullivan £41,819

Pennir y swm terfynol taladwy i bob Cyfarwyddwr pan fydd Ofwat yn cyhoeddi canlyniadau OPA 2005-06 yn hydref 2006, a gall fod yn uwch neu'n is na'r ddarpariaeth.

## Contractau gwasanaeth

Mae contractau gwasanaeth y Cyfarwyddwyr Gweithredol yn destun rhybudd o un flwyddyn. Nid yw contractau gwasanaeth y Cyfarwyddwyr yn darparu iawndal os bydd y Cwmni'n terfynu contract yn gynnar. Ar ddisgresiwn y Cwmni, gellir talu cyflog sylfaenol yn unig i Gyfarwyddwr Gweithredol yn lle hysbysiad diswyddo. O ganlyniad, mae contractau'r Cyfarwyddwyr Gweithredol yn cynnwys elfen liniaru sylweddol os digwydd bydd y Cwmni yn dewis gwneud taliad yn lle rhoi hysbysiad diswyddo.

### Penodiadau allanol

Mae'r Bwrdd yn cydnabod y buddion o ehangu profiad Cyfarwyddwyr Gweithredol wrth eu caniatáu i wneud gwaith allanol. Mae unrhyw benodiad yn destun cymeradwyaeth y Pwyllgor ac, yn amodol ar ganiatâd y Pwyllgor, gall Cyfarwyddwr gadw unrhyw ffioedd. Mae J O'Sullivan yn gyfarwyddwr anweithredol o'r Swyddfa Rheoleiddio Rheilffyrdd a CA Jones yn gyfarwyddwr anweithredol o'r Principality Building Society.

### Argymhelliad

Ym marn y Pwyllgor mae Polisi Tâl 2005 yn parhau i gydbwysu elfennau cyflog a chymhellion er mwyn gwobrwyo a symbylu Cyfarwyddwyr Gweithredol i gyrraedd amcanion y Bwrdd ar ran y Cwmni. O ganlyniad mae'r Pwyllgor yn argymhell yr Aelodau i gymeradwyo Adroddiad Tâl 2005.



**Alison Carnwath**

Cadeirydd: Pwyllgor Tâl  
7 Mehefin 2006

Mae Glas Cymru wedi ymrwymo i ddilyn safonau rheoli corfforaethol uchel. Bydd hynny'n hanfodol os am gynnal ein statws fel darparwr gwasanaethau cyhoeddus o safon ym marn cwsmeriaid a rheoleiddwyr Dŵr Cymru, a dalwyr bondiau a rhanddeiliaid eraill Glas Cymru.

Mae'r adroddiad hwn yn esbonio nodweddion allweddol strwythur rheoli corfforaethol y Cwmni a sut mae'n cydymffurfio ag Egwyddorion Rheoli Da a'r Cod Arferion Gorau sy'n rhan o atodiadau rheolau rhestru Awdurdod Rhestru'r Deyrnas Unedig (y 'Cod Cyfunol'), er nad yw holl ddarpariaethau'r Cod Cyfunol yn gymwys i Glas Cymru fel cwmni cyfyngedig trwy warant.

Ar ddyddiad yr adroddiad hwn, mae'r Cwmni yn dilyn holl ddarpariaethau cymwys y Cod Cyfunol, ac eithrio mewn cysylltiad â phenodi uwch Gyfarwyddwr annibynnol. Cyfeirir at hynny ar dudalen 44.

### Y Bwrdd

Mae'r Bwrdd yn cynnwys naw Cyfarwyddwr: Cadeirydd, tri Chyfarwyddwr Gweithredol a phum Cyfarwyddwr Anweithredol annibynnol. Ym marn y Cwmni, mae'r Bwrdd o'r maint iawn ac yn cynnwys cymysgedd addas o brofiad ac arbenigedd i arolygu busnes y Grŵp ac uchafu effeithiolrwydd y Bwrdd, gan sicrhau y trafodir materion yn drwyadl a bod dim un person neu grŵp yn dominyddu prosesau penderfynu'r Bwrdd.

Pennwyd rolau gwahanol ar gyfer y Cadeirydd a'r Rheolwr Gyfarwyddwr a nodir eu dyletswyddau yng Nghanllawiau Rheoli'r Bwrdd. Y Cadeirydd sy'n bennaf gyfrifol am weithrediad effeithiol y Bwrdd a sicrhau ei fod yn derbyn gwybodaeth ddigonol i wneud penderfyniadau doeth. Y Rheolwr Gyfarwyddwr sy'n gyfrifol am arwain yr uwch reolwyr wrth reoli'r busnes yn feunyddiol ac am weithredu'r cynllun busnes, y polisiau a'r gweithdrefnau a fabwysiadwyd gan y Bwrdd.

Mae'r holl wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r Grŵp yn agored i'r Cyfarwyddwyr Anweithredol, ynghyd â chyngor a gwasanaethau Ysgrifennydd y Cwmni; ac, fel bo angen, cyngor allanol annibynnol ar gost y Cwmni. Mae Ysgrifennydd y Cwmni yn aelod o'r staff, ond nid yw'n Gyfarwyddwr o'r Cwmni.

Nodir manylion cryno'r Cyfarwyddwyr cyfredol ar dudalennau 26 a 27, yn cynnwys dyddiadau penodi a manylion penodiadau eraill o bwys. Gwasanaethodd bob Cyfarwyddwr drwy gydol 2005-06, ac eithrio J O'Sullivan a benodwyd ar 12 Medi 2005. Penodir y Cyfarwyddwyr Gweithredol ar sail contract gwasanaeth ysgrifenedig sy'n destun 12 mis o rybudd cyn ei derfynu gan y Cwmni. Penodir y Cyfarwyddwyr Anweithredol ar sail llythyr penodi sy'n destun terfyniad heb rybudd gan y Bwrdd. Nodir manylion tâl y Cyfarwyddwyr yn Adroddiad Tâl 2006 ar dudalennau 35 i 37.

### Materion y Bwrdd

Bydd y Bwrdd yn cyfarfod yn rheolaidd er mwyn pennu'r cyfeiriad strategol ac adolygu perfformiad gweithredol, ariannol a risg y busnes. Bydd y Bwrdd yn ystyried agenda ffurfiol o faterion penodol, a ddiweddarwyd ym mis Mawrth 2006, a dim ond y Bwrdd sy'n gallu ei newid. Mae'n cynnwys cymeradwyo'r cynllun busnes blynyddol (sy'n cynnwys amcanion gweithredol a strategol y busnes, a'r fframwaith risg), polisiau corfforaethol, trafodion arwyddocaol uwch ben lefelau penodedig neu du allan busnes arferol y cwmni, a dirprwyo awdurdod y Bwrdd i bwyllgorau a Chyfarwyddwyr Gweithredol.

Bydd y Bwrdd a'i bwyllgorau'n cyfarfod yn rheolaidd. Mae'r tabl isod yn nodi cyfarfodydd 2005-06 a phwy oedd yn bresennol.

	Bwrdd	Archwilio <sup>A</sup>	Tâl <sup>R</sup>	Ansawdd <sup>Q</sup>	Enwebiadau <sup>N</sup>
Cyfarfodydd yn y flwyddyn	10	4	5	12	2
Mynychwyd gan:					
Arglwydd Burns <sup>(N)</sup>	10	-	-	-	*2
Nigel Annett <sup>(Q)</sup>	10	-	-	12	-
Chris Jones	10	-	-	-	-
Jim O'Sullivan (penodwyd 12/09/05) <sup>(Q)</sup>	6	-	-	6	-
John Bryant <sup>(R, Q, N)</sup>	9	-	5	11	2
Alison Carnwath <sup>(A, R, N)</sup>	9	4	*5	-	2
Geraint Talfan Davies <sup>(A, R, N)</sup>	10	4	5	-	2
Y Fonesig Deirdre Hine <sup>(R, Q, N)</sup>	10	-	5	*11	2
Tony Hobson <sup>(A, R, N)</sup>	9	*4	5	-	2

\* Cadeirydd pwyllgor

### Ethol ac ailethol Cyfarwyddwyr

Yn unol ag Erthyglau'r Cwmni, rhaid i bob Cyfarwyddwr sefyll i'w ailethol ar ôl cyfnod o ddim mwy na thair blynedd, a rhaid i unrhyw Gyfarwyddwr newydd sefyll i'w ailethol yn y cyfarfod cyffredinol blynyddol cyntaf yn dilyn ei benodiad.

Yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar 7 Gorffennaf 2006 ('Cyfarfod Blynyddol 2006') bydd tri Chyfarwyddwr, Alison Carnwath, Geraint Talfan Davies a Tony Hobson yn ymddeol yn eu tro. Ar ôl adolygu eu perfformiad, mae'r Bwrdd wedi cadarnhau fod y tri'n parhau i ddangos ymroddiad mawr ac yn gweithio'n effeithiol iawn fel Cyfarwyddwr Anweithredol, ac yn dal yn 'annibynnol' yn ôl diffiniad y Cod Cyfunol. Yn ogystal, bydd Jim O'Sullivan yn sefyll i'w ailethol fel Cyfarwyddwr yn ei Gyfarfod Blynyddol cyntaf. Mae'r Bwrdd yn argymhell ailbenodi'r pedwar Cyfarwyddwr sy'n cynnig eu hunain i'w hail-benodi.

### Hysbysu, sefydlu a datblygu cyfarwyddwyr

Rôl y Cadeirydd, gyda chymorth Ysgrifennydd y Cwmni, yw sicrhau bod y Bwrdd, ei bwyllgorau a Chyfarwyddwyr unigol yn derbyn gwybodaeth amserol a chlr ynglŷn â strategaeth a pherfformiad y Cwmni er sicrhau trafodaethau ystyrlon a phenderfyniadau effeithiol. Yn ogystal, bydd Ysgrifennydd y Cwmni yn cynghori'r Bwrdd ar reolaeth gorfforaethol.

Cyfrifoldeb y Bwrdd yw penodi Cyfarwyddwyr newydd, ar ôl derbyn cyngor ar argymhelliad gan y Pwyllgor Enwebiadau. Yn unol ag Egwyddor A5 o'r Cod Cyfunol, bydd Cyfarwyddwyr newydd yn dilyn rhaglen sefydlu er mwyn dysgu am y busnes, y risgiau a'r heriau strategol, ac amgylchedd economaidd, cystadleuol, cyfreithiol a rheoleiddiol y Cwmni.

Yn ogystal sefydlwyd rhaglen er mwyn rhoi cyfle i'r Cyfarwyddwyr ddiweddarau sgiliau a gwybodaeth berthnasol. Yn 2005-06 mynychwyd cwrs allanol gan dri Chyfarwyddwr Anweithredol ac fe drefnwyd cyflwyniadau ger bron y Bwrdd ar faterion strategol allweddol megis newidiadau i amgylchedd rheoleiddio Dŵr Cymru.

### Gwerthuso'r Bwrdd

Mae'r Bwrdd wedi sefydlu proses i werthuso perfformiad y Bwrdd, y Cadeirydd a'r prif bwyllgorau. Mae'r broses yn cynnwys llenwi holiaduron gan bob Cyfarwyddwr, coladu a dadansoddi'r canlyniadau gan Ysgrifennydd y Cwmni, a'u trafod gan y Bwrdd. Ar ben hynny, bydd y Cadeirydd yn cynnal trafodaethau un i un gyda phob Cyfarwyddwr, gan ddilyn i fyny'r materion a godir.

Cynhaliwyd y gwerthusiad diweddaraf ym mis Chwefror 2006. Ni chododd unrhyw wendidau neu fethiant sylweddol, ond nododd nifer o agweddau i'w hystyried er mwyn parhau i wella effeithiolrwydd y Bwrdd.

Yn ogystal cyfarfu'r Bwrdd, heb y Cadeirydd, er mwyn adolygu a gwerthuso perfformiad y Cadeirydd. Bydd y Cadeirydd yn asesu perfformiad y rheolwr gyfarwyddwr ar ôl ystyried barn y Cyfarwyddwyr eraill. Bydd y rheolwr gyfarwyddwr yn asesu perfformiad y Cyfarwyddwyr Gweithredol ac Ysgrifennydd y Cwmni, sy'n adrodd iddo, o dan broses werthuso flynyddol sy'n gymwys i bob aelod staff a gyflogir yn uniongyrchol gan y Grŵp.

### Pwyllgorau'r Bwrdd

Mae'r Bwrdd wedi sefydlu pedwar prif bwyllgor, gydag amodau gorchwyl ysgrifenedig sy'n diffinio rôl a chyfrifoldebau'r pwyllgorau: Pwyllgor Archwilio, Pwyllgor Tâl, Pwyllgor Ansawdd ac Amgylchedd & Pwyllgor Enwebiadau. Adolygir eu rolau a chyfrifoldebau bob blwyddyn.

Nodir aelodau'r gwahanol bwyllgorau ar dudalen 40. Wrth bennu'r aelodau, y nod yw gwneud y defnydd gorau o sgiliau a phrofiad y Cyfarwyddwyr Anweithredol yn arbennig. Bydd y cadeirydd perthnasol yn adrodd canlyniad pob pwyllgor i'r Bwrdd a bydd y Bwrdd yn derbyn cofnodion pob cyfarfod. Mae awdurdod gan bob pwyllgor o'r Bwrdd i ddefnyddio gwasanaethau ymgynghorwyr, tu fewn a thu allan y Cwmni, y mae'n ystyried yn angenrheidiol i gyflawni ei chyfrifoldebau.

Nodir isod fanylion gwaith y Pwyllgor Archwilio, y Pwyllgor Ansawdd ac Amgylchedd a'r Pwyllgor Enwebiadau. Mae manylion gwaith y Pwyllgor Archwilio o fewn Adroddiad Tâl 2006 ar dudalennau 32 i 38. Yn ogystal â chyfrannu at bwyllgorau ffurfiol y Bwrdd, neilltuwyd rhai 'cyfrifoldebau arbennig' i rai Cyfarwyddwyr am feysydd pwysig megis caffaelio (John Bryant), cyfathrebu (Geraint Talfan Davies) a llywodraeth a rheoleiddio (Arglwydd Burns). Ym mis Ebrill 2006, sefydlwyd Pwyllgor Cyllid gan y Bwrdd i gymeradwyo trafodion ariannol yn galw am benderfyniad rhwng cyfarfodydd ffurfiol y Bwrdd.

### Pwyllgor Archwilio

Cyfarwyddwyr Anweithredol annibynnol yw aelodau'r Pwyllgor Archwilio: Tony Hobson (cadeirydd), Alison Carnwath a Geraint Talfan Davies. Penodwyd yn aelodau o'r Pwyllgor yn 2001. Trwy wahoddiad y cadeirydd, bydd y Cyfarwyddwr Cyllid, y Pennaeth Sicrwydd Busnes ac Archwilio Mewnol a rhai uwch reolwyr eraill yn mynychu'r cyfarfodydd. Ysgrifennydd y Cwmni sy'n gweithredu fel ysgrifennydd y Pwyllgor.

Ym marn y Bwrdd mae gan Tony Hobson, cyfrifydd siartredig a hyd 2001 cyfarwyddwr cyllid Legal & General Group plc, y profiad sylweddol, diweddar perthnasol ac angenrheidiol i gadeirio'r Pwyllgor.

Rôl y pwyllgor yw derbyn a herio adroddiadau gan reolwyr gweithredol a, fel bo'n addas, gan archwilwyr mewnl ac allanol y Grŵp; ac yn benodol:

- Adolygu a chynghori'r Bwrdd ar ddatganiadau ariannol dros dro a blynyddol y Grŵp, ei bolisiau cyfrifeg a rheolaeth o'i risgiau ariannol a busnes
- adolygu natur a sgôp y gwaith i'w wneud gan yr archwilwyr allanol a'r gwasanaeth archwilio mewnl (o dan gontract allanol), canlyniadau eu gwaith archwilio ac ymateb y rheolwyr
- adolygu a chynghori'r Bwrdd ar effeithiolrwydd amgylchedd rheoli mewnl y Grŵp, yn cynnwys trefniadau 'hysbysu problemau'
- gwneud argymhellion o ran penodi a thalu archwilwyr allanol a monitro eu perfformiad
- cymeradwyo a monitro'r polisi gwasanaethau nid-archwilio a ddarperir i'r Grŵp gan yr archwilwyr allanol er sicrhau annibyniaeth yr archwilwyr.

Yn ystod 2005-06, cyfarfu'r Pwyllgor Archwilio bedair gwaith gyda phob aelod yn bresennol, gan adrodd ei gasgliadau i'r Bwrdd. Adolygodd y Pwyllgor y drafft adroddiadau blynyddol a dros dro a'r datganiadau rhagarweiniol a dros dro cysylltiedig, gan ganolbwyntio ar feysydd allweddol a pholisïau cyfrifeg arwyddocaol. Yn ogystal, monitrodd gyflwyniad y Cwmni o'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Clustnodir amser o fewn dau gyfarfod y flwyddyn i adolygu canlyniadau rheoli risgiau, yn cynnwys adolygu cynlluniau i liniaru risgiau busnes arwyddocaol. Trafodir adroddiadau a materion o bwys i'r rhaglen archwilio risgiau ym mhob cyfarfod.

Yn ystod y flwyddyn, adolygodd y Pwyllgor gynlluniau a chanlyniadau archwilio mewnol ac allanol, gan gyfarfod yn breifat â'r archwilwyr mewnol ac allanol heb yr uwch reolwyr. Bydd y Pwyllgor yn adolygu annibyniaeth yr archwilwyr bob blwyddyn. Yn ogystal, cyfarfu'r Pwyllgor â'r Cyfarwyddwyr Gweithredol ac uwch reolwyr. Ar sail yr holl waith yma, bydd y Pwyllgor Archwilio yn parhau i asesu effeithiolrwydd yr archwiliadau mewnol ac allanol.

Rôl y gwasanaeth archwilio mewnol yw cynghori'r rheolwyr a'r Bwrdd ar effeithiolrwydd y systemau rheoli mewnol a darparu sicrwydd annibynnol a gwrthrychol fod y prosesau i nodi, asesu a rheoli risgiau sylweddol yn addas ac yn cael eu dilyn yn effeithiol. Pennir cynllun gwaith yr archwiliad mewnol (sy'n cynnwys sgôp, awdurdod ac adnoddau'r fath weithgaredd) wrth ddilyn proses asesu risgiau strwythurol wedi'i chymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio. Yn ystod blwyddyn ariannol 2005-06, gwnaed y gwaith archwilio mewnol gan gwmni Grant Thornton, ond nid oedd yn gyfrifol am ei reoli.

Ar hyn o bryd mae'r Cwmni yn cynnal proses i wahodd tendrau i ddarparu gwasanaethau archwilio allanol, fydd yn arwain at argymhelliad gan y Pwyllgor Archwilio i'r Bwrdd. Rhagwelir cwblhau'r broses yn ystod haf 2006, gan benodi'r cwmni llwyddiannus i archwilio cyfrifon y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2007.

Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi adolygu polisïau'r archwilwyr er sicrhau eu hannibyniaeth nhw a'u partner contract ac wedi dilyn ei bolisi ar ffioedd nid-archwilio. Mae hynny'n golygu na ddefnyddir yr archwilydd allanol ar gyfer gwasanaethau archwilio mewnol, a bod yr holl waith nid-archwilio uwchben £25,000 yn destun tendrau cystadleuol ymlaen llaw a chymeradwyaeth y Pwyllgor Archwilio. Dadansoddir yr holl wariant ar archwilwyr rhwng gwaith archwilio ac nid-archwilio yn Nodyn 4 i'r Cyfrifon ar dudalen 60.

Mae amodau gorchwyl y Pwyllgor Archwilio yn cynnwys pob mater a fyddir gan y Cod Cyfunol ac adolygodd y Pwyllgor effeithiolrwydd ei hun drwy gyfrwng hunan asesiad ym mis Mawrth. Mae hawl anghyfyngedig gan y Pwyllgor i ddarllen unrhyw ddogfennau'r Cwmni ac i drafoed â staff ac archwilwyr allanol. Yn eu tro, mae hawl mynediad uniongyrchol gan y Cyfarwyddwr Cyllid a'r Pennaeth Sicrwydd Busnes ac Archwilio Mewnol i gadeirydd y Pwyllgor Archwilio mewn cysylltiad â materion byddant am ddwyn at ei sylw.

### **Pwyllgor Ansawdd ac Amgylchedd**

Bydd y pwyllgor yn cyfarfod bob mis. Mae'n cynnwys dau Gyfarwyddwr Anweithredol (y Fonesig Deirdre Hine, cadeirydd, a John Bryant) a dau Gyfarwyddwr Gweithredol (Jim O'Sullivan a Tim Masters, pennaeth strategaeth asedau). Bydd dau arbenigwr annibynnol yn cynghori'r pwyllgor ar agweddau iechyd cyhoeddus a gweithredu cyflenwadau dŵr a rheoli'r amgylchedd. Trwy wahoddiad y cadeirydd, mynychir cyfarfodydd y pwyllgor gan gyfarwyddwyr dau o brif bartneriaid gweithredu Dŵr Cymru, United Utilities Operating Services a Kelda Water Services Wales. Ysgrifennydd y Cwmni sy'n gweithredu fel ysgrifennydd y Pwyllgor.

Mae ansawdd ac amgylchedd yn elfennau canolog o'n trefniadau rheoli, sy'n cydnabod ffocws y Bwrdd ar ansawdd, gwasanaeth a rheoli risgiau wrth fonitro perfformiad y Cwmni. Felly, rôl y Pwyllgor yw cynghori'r Bwrdd ar bolisïau ac arferion gweithredu. Bydd hefyd yn adolygu perfformiad Dŵr Cymru a'i bartneriaid contract yn rheolaidd yn erbyn mynegeion perfformiad allweddol, ym meysydd iechyd cyhoeddus a diogelwch, dilyn rheoliadau dŵr yfed a deddfau a rheoliadau amgylcheddol.

Bydd y Pwyllgor yn paratoi adroddiad blynyddol ar gyfer y Bwrdd, sef dogfen a gyhoeddir yn ffurfiol. Yn ogystal, cyflwynir yr adroddiad i'r Arolygaeth Dŵr Yfed ac Asiantaeth yr Amgylchedd (y 'Rheoleiddwyr Ansawdd'). Rhaid i'r Bwrdd hysbysu'r Rheoleiddwyr Ansawdd yn syth os na fydd yn gweithredu unrhyw argymhelliad gan y Pwyllgor Ansawdd ac Amgylchedd. Yn ogystal mae gwaith y Pwyllgor yn destun adolygiad gan Adroddwr Dŵr Cymru (ymgynghorydd annibynnol a benodir gan Dŵr Cymru gyda chymeradwyaeth Ofwat) fydd yn adrodd i Ofwat a'r Rheoleiddwyr Ansawdd ar effeithiolrwydd systemau rheoli mewnol Dŵr Cymru. Gellir cael copi o adroddiad Ansawdd ac Amgylchedd 2006 ar gais gan Ysgrifennydd y Cwmni neu ar y wefan [www.dwrcymru.com](http://www.dwrcymru.com)

### Pwyllgor Enwebiadau

Bydd y pwyllgor yn cyfarfod yn ôl y gofyn. Y cadeirydd yw Cadeirydd y Bwrdd ac mae'n cynnwys y Cyfarwyddwyr Anweithredol. Bydd Cyfarwyddwyr Gweithredol yn mynychu'r cyfarfodydd trwy wahoddiad y Cadeirydd.

Rôl y pwyllgor yw adolygu maint, strwythur a chynnwys y Bwrdd, ac yn benodol:

- Arwain y broses, gyda chymorth cwmnïau chwilio a recriwtio allanol, o wneud argymhellion i'r Bwrdd ar benodiad unrhyw Gyfarwyddwyr Gweithredol neu Anweithredol angenrheidiol
- sicrhau y dilynir proses drwyadl ac agored wrth benodi Cyfarwyddwyr newydd
- adolygu cynnwys y Bwrdd wrth werthuso sgiliau, gwybodaeth a phrofiad yr aelodau yn rheolaidd
- sicrhau fod cynlluniau cadarn mewn bodolaeth i drefnu penodiadau i'r Bwrdd ac i swyddi uwch reolwyr eraill er mwyn cynnal olyniaeth.

Cyfarfu'r Pwyllgor ddwywaith yn 2005-06, gyda phob aelod yn bresennol. Wrth benodi'r cyfarwyddwr gweithredu newydd, cymeradwyodd y pwyllgor fanyleb y rôl gyda chymorth asesiad y Cadeirydd a'r Pwyllgor o'r sgiliau, profiad a gwybodaeth angenrheidiol. Cynhaliwyd cyfweiliadau gyda'r ymgeiswyr, gan arwain at argymhelliad a phenodi Jim O'Sullivan ar 12 Medi 2005. Erbyn hyn dechreuwyd trafod proses ehangach er sicrhau olyniaeth ac adfywiad o'r Bwrdd.

### Aelodau a rhanddeiliaid eraill

Un o swyddogaethau allweddol Aelodau Glas Cymru yw sicrhau fod y busnes yn parhau i ganolbwyntio ar ei brif ddiben o ddarparu gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth o safon uchel ar gyfer y cymunedau mae Dŵr Cymru yn gwasanaethu. Wrth wneud hynny, bydd Aelodau yn cynnal rôl rheoli corfforaethol bwysig - dyna un rheswm am gadw aelodaeth yn bersonol ac osgoi penodi Aelodau i gynrychioli diddordebau grŵp neu rhanddeiliaid arbennig.

Penodir Aelodau gan y Bwrdd wrth ddilyn polisi aelodaeth cyhoeddedig Glas Cymru ar ôl derbyn cyngor gan banel dewis aelodau annibynnol (y 'panel'). Nid oes modd penodi Aelod heb argymhelliad gan y panel yn y lle cyntaf. Rôl y panel yw argymhell unigolion sydd wedi dangos mewn cais ysgrifenedig eu bod yn meddu ar y sgiliau, profiad a diddordebau i weithredu fel Aelod effeithiol. Yn ogystal, rhaid i'r panel sicrhau y cynhelir aelodaeth gytbwys ac amrywiol, sy'n adlewyrchu diddordebau cwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill Dŵr Cymru gymaint â phosibl. Mae cadeirydd y panel wedi cadarnhau i'r Bwrdd fod Glas Cymru yn dilyn amodau ei bolisi aelodaeth.

Ar 31 Mawrth 2006 roedd 48 Aelod, heb gynnwys y Cyfarwyddwyr, ond yn cynnwys wyth aelod newydd a benodwyd yn ystod 2005-06. Ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol, ac yn dilyn gwerthusiad ac argymhellion gan y panel, mae 13 Aelod - y bydd eu cyfnod aelodaeth cychwynnol yn terfynu ar ddiwedd Cyfarfod Blynyddol 2006 - wedi gwneud cais am ac wedi'u hail-benodi am gyfnod tair blynedd pellach yn diwedd ar ddiwedd Cyfarfod Blynyddol 2009. Penderfynodd bob Aelod oedd yn ymddeol gynnig am ailbenodiad.

Gellir cael manylion y polisi aelodaeth ac Aelodau Glas Cymru gan Ysgrifennydd y Cwmni neu wefan Glas Cymru [www.glascymru.com](http://www.glascymru.com)

Ym marn y Bwrdd mae'n bwysig cynnal cysylltiadau da â'r Aelodau a rhanddeiliaid allweddol. Trefnir cyfleoedd rheolaidd i Aelodau Glas Cymru gyfarfod â'r Cyfarwyddwyr a mynychodd bob Aelod o leiaf un o'r ddau gyfarfod Aelodau yn 2005 ble roedd pob Cyfarwyddwr (ac eithrio John Bryant, Cyfarfod Blynyddol 2005), yn cynnwys cadeiryddion prif bwyllgorau'r Bwrdd, ar gael i ateb cwestiynau. Bydd pob Aelod, yn cynnwys rhai sy'n methu mynychu cyfarfodydd, yn derbyn nodyn ysgrifenedig o'r trafodaethau.

Yn ogystal â chyfarfod dalwyr bondiau/buddsoddwyr blynyddol a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2005, cynhaliwyd cyfarfodydd anffurfiol gyda dalwyr bondiau a buddsoddwyr eraill, a gallant hefyd ofyn am gyfarfod gyda Chyfarwyddwr Anweithredol annibynnol ar unrhyw amser. Byddwn hefyd yn cysylltu'n rheolaidd â rheoleiddwyr economaidd, ansawdd a gwasanaeth cwsmeriaid Dŵr Cymru.

Ar sail yr uchod, mae'r Bwrdd wedi dod i'r casgliad na fyddai enwebu uwch gyfarwyddwr annibynnol yn gwella safonau rheoli, ac nid yw wedi penodi un.

### Amgylchedd rheoleiddio

Yn debyg i bob busnes dŵr yng Nghymru a Lloegr, mae Dŵr Cymru yn gweithredu o fewn fframwaith rheoleiddio o dan amodau Deddf Diwydiant Dŵr 1991. Y rheoleiddiwr economaidd yw Ofwat, yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr, sy'n gyfrifol am bennu terfynau prisiau Dŵr Cymru ac arolygu perfformiad cyffredinol y Cwmni.

Y rheoleiddiwr yn gyfrifol am ansawdd dŵr yfed yw'r Arolygaeth Dŵr Yfed, sy'n rhan o DEFRA a hefyd yn gweithredu ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn cysylltiad â Dŵr Cymru.

Asiantaeth yr Amgylchedd sy'n arolygu perfformiad amgylcheddol Dŵr Cymru, yn arbennig sut bydd yn tynnu dŵr o afonydd a chronfeydd dŵr, ac yna'n gwaredu dŵr gwastraff ar ôl ei drin. Mae pob agwedd ar weithgaredd dŵr a dŵr gwastraff Dŵr Cymru yn destun monitro perfformiad estynedig yn erbyn targedau a bennir gan reoleiddwyr a'r Llywodraeth.

Sefydlwyd Cyngor Defnyddwyr Dŵr, Cymru ar 1 Medi 2005, gan gymryd lle DyfrLais Cymru fel y corff annibynnol yn cynrychioli cwsmeriaid dŵr a charthffosiaeth. Mae'n trafod pryderon a chwynion unigol ac yn ceisio dylanwadu ar bolisiau ar lefelau cwmnïau, cenedlaethol ac Ewropeaidd. Bydd uwch gynrychiolwyr Dŵr Cymru yn mynychu pob cyfarfod cyhoeddus Cyngor Defnyddwyr Dŵr, Cymru.

Bob blwyddyn, bydd y rheoleiddwyr yn cyhoeddi adroddiadau'n sylwi ar ac yn cymharu perfformiad y cwmnïau dŵr ar amrediad llawn o fesurau, yn cynnwys cost effeithiolrwydd, gwasanaethau cwsmeriaid, ansawdd dŵr ac ansawdd amgylcheddol.

Mae gan Lywodraeth y Cynulliad rôl allweddol mewn pennu blaenoriaethau ar gyfer safonau a gwella lefelau ansawdd dŵr a'r amgylchedd, ynghyd â gosod y fframwaith ar gyfer materion polisi cyhoeddus eraill megis ystyriaethau cymdeithasol yn deillio o bennu terfynau prisiau.

Mae pob rheoleiddiwr yn gallu defnyddio pwerau grymus os digwydd na fydd perfformiad Dŵr Cymru yn cyrraedd y safon.

### Rheoli risgiau a rheolaeth fewnol

Y Bwrdd sy'n gyffredinol gyfrifol am y systemau rheoli risgiau a rheolaeth fewnol, ac am fonitro effeithiolrwydd y systemau hynny. Cyfrifoldeb y Cyfarwyddwyr Gweithredol ac uwch reolwyr yw gweithredu a chynnal systemau rheoli mewnol. Dyfeisir systemau rheoli mewnol er mwyn rheoli, yn hytrach na dileu'r risg o fethu cyfarfod ag amcanion busnes. Byddant yn darparu sicrwydd rhesymol ond nid absoliwt yn erbyn camddatganiad neu gollod sylweddol. Wrth asesu beth yw sicrwydd rhesymol, bydd y Bwrdd yn ystyried perthnasedd a'r berthynas rhwng costau, a'r buddion yn deillio o, systemau rheoli mewnol. Mae'r Cwmni yn trefnu yswiriant i ddiogelu Cyfarwyddwyr a swyddogion yn achos camau cyfreithiol a ddygir yn erbyn y cyfarwyddwyr, ac indemniad rhag achosion pan na fyddant ar fai.

Rheolir risgiau wrth ddilyn yr egwyddorion hyn:

- Mae'r systemau rheoli mewnol yn darparu atebolrwydd clir wrth reoli risgiau ac yn darparu sicrwydd i reolwyr ar wahanol lefelau a'r Bwrdd, yn cynnwys adroddiadau perfformiad a rheoli risgiau rheolaidd i'r Bwrdd, y Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Ansawdd ac Amgylchedd ar holl agweddau arwyddocaol o fusnes y Grŵp
- bydd systemau rheoli'n cydnabod fod natur a chydbwysedd risgiau'n newid ac yn esblygu'n barhaus, gan ddarparu fframwaith i ddatblygu safonau a pholisïau'r Grŵp er gwella arferion rheoli risgiau yn unol ag arferion gorau'r diwydiant
- nodir, mesurir a rheolir risgiau a pheryglon allweddol er mwyn cydbwysu risgiau ac enillion wrth weithredu'r cynllun busnes blynyddol. Dyma sut bydd y Bwrdd yn cymeradwyo paramedrau risgiau derbynol i'r busnes.
- darperir sicrwydd wrth drefnu archwiliadau ac asesiadau allanol annibynnol a rheolaidd o'r systemau rheoli ansawdd mewnol. Trefnir archwiliadau allanol a mewnol o dan reolaeth rhaglenni rheoli risgiau cyffredinol wedi'u cymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio. Dyfeisir y rhaglenni hynny er mwyn darparu gwybodaeth reoli gywir, amserol a pherthnasol, ac adlewyrchu sefyllfa wirioneddol y busnes
- sefydlwyd gweithdrefnau i fonitro polisiau cymeradwyo a rheoli eitemau gwariant cyfalaf sylweddol, caffaelio a gwaredu asedau sylweddol, neu unrhyw drefniant sy'n creu, neu a allai greu, rhwymedigaeth sylweddol
- mae rheoli risgiau yn gyfrifoldeb allweddol i bob rheolwr yn y busnes. Yn achos pob math o risg fawr, pennwyd unigolyn neu dîm i sicrhau bydd y cyngor addas ar gael i reolwyr ar draws y busnes.

Bydd y rheolwyr gweithredol yn adolygu effeithiolrwydd y systemau rheoli risgiau yn rheolaidd drwy gyfrwng Grŵp Rheoli Risgiau (cadeirydd, y rheolwr gweithredu) sy'n cynnwys uwch reolwyr o bob rhan o'r busnes. Rôl y Grŵp yw adolygu a herio cadernid y trefniadau rheoli risgiau, yn cynnwys rhai partneriaid contract Dŵr Cymru, ac yn cynnwys meysydd megis iechyd a diogelwch, yr amgylchedd, moeseg busnes, cyflogaeth a pharhad y busnes. Bydd y Grŵp hefyd yn monitro gweithdrefnau mewnol sy'n cymhell staff i gymryd rhan mewn deialog i nodi a rheoli risgiau'n gynnar ac effeithiol. Yn ogystal, byddwn yn ceisio dysgu o'n profiad ni ac eraill er mwyn hyrwyddo'r arferion gorau a gwella ansawdd y gwasanaeth a roir i gwsmeriaid Dŵr Cymru. Bydd y Grŵp Rheoli Risgiau yn adrodd i bwyllgorau Archwilio ac Ansawdd ac Amgylchedd y Bwrdd o leiaf bob chwe mis.

Wrth asesu effeithiolrwydd systemau rheoli risgiau a rheolaeth fewnol y Grŵp, bydd y Bwrdd yn ystyried adroddiadau cyfnodol gan y Grŵp Rheoli Risgiau, y Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Ansawdd ac Amgylchedd, yn ogystal â monitro mynegeion perfformiad allweddol ac adroddiadau misol ar berfformiad ariannol a gweithredol sy'n nodi unrhyw amrywiant i'r cynllun busnes a'r gyllideb. Wrth wneud hynny, mae'r Bwrdd wedi adolygu effeithiolrwydd y systemau rheoli mewnol drwy gydol y flwyddyn.

Trwy orchymyn y Bwrdd



**Richard Curtis** LLB, ACIS  
Ysgrifennydd y Cwmni  
7 Mehefin 2006

## Y Cyfarwyddwyr sy'n gyfrifol am baratoi Adroddiad Blynyddol a datganiadau ariannol y Grŵp a'r rhiant Gwmni yn unol â chyfraith a rheoliadau cymwys.

Mae cyfraith cwmniau'n mynnu bod y Cyfarwyddwyr yn paratoi datganiadau ariannol y Grŵp a'r rhiant Gwmni ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Rhaid paratoi datganiadau ariannol y Grŵp yn unol â Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (International Financial Reporting Standards - IFRS) a fabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd ac maent wedi dewis paratoi datganiadau ariannol y rhiant Gwmni ar yr un sail.

Yn ôl y gyfraith ac IFRS, a fabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd, rhaid i ddatganiadau ariannol y Grŵp a'r rhiant Gwmni gyflwyno sefyllfa ariannol y Grŵp a'r rhiant Gwmni yn deg, ynghyd â'r perfformiad dros y cyfnod hwnnw. Yng nghyd-destun Deddf Cwmniau 1985 mae cyfeiriadau at ddatganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg yn ymwneud â'u cyflwyno'n gywir. Wrth baratoi datganiadau ariannol y Grŵp a'r rhiant Gwmni, rhaid i'r Cyfarwyddwyr wneud yr isod:

- Dewis polisiau cyfrifeg addas a'u gweithredu'n gyson
- gwneud barnau ac amcangyfrifon rhesymol a chall
- datgan os paratowyd nhw yn unol ag IFRS
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol oni fydd yn amhriodol tybio bydd y Grŵp a'r rhiant Gwmni yn parhau mewn busnes.

Y Cyfarwyddwyr sy'n gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifeg cywir fydd yn datgelu gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw amser sefyllfa ariannol y rhiant Gwmni ac yn eu galluogi i sicrhau bydd y datganiadau ariannol yn dilyn amodau Deddf Cwmniau 1985. Maent yn gyffredinol gyfrifol am gymryd camau rhesymol i ddiogelu asedau'r Grŵp ac i rwystro a datgelu twyll ac afreoleidd-dra arall.

O dan y gyfraith a rheoliadau cymwys, mae'r Cyfarwyddwyr hefyd yn gyfrifol am baratoi Adroddiad Cyfarwyddwyr, Adroddiad Tâl Cyfarwyddwyr a Datganiad Rheoli Corfforaethol yn unol â'r gyfraith a'r rheoliadau hynny.

Y Cwmni sy'n gyfrifol am gywirdeb yr wybodaeth gorfforaethol ac ariannol ar ei wefan. Gall deddfwriaeth yr Deyrnas Unedig sy'n rheoli paratoi a dosbarthu datganiadau ariannol fod yn wahanol i deddfwriaeth gymwys o fewn awdurdodaethau eraill.

Trwy orchymyn y Bwrdd



**Richard Curtis** LLB, ACIS  
Ysgrifennydd y Cwmni  
7 Mehefin 2006

## Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Grŵp a Rhiant Gwmni (y 'datganiadau ariannol') Glas Cymru Cyfyngedig am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2006 sy'n cynnwys y Datganiad Incwm Cyfun, y Datganiad Newidiadau Cronfeydd, y Fantolen Gyfun a Mantolen y Rhiant Gwmni, y Datganiad Llif Arian Cyfun a'r nodiadau cysylltiedig.

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn wrth ddilyn y polisiau cyfrifeg a nodir ynddynt. Ar gais y Cyfarwyddwyr, rydym hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn Adroddiad Tâl y Cyfarwyddwyr a ddisgrifir fel petai ei fod wedi'i archwilio.

### Cyfrifoldebau perthnasol y Cyfarwyddwyr a'r archwilwyr

Nodir cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr am baratoi'r Adroddiad Blynyddol a'r datganiadau ariannol yn unol â chyfraith berthnasol a safonau adrodd ariannol rhyngwladol (International Financial Reporting Standards - IFRS) a fabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd yn y Datganiad Cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr. Yn ogystal mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am baratoi Adroddiad Tâl y Cyfarwyddwyr (gan fod y Cwmni yn dilyn amodau Trefnlen 7A, Deddf Cwmnïau 1985 fel petai'n gwmni rhestredig).

Ein cyfrifoldeb ni yw archwilio'r datganiadau ariannol yn unol â gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol perthnasol a Safonau Archwilio Rhyngwladol (y Deyrnas Unedig ac Iwerddon). Byddwn hefyd, ar gais y Cyfarwyddwyr, yn archwilio rhan o Adroddiad Tâl y Cyfarwyddwyr (gan fod y Cwmni yn dilyn amodau Trefnlen 7A, Deddf Cwmnïau 1985 fel petai'n Gwmni rhestredig). Paratowyd yr adroddiad hwn, yn cynnwys ein barn, ar gyfer ac ar ran aelodau'r Cwmni fel corff yn unig, yn unol ag Adran 235, Deddf Cwmnïau 1985 ac nid at unrhyw ddiben arall. Wrth roi ein barn, ni fyddwn yn derbyn neu'n honni cyfrifoldeb am unrhyw ddiben arall neu i unrhyw berson arall y dangosir yr adroddiad hwn iddo, neu a fydd yn ei dderbyn, ac eithrio pan fyddwn yn cytuno hynny'n benodol yn ysgrifenedig ymlaen llaw.

Byddwn yn adrodd i chi ein barn os yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg ac os yw'r datganiadau ariannol a rhan archwiliadwy Adroddiad Tâl y Cyfarwyddwyr wedi'u paratoi'n gywir yn unol â Deddf Cwmnïau 1985. Byddwn yn adrodd i chi ein barn os yw'r wybodaeth yn Adroddiad y Cyfarwyddwyr yn gyson â'r datganiadau ariannol. Mae'r wybodaeth yn Adroddiad y Cyfarwyddwyr yn cynnwys gwybodaeth benodol a gyflwynir yn yr Adolygiad Gweithredol ac Ariannol a groesgyfeirir o adran prif weithgareddau Adroddiad y Cyfarwyddwyr. Byddwn hefyd yn adrodd i chi os, yn ein barn ni, na fydd y Cwmni wedi cadw cofnodion cyfrifeg addas, os na fyddwn wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau angenrheidiol ar gyfer ein harchwiliad, neu os na ddatgelir gwybodaeth a fynir gan y gyfraith ynglŷn â thâl cyfarwyddwyr a thrafodion eraill.

Byddwn yn darllen y wybodaeth arall yn yr Adroddiad Blynyddol ac yn ystyried os yw'n gyson â'r datganiadau ariannol archwiliadwy. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys Adroddiad y Cyfarwyddwyr, rhan anarchwiliadwy Adroddiad Tâl y Cyfarwyddwyr, Datganiad y Cadeirydd, yr Adolygiad Gweithredol ac Ariannol a'r Datganiad Rheoli Corfforaethol. Byddwn yn ystyried oblygiadau i'n hadroddiad ni os yn dod yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau amlwg neu anghysonderau sylweddol â'r datganiadau ariannol. Nid yw ein cyfrifoldebau'n cynnwys unrhyw wybodaeth arall.

Ar gais y Cyfarwyddwyr, byddwn hefyd (am fod y Cwmni'n dilyn rheolau rhestru'r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol fel petai'n gwmni rhestredig) yn adolygu'r datganiad rheoli corfforaethol er mwyn ystyried os yw'r Cwmni wedi dilyn naw amod Cod Cyfunol 2003 yr Awdurdod a bennwyd ar gyfer ein harchwiliad gan reolau rhestru'r Awdurdod, ac yn nodi hynny os nad yw. Ni ofynnir i ni ystyried os yw datganiadau'r Bwrdd ar reolaeth fewnol yn cynnwys pob risg a threfn, neu fynegi barn ar effeithiolrwydd gweithdrefnau rheoli corfforaethol y Cwmni neu ei drefniadau rheoli a risg.

### Sail ein barn

Cynhaliwyd ein harchwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (y Deyrnas Unedig ac Iwerddon) a ddosberthir gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae archwiliad yn cynnwys astudio, ar sail prawf, tystiolaeth berthnasol i'r symiau a datgeliadau yn y datganiadau ariannol a'r rhan o Adroddiad Tâl y Cyfarwyddwyr i'w harchwilio. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon a barnau arwyddocaol a wnaed gan y Cyfarwyddwyr wrth baratoi'r datganiadau ariannol, ac os yw'r polisiau cyfrifeg yn addas ar gyfer amgylchiadau'r Grŵp a'r Cwmni, wedi'u gweithredu'n gyson a'u datgelu'n ddigonol.

Cynlluniwyd a chynhaliwyd ein harchwiliad er mwyn cael yr holl wybodaeth ac esboniadau yr ystyriwyd yn angenrheidiol er mwyn darparu tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol fod y datganiadau ariannol a rhan archwiliadwy Adroddiad Tâl y Cyfarwyddwyr yn rhydd o gamddatganiadau sylweddol, boed wedi'u hachosi trwy dwyll, afreoleidd-dra neu wall. Wrth ffurfio ein barn, fe wnaethom hefyd werthuso addasrwydd cyffredinol dull cyflwyno'r wybodaeth yn y datganiadau ariannol a rhan archwiliadwy Adroddiad Tâl y Cyfarwyddwyr.

### Barn

Yn ein barn ni mae:

- Datganiadau ariannol y Grŵp yn rhoi darlun cywir a theg, yn unol ag IFRS a fabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd, o sefyllfa'r Grŵp ar 31 Mawrth 2006 ac o'r elw a llifau arian am y flwyddyn a ddiweddodd bryd hynny
- datganiadau ariannol y Rhiant Gwmni yn rhoi darlun cywir a theg, yn unol ag IFRS a fabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd a'u gweithredu'n unol â darpariaethau Deddf Cwmnïau 1985, o sefyllfa'r rhiant gwmni ar 31 Mawrth 2006
- y datganiadau ariannol a rhan archwiliadwy Adroddiad Tâl y Cyfarwyddwyr wedi'u paratoi'n gywir yn unol â Deddf Cwmnïau 1985
- yr wybodaeth yn Adroddiad y Cyfarwyddwyr yn gyson â'r datganiadau ariannol.

### PricewaterhouseCoopers LLP

Cyfrifwyr Siartredig ac Archwilwyr Cofrestredig, Caerdydd

7 Mehefin 2006

## Datganiad incwm cyfun, blwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2006

	Nodyn	2006 £m	2005 £m
Refeniw		553.5	494.1
<b>Costau gweithredu</b>			
- Gwariant gweithredu	4	(213.2)	(210.7)
- Gwariant adnewyddu isadeiledd	4	(48.8)	(43.0)
- Dibrisiant ac amorteiddiad	4	(97.5)	(89.8)
- Elw wrth waredu asedau sefydlog	4	0.8	4.3
<b>Elw gweithredol</b>		<b>194.8</b>	<b>154.9</b>
<b>Costau ariannu</b>			
- Llog taladwy & costau tebyg	3a	(156.9)	(158.8)
- Llog derbyniadwy	3a	6.7	16.2
- Colledion gwerth teg ar offerynnau ariannol	3b	(33.3)	(8.0)
		(183.5)	(150.6)
<b>Elw cyn treth</b>	4	<b>11.3</b>	<b>4.3</b>
Credyd treth	5	4.8	1.2
<b>Elw am y flwyddyn</b>		<b>16.1</b>	<b>5.5</b>

## Datganiad newidiadau mewn cronfeydd, blwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2006

	2006 £m	2005 £m
Cronfeydd ar 1 Ebrill	(95.3)	(100.8)
Elw am y flwyddyn	16.1	5.5
Cronfeydd ar 31 Mawrth	(79.2)	(95.3)

Nid oedd enillion neu golledion cydnabyddedig eraill yn y flwyddyn (2005: sero) ac felly ni chyflwynwyd datganiad incwm a threuliau cydnabyddedig. Nid oedd newidiadau mewn cronfeydd y rhiant gwmni yn ystod y flwyddyn.

## Mantolen gyfun ar 31 Mawrth 2006

	Nodyn	2006 £m	2005 £m
<b>Asedau</b>			
<b>Asedau nid-cyfredol</b>			
Asedau anghyfyrrdadwy	6	4.4	4.4
Eiddo, peiriannau ac offer	7	2,795.6	2,720.9
Buddsoddiadau	8a	-	-
Asedau ariannol:			
- offerynnau ariannol deilliadol	14	6.3	-
		<b>2,806.3</b>	<b>2,725.3</b>
<b>Asedau cyfredol</b>			
Masnach a symiau derbyniadwy eraill	9	86.7	65.5
Asedau ariannol:			
- buddsoddiadau a ddelir hyd aeddfedu	10	0.3	33.9
- offerynnau ariannol deilliadol	14	4.2	-
Arian & cyfwerth arian	11	14.0	235.0
		<b>105.2</b>	<b>334.4</b>
<b>Rhwymedigaethau</b>			
<b>Rhwymedigaethau cyfredol</b>			
Rhwymedigaethau ariannol:			
- benthyciadau	13	(124.6)	(54.5)
- offerynnau ariannol deilliadol	14	(6.2)	(3.8)
Masnach a symiau taladwy eraill	12	(118.5)	(125.1)
		<b>(249.3)</b>	<b>(183.4)</b>
<b>Rhwymedigaethau/asedau cyfredol net</b>		<b>(144.1)</b>	<b>151.0</b>
<b>Rhwymedigaethau nid-cyfredol</b>			
Rhwymedigaethau ariannol:			
- benthyciadau	13	(2,244.9)	(2,460.7)
- offerynnau ariannol deilliadol	14	(105.9)	(113.0)
Rhwymedigaethau buddion pensiwn	21	(6.6)	(7.8)
Darpariaethau	16	(9.8)	(9.7)
		<b>(2,367.2)</b>	<b>(2,591.2)</b>
<b>Asedau net cyn trethi gohiriedig</b>		<b>295.0</b>	<b>285.1</b>
Trethi gohiriedig	17	(374.2)	(380.4)
<b>Rhwymedigaethau net</b>		<b>(79.2)</b>	<b>(95.3)</b>
<b>Cronfeydd</b>			
Enillion cadwedig		(79.2)	(95.3)
<b>Cyfanswm cronfeydd</b>		<b>(79.2)</b>	<b>(95.3)</b>

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol hyn gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr ar 7 Mehefin 2006 a llofnodwyd ar ei ran gan:



**N C Annett**  
Rheolwr Gyfarwyddwr



**C A Jones**  
Cyfarwyddwr Cyllid

## Mantolen y rhiant gwmni ar 31 Mawrth 2006

	Nodyn	2006 £m	2005 £m
<b>Asedau</b>			
<b>Asedau nid-cyfredol</b>			
Buddsoddiad mewn is-gwmniau	8b	-	-
		-	-
<b>Asedau cyfredol</b>			
Masnach a symiau derbyniadwy eraill	9	3.4	3.4
Arian & cyfwerth arian	11	0.1	0.1
		3.5	3.5
<b>Rhwymedigaethau</b>			
<b>Rhwymedigaethau cyfredol</b>			
Masnach a symiau taladwy eraill	12	(3.5)	(3.5)
<b>Asedau net</b>			
		-	-
<b>Cronfeydd</b>			
Enillion cadwedig		-	-
<b>Cyfanswm cronfeydd</b>		-	-

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol hyn gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr ar 7 Mehefin 2006 a llofnodwyd ar ei ran gan:



**N C Annett**  
Rheolwr Gyfarwyddwr



**C A Jones**  
Cyfarwyddwr Cyllid

## Datganiad llif arian cyfun, blwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2006

	Nodyn	2006 £m	2005 £m
<b>Arian o weithgareddau</b>	18	259.3	228.9
Llog derbyniwyd		7.2	16.6
Llog talwyd		(139.8)	(151.1)
Treth talwyd		(1.1)	-
<b>Mewnlif arian net o weithgareddau</b>		<b>125.6</b>	<b>94.4</b>
<b>Llifau arian o weithgaredd buddsoddi</b>			
Prynu, peiriannau eiddo ac offer		(182.5)	(231.2)
Grantiau a symiau derbyniwyd		16.8	11.2
Enillion o werthu eiddo, peiriannau ac offer		0.8	0.4
<b>Arian net a ddefnyddiwyd wrth fuddsoddi</b>		<b>(164.9)</b>	<b>(219.6)</b>
<b>All-lif arian net cyn ariannu</b>		<b>(39.3)</b>	<b>(125.2)</b>
<b>Llifau arian o ariannu</b>			
Benthyciadau hir dymor & prydlesi derbyniwyd		113.8	308.9
Benthyciadau awdurdodwyd		145.3	-
Prynu bondiau ei hun		(3.3)	(1.0)
Adbrynu bondiau		(465.5)	(56.0)
Elfennau cyfalaf terfynu prydlesi		-	(73.3)
Elfennau cyfalaf taliadau prydlesi		(5.2)	(9.4)
Gostyngiad mewn asedau ariannol		33.6	40.8
Ad-dalu benthyciadau eraill		(0.4)	(0.3)
<b>Arian net wrth ariannu</b>		<b>(181.7)</b>	<b>209.7</b>
<b>(Gostyngiad)/cynnydd mewn arian net</b>	19	<b>(221.0)</b>	<b>84.5</b>
Arian net ar 1 Ebrill		235.0	150.5
<b>Arian net ar 31 Mawrth</b>	11	<b>14.0</b>	<b>235.0</b>

Nid oedd llifau arian gan y rhiant gwmni yn ystod y flwyddyn.

### 1 Polisiau cyfrifeg, rheoli risgiau ariannol ac amcangyfrifon cyfrifeg

#### Sail ein paratoadau

Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â safonau adrodd ariannol rhyngwladol (International Financial Reporting Standards - IFRS) a fabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd a'r rhannau hynny o Ddeddf Cwmnïau 1985 sy'n gymwys i adrodd ariannol o dan IFRS. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y confensiwn cost hanesyddol, wedi'i addasu yn dilyn ailbrisiu rhai offerynnau ariannol i'w gwerth teg yn unol ag IFRS ac yn unol â'r Gyfarwydddeb Gwerth Teg a weithredwyd ar ôl diwygio Deddf Cwmnïau 1985.

Ar ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol hyn, roedd y Safonau a Dehongliadau isod wedi'u cyhoeddi ond heb ddod yn effeithiol, a heb eu dilyn yn y datganiadau ariannol hyn:

- IFRS 6** Fforio am ac Asesu Adnoddau Mwynau.
- IFRS 7** Offerynnau Ariannol: Datgeliadau; ac addasiadau cysylltiedig i IAS 1 ar ddatgeliadau cyfalaf.
- IFRIC 4** Pennu os yw Trefniant yn cynnwys Prydles.
- IFRIC 5** Hawliau llog yn codi wrth ddadgomisiynu ac adfer, a darganfyddiadau adfer amgylcheddol.
- IFRIC 6** Rhwymedigaethau'n codi o gyfranogi ar farchnad benodol - gwastraff offer trydanol ac electronig.
- IFRIC 7** Dilyn Dull Ailddatgan IAS29: Adrodd ariannol mewn economïau hyper-chwyddiant.
- IFRIC 8** Sgôp IFRS 2.
- IFRIC 9** Ailasesu deilliadau sefydlog.

Mae'r Cyfarwyddwyr yn rhagweld na fydd mabwysiadu'r Safonau a Dehongliadau hyn yn y dyfodol yn cael effaith sylweddol ar ddatganiadau ariannol y Grŵp ac eithrio datgeliadau ychwanegol a allai fod angen ar offerynnau ariannol pan fydd y safonau perthnasol yn dod yn effeithiol am gyfnodau'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2007.

#### Newidiadau i'r polisiau cyfrifeg

Mae'r polisiau cyfrifeg a'r sail baratoi yn wahanol i'r rhai a nodwyd yn Adroddiad a Chyfrifon y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2005, a baratowyd yn unol â safonau cyfrifeg y Deyrnas Unedig a Deddf Cwmnïau 1985 (UK GAAP).

Mae IFRS1 'First time adoption of International Financial Reporting Standards' yn nodi'r gofynion ar gyfer cwmnïau sy'n paratoi datganiadau ariannol o dan IFRS am y tro cyntaf ac yn galw am gymhwyso polisiau cyfrifeg yn adolygol. Mae IFRS1 yn cynnwys yr opsiwn i ddilyn rhai eithriadau i'r gweithredu adolygol. Mae'r Grŵp wedi dilyn yr eithriadau isod:

- Sefydlu cost dybiedig ar gyfer gwerth cario mantolen agoriadol asedau sefydlog y rhwydweithiau dŵr a dŵr gwastraff wrth gyfeirio at eu gwerth teg ar y dyddiad trosi i IFRS (1 Ebrill 2004)
- cydnabod yn llawn yr holl enillion a cholledion actwaraidd cronodig yn gysylltiedig â chynlluniau pensiwn o fewn cronfeydd ar y dyddiad trosi.

Nid yw'r Grŵp yn defnyddio'r eithriadau mewn cysylltiad ag offerynnau ariannol ac mae wedi cymhwyso gofynion IAS39 'Financial Instruments - Recognition and Measurement' ac IAS 32 'Financial Instruments - Disclosure and Presentation' yn adolygol.

Darperir y datgeliadau a fynnir gan IFRS 1 o ran trosi o UK GAAP i IFRS yn nodyn 28.

#### Sail gyfuno

Mae'r datganiadau ariannol cyfun yn cynnwys datganiadau ariannol y cwmni a'i holl is-gwmnïau. Trinnir canlyniadau'r cwmnïau a busnesau a gaffaelwyd yn ystod y flwyddyn yn y datganiadau ariannol cyfun o'r dyddiad caffaelio. Dilëir trafodion ac elw o fewn y Grŵp wrth eu cyfuno.

#### Polisiau cyfrifeg y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2006

Nodir drosodd y prif bolisiau cyfrifeg a fabwysiadwyd wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn. Dilynwyd y polisiau hyn yn gyson wrth gyflwyno datganiadau pob blwyddyn berthnasol.

### Cydnabod refeniw

Mae refeniw yn cynrychioli incwm derbyniadwy am wasanaethau beunyddiol y busnes, ac eithrio treth ar werth. Ble darparwyd gwasanaethau, ond ni chodwyd anfoneb ar ddiwedd y flwyddyn, cynhwyswyd amcangyfrif o dan refeniw. Mae manylion pellach yn yr adran amcangyfrifon cyfrifeg critigol.

Mae refeniw cydnabyddedig yn adlewyrchu'r costau gwirioneddol a godwyd ar gwsmeriaid yn ystod y flwyddyn. Cyfeirir at y gwahaniaeth rhwng y refeniw gwirioneddol a'r lefel refeniw a fyddai wedi deillio petai'r cwmni wedi codi'r prisiau llawn a ganiatawyd gan Ofwat fel 'buddran cwsmeriaid'.

### Eiddo, peiriannau ac offer

Nodir eiddo, peiriannau ac offer ar gost llai dibrisiant cronedig. Mae'r gost yn adlewyrchu'r pris prynu ynghyd ag unrhyw wariant uniongyrchol er mwyn defnyddio'r ased, yn cynnwys costau mewnol uniongyrchol ond nid elfennau llog.

Mae eiddo, peiriannau ac offer yn cynnwys:

- (i) aedau rhwydwaith (sef prif bibellau dŵr a charthffosydd, cronfeydd cadw a phwmpio dŵr crai, argaeau, pibellau llaid ac allyriadau môr); ac
- (ii) asedau eraill (yn cynnwys adeiladau, strwythurau ac offer ar y tir, gosodiadau a ffitiadau).

Adolygir gwerth cario asedau er amhariad os bydd amgylchiadau'n pennu nad oes modd adennill y gwerth cario. Adolygir oesau a gwerthoedd gweddilliol asedau bob blwyddyn.

### Asedau rhwydwaith

Nodir asedau rhwydwaith, sy'n bennaf yn cynnwys cronfeydd cadw a rhwydwaith o systemau dŵr a dŵr gwastraff tanddaearol, ar werth teg ar y dyddiad trosi i IFRS fel cost dybiedig drwy'r eithriad a ganiatawyd o dan IFRS1. At ddibenion cyfrifeg, rhennir y systemau dŵr rhwng dosbarthiadau asedau gyda nodweddion ac oesau tebyg. Rhennir y systemau dŵr gwastraff rhwng elfennau'n cynrychioli meysydd gweithredu daearyddol, sy'n adlewyrchu gweithgareddau dŵr gwastraff y Grŵp.

Trinnir gwariant ar asedau rhwydwaith yn gysylltiedig â chynnydd mewn cynhwysedd, gwelliannau neu adnewyddu rhannau o'r rhwydwaith, fel ychwanegiadau a gynhwysir ar gost. Trinnir gwariant ar drwsio a chynnal effeithiolrwydd rhannau unigol o'r rhwydwaith fel treuliau yn y flwyddyn berthnasol.

Pennir dibrisiant asedau rhwydwaith ar gyfer pob elfen o'r rhwydwaith ar sail cost pob elfen unigol, amcangyfrif o'r gwerth gweddilliol a'r oesau defnyddiol cyfartalog disgwylidiedig. Mae oesau defnyddiol cyfartalog elfennau o'r rhwydwaith yn amrywio rhwng 60 a 150 blynedd.

### Asedau eraill

Dibrisir asedau eraill dros eu hoesau economaidd defnyddiol, sef:

Adeiladau rhydd-ddaliad	60 blynedd
Adeiladau ar brydles	cyfnod y brydles
Strwythurau gweithredu	40 – 80 blynedd
Peiriannau sefydlog	20-40 blynedd
Cerbydau, peiriannau symudol, offer, caledwedd a meddalwedd cyfrifiadurol	3-16 blynedd

Ni ddibrisir asedau sy'n cael eu hadeiladu tan eu comisiynu.

### **Asedau anghyfyrdadwy**

Nodir asedau anghyfyrdadwy, sy'n bennaf yn cynnwys meddalwedd cyfrifiadurol a datblygu systemau, ar gost llai dibrisiant cronedig. Mae'r gost yn adlewyrchu'r pris prynu ynghyd ag unrhyw wariant uniongyrchol er mwyn defnyddio'r ased, yn cynnwys costau mewnol uniongyrchol, ond nid elfennau llog.

Adolygir gwerth cario asedau anghyfyrdadwy er amhariad os bydd amgylchiadau'n pennu nad oes modd adennill y gwerth cario.

Dibrisir asedau anghyfyrdadwy dros amcangyfrif o'u hoesau economaidd defnyddiol, sef rhwng 3 a 15 blynedd. Adolygir oes yr asedau bob blwyddyn.

### **Asedau ar brydlesi**

Ble ariannir asedau wrth drefnu prydlesi, sy'n trosglwyddo bron yr holl risgiau ac enillion perchnogi asedau i'r prydlesai (prydlesi cyllid), cyfalafir yr asedau a'u cynnwys o dan 'eiddo, peiriannau ac offer' gan gynnwys atebolrwydd y prydlesai o fewn 'rhwymedigaethau ariannol – benthyciadau'. Trinnir taliadau prydlesi fel eu bod yn cynnwys elfen gyfalaf a chost ariannu, gyda'r elfen gyfalaf yn gostwng yr ymrwymiad i'r prydlesai a chydabod y gost ariannu dros gyfnod y brydles ar y gyfradd ymhlyg er mwyn darparu cyfradd llog sefydlog ar weddill y rhwymedigaeth.

Ystyrir yr holl brydlesi eraill yn brydlesi gweithredu. Codir costau rhent o dan brydlesi gweithredu ar y datganiad incwm ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles.

### **Grantiau & chyfraniadau cwsmeriaid**

Gosodwyd grantiau a chyfraniadau cwsmeriaid mewn cysylltiad â gwariant ar eiddo, peiriannau ac offer yn erbyn asedau sefydlog.

Credydur grantiau gwariant refeniw ar y datganiad incwm dros yr un cyfnod â'r gwariant cysylltiedig.

### **Taliadau cymhelliant y rhaglen gwariant cyfalaf**

Mae cytundebau'r Grŵp gyda'i bartneriaid adeiladu sy'n gweithio ar raglenni gwariant cyfalaf yn cynnwys taliadau cymhelliant am gwblhau'r rhaglenni. Mae costau ychwanegiadau asedau sefydlog yn cynnwys cronid am fonysau cymhelliant a enillwyd hyd yma, mewn cysylltiad â phrojectau a gwblhawyd erbyn diwedd y flwyddyn, ble ystyrir taliad o'r bonws cymhelliant yn debygol. Cydnabyddir symiau adferadwy gan bartneriaid contract mewn cysylltiad â methu targedau ar brojectau wedi'u cwblhau yn unig.

### **Contractau costau targed**

Mae'r Grŵp yn cynnal contractau costau targed gyda'i brif bartneriaid gweithredu. Polisi'r Grŵp o ran taliadau/derbyniadau cyfran 'pain/gain' yn deillio o'r contractau hyn yw eu cydnabod wrth drefnu'r cytundeb terfynol â'r partner perthnasol.

### **Lwfans dyledion amheus**

Yn y lle cyntaf asesir symiau masnachol derbyniadwy unigol er amhariad, neu gyda'i gilydd pan nad yw'r symiau'n arwyddocaol. Ble nad oes tystiolaeth wrthrychol o amhariad ar gyfer swm derbyniadwy unigol, cynhwysir mewn grŵp o symiau derbyniadwy gyda nodweddion risg tebyg a'u hasesu er amhariad gyda'i gilydd. Cofnodir newidiadau i'r ddarpariaeth dyledion amheus ar y datganiad incwm.

### **Arian & cyfwerth arian**

Mae arian a chyfwerth arian yn cynnwys buddsoddiadau hylifol iawn y mae modd eu trosi'n hawdd i symiau arian amlwg ac nad ydynt yn destun risg sylweddol o newid mewn gwerth. Fel arfer, y fath buddsoddiadau yw rhai sy'n aeddfedu o fewn llai na thri mis o'r dyddiad caffaelio ac yn tueddu i gynnwys arian mewn llaw ac adneuron banciau neu sefydliadau ariannol eraill, llai unrhyw orddrafftiau.

### **Costau pensiwn**

Mae mwyafrif o staff y Grŵp yn aelodau o gynllun pensiwn buddion diffiniedig y Grŵp, a ariannir drwy gyfraniadau gan y cyflogwr a'r gweithwyr. Gwneir prisiadau actwaraidd rheolaidd o'r cynllun ar gyfnodau o ddim mwy na thair blynedd. Seilir lefel y cyfraniadau ar gyngor gan actwari cymwys.

Yn achos cynllun buddion diffiniedig y Grŵp, mae'r asedau net neu'r rhwymedigaeth ar y fantolen yn cynrychioli gwerth cyfredol yr ymrwymadau buddion diffiniedig llai gwerth teg asedau'r cynllun. Yn unol â'r newid i IAS19, cydnabyddir yr holl enillion a cholledion actwaraidd yn y cronfeydd ar y dyddiad trosi i IFRS.

Nodir costau llawn buddion pensiwn aelodau staff (yn cynnwys yr enillion ar asedau'r cynllun a llog ar rwymedigaethau'r cynllun) yn y datganiad incwm o fewn costau gweithredu. Yn ogystal, cydnabyddir yr holl enillion a cholledion actwaraidd yn y flwyddyn berthnasol wrth bennu elw neu golled am y flwyddyn.

### **Rhwymedigaethau ariannol - benthyciadau**

Yn y lle cyntaf mesurir dyledion ar werth teg, sef gwerth y derbyniadau net ar ôl tynnu costau dyroddi uniongyrchol, gan eu mesur wedyn ar gost amorteiddiedig. Cydnabyddir costau dyroddi dyledion yn y datganiad ariannol dros gyfnod disgwylidig y fath offerynnau ar gyfradd sefydlog ar y gwerth cario.

Trosir benthyciadau arian tramor i sterling ar y cyfraddau ar ddyddiad y fantolen.

### **Asedau ariannol**

Mae asedau ariannol yn cynrychioli buddsoddiadau a ddelir hyd aeddfedrwydd nid-deilliadol, gyda thaliadau sefydlog neu asasadwy a chyfnodau aeddfedu dros dri mis wrth eu caffaelio, a'r Grŵp yn bwriadu eu cadw hyd aeddfedu.

### **Offerynnau ariannol deilliadol**

Mae'r Grŵp yn defnyddio offerynnau deilliadol ar ffurf cyfnewidiadau arian tramor, contractau blaen gyfnewid a chyfnewidiadau cyfraddau llog. Defnyddir offerynnau deilliadol at ddibenion diogelu er mwyn newid proffiliau risg sylfaenol y Grŵp.

Cydnabyddir deilliadau yn y lle cyntaf, gan eu hail fesur wedyn ar werth teg.

Cydnabyddir newidiadau mewn gwerthoedd teg rhwng dyddiadau mantolenni yn y datganiad incwm i'r graddau nad yw'r fath offerynnau yn gymwys ar gyfer cyfrifo diogelu o dan IAS 39. Ar hyn o bryd, nid oes deilliadau o'r fath yn gymwys ar gyfer cyfrifo diogelu.

### **Trethiant gohiriedig**

Darperir treth gorfforaeth ohiriedig, gan ddefnyddio'r dull rhwymedigaeth, ar bob newid dros dro ar ddyddiad y fantolen rhwng sylfeini treth asedau a rhwymedigaethau, a'u gwerthoedd cario at ddibenion adrodd ariannol.

Cydnabyddir rhwymedigaethau treth gohiriedig ar bob newid dros dro. Cydnabyddir asedau treth ar bob newid dros dro tynadwy, achosion cario ymlaen asedau treth heb eu defnyddio a cholledion treth, i'r graddau yr ystyrir yn adferadwy. Ystyrir yn adferadwy pan, ar sail tystiolaeth, bydd elw trethadwy addas i'w osod yn erbyn y newidiadau sylfaenol dros dro. Adolygir gwerthoedd cario'r asedau treth gohiriedig ar bob dyddiad mantolen a'u gostwng i'r graddau na fydd elw trethadwy digonol yn debyg o fod ar gael i ganiatáu defnyddio'r cyfan, neu ran, o'r asedau.

Mesurir asedau trethi corfforaeth gohiriedig ar y cyfraddau disgwylidig ar ddyddiad sylweddoli'r asedau neu setlo'r rhwymedigaeth, yn seiliedig ar y cyfraddau treth yn bodoli ar ddyddiad y fantolen.

### **Darpariaethau**

Gwneir darpariaeth ar gyfer holl rhwymedigaethau hysbys ac amcangyfrifedig y Grŵp pan fydd ymrwymiad cyfredol a bod trosglwyddiad o fuddion economaidd yn debygol er mwyn setlo'r ymrwymiad.

Yn achos prydlesi, ble nad yw'r Grŵp yn defnyddio adeiladau bellach, gwneir darpariaeth ar gyfer y rhwymedigaethau a ragwelir o ran taliadau rhent a dadfeilio, cyn gwaredu neu derfynu'r prydlesi.

Pan fydd y Grŵp yn derbyn ceisiadau heb eu diogelu gan yswiriant neu ble nad oes yswiriant dros ran o'r cais, gwneir darpariaeth ar gyfer rhwymedigaethau disgwylidig yn y dyfodol.

### **Ariannu amcanion & polisiau rheoli risgiau**

Rheolir gweithgareddau Trysorlys wrth ddilyn cyfres o bolisiau ac amcanion trysorlys ffurfiol, a adolygir yn rheolaidd a'u cymeradwyo gan y Bwrdd. Mae'r polisi yn gwahardd unrhyw drafodion o natur hapfasnachol a defnydd o offerynnau ariannol cymhleth. Bydd y Bwrdd yn cymeradwyo rhai polisiau manwl i reoli risgiau cyfraddau llog, arian tramor a chwyddiant, a rheoli risgiau hylifedd. Gellir ond eu newid gyda chaniatâd ymddiriedolwr diogelwch (yr 'ymddiriedolwr diogelwch') Dŵr Cymru Cyfyngedig. Gostyngir y risgiau ymhellach wrth eu cyfyngu i unrhyw un gwrthbarti. Byddwn yn defnyddio offerynnau ariannol, sy'n bennaf yn cynnwys bondiau rhestredig, prydlesi ariannol, adnoddau benthyg banciau a deilliadau, er mwyn codi arian a rheoli risgiau ein gweithgareddau.

### **Risgiau credyd**

Buddsoddir arian dros ben mewn buddsoddiadau arian sterling cyfnodau byr a chanolig. Bydd y Bwrdd yn pennu meini prawf buddsoddi bob blwyddyn, gan eu cyfyngu i fanciau a sefydliadau ariannol eraill sy'n cwrdd â safonau'r prif asiantaethau credyd-raddio.

### **Risgiau cyfraddau llog/Arian tramor**

Bydd y Grŵp yn isafu risgiau benthyciadau arian tramor wrth ddefnyddio offerynnau deilliadol addas er mwyn diogelu'r rhwymedigaethau fel rhai sterling.

Bydd y Grŵp yn diogelu o leiaf 85% o'i rhwymedigaethau ariannol ar ffurf ymrwymadau mynegedig neu gyfradd sefydlog. At y diben hwnnw, diogelir rhwymedigaethau cyfradd llog ar rhwymedigaethau cyfradd ansefydlog drwy gyfuniad o offerynnau deilliadol a balansau ariannol. Mae'r fframwaith rheoleiddio, sy'n mynegeoio refereniw a gwerth asedau rheoleiddiol hefyd yn agor y Grŵp i risgiau chwyddiant. O ganlyniad, ac yn amodol ar gyfyngiadau'r farchnad a chymeradwyaeth y Bwrdd, gall y Grŵp geisio codi dyledion newydd drwy gyfrwng offerynnau mynegedig neu drafodion diogelu addas.

Mae'r 'diogeliadau' a sefydlwyd i reoli risgiau arian tramor yn rhai economaidd, ond nid ydynt yn bodloni gofynion penodol IAS 39 er mwyn eu trin fel diogeliadau at ddibenion cyfrifeg.

### **Risgiau hylifedd**

Rheolir risgiau hylifedd wrth gydbwysio adnoddau cyllid a hyblygrwydd wrth ddefnyddio benthyciadau ar draws amrediad o arian tramor, offerynnau a chyfnodau aeddfedu. Ein polisi yw sicrhau na fydd y proffil aeddfedrwydd yn rhoi gormod o bwysau ar ein gallu i ad-dalu benthyciadau. O dan y polisi, ni fydd dros 20% o werth benthyciadau'r Grŵp yn dod yn ddyledus mewn unrhyw gyfnod o 24 mis.

### **Adnoddau bancio**

Byddwn yn cynnal adnoddau bancio er mwyn rheoli hylifedd y Grŵp yn hyblyg.

Yn ogystal, trefnwyd adnoddau hylifedd arbennig, y mae'n rhaid eu cynnal er mwyn cyfarfod â rhai ymrwymadau llog ac eraill nad oes modd eu cyllido drwy'r llif arian gweithredu os digwydd i'r ymddiriedolwr diogelwch gyhoeddi 'standstill', yn dilyn methiant o dan gyfamodau ariannu dyledion y Grŵp.

### Amcangyfrifon cyfrifeg critigol

Mae paratoi'r datganiadau ariannol er mwyn dilyn egwyddorion cyfrifeg cyffredinol yn galw am ddefnyddio amcangyfrifon a rhagdybiaethau sy'n effeithio gwerthoedd asedau a rhwymedigaethau ar ddyddiad y datganiadau ariannol, a refeniw a threuliau yn ystod y cyfnod adrodd. Er y seilir yr amcangyfrifon hyn ar wybodaeth orau'r rheolwyr o'r symiau, digwyddiadau neu weithgareddau, yn y pen draw gall y canlyniadau gwirioneddol fod yn wahanol i'r amcangyfrifon.

### Lwfans dyledion amheus

Cyfrifir colledion amhariad unigol ar ddyledion cwsmeriaid ar sail asesiad o'r llifau arian disgwylidig. Cyfrifir colledion amhariad cyfunol ar symiau derbyniadwy gyda risgiau credyd tebyg wrth ddefnyddio model ystadegol. Y rhagdybiaeth allweddol yw tebygolrwydd methu adennill symiau pan fydd cwsmeriaid yn mynd i ddyled. Pennir y tebygolrwydd hwnnw ar sail profiad, gan addasu ar gyfer newidiadau mewn ffactorau allanol. O ganlyniad, gellir effeithio cywirdeb y cyfrifiad amhariad gan newidiadau annisgwyl i'r sefyllfa economaidd a newid mewn ymddygiad cwsmeriaid. I'r graddau fod methu adennill dyledion yn newid +/-5%, byddai'r lwfans dyledion drwg yn cynyddu neu ostwng £3.6 miliwn.

### Buddion pensiwn

Bydd gwerth cyfredol yr ymrwymadau pensiwn yn dibynnu ar y cyfrifiad actwaraidd, sy'n cynnwys nifer o ragdybiaethau. Maent yn cynnwys y gyfradd ddisgownt a ddefnyddir i gyfrif gwerth cyfredol amcangyfrifon llifau ariannol o'r cynllun yn y dyfodol er mwyn cwrdd ag ymrwymadau pensiynau. Wrth bennu'r gyfradd ddisgownt, bydd y Grŵp yn ystyried perfformiad bondiau corfforaethol o safon uchel ar y farchnad, mewn sterling, gyda chyfnodau aeddfedu tebyg i'r rhwymedigaethau pensiwn. Os digwydd i'r gyfradd ddisgownt ostwng neu gynyddu 0.1%, byddai gwerth cario'r ymrwymadau pensiwn yn codi neu ostwng £0.9 miliwn.

### Croniad incwm mesuredig

Mae refeniw yn cynnwys amcangyfrif o'r costau heb eu bilio ar ddiwedd y cyfnod. Amcangyfrifir y cronriad wrth ddefnyddio dull diffiniedig yn seiliedig ar y defnydd dŵr pwysol cyfartalog ar gyfer gwahanol restrau prisiau. Cyfrifir hynny ar sail manylion bilio hanesyddol, wedi'u haddasu ar gyfer newidiadau i ffactorau allanol, fel y tywydd. Byddai newid o 5% mewn defnydd gwirioneddol o'r amcangyfrif yn cynyddu/gostwng y cronriad £2.2 miliwn.

## 2 Gwybodaeth segmentol

Ym marn y Cyfarwyddwyr dim ond un segment adrodd sy'n bodoli, sef gweithredu busnes dŵr a charthffosiaeth yn y Deyrnas Unedig. Felly, nodwyd datgeliadau'r prif segment eisoes yn y datganiadau ariannol hyn.

Mae'r ail fformat adrodd yn seiliedig ar ddadansoddiad daearyddol yn ôl tarddiad a chyrchfan. Gan fod y Grŵp yn canolbwyntio ar weithgareddau preswyl, dim ond un segment daearyddol sy'n bodoli. Felly, nodwyd datgeliadau'r segment eilradd eisoes yn y datganiadau ariannol hyn.

### Rhiant gwmni

Unig fusnes y rhiant gwmni yw gweithredu fel cwmni dal ac felly mae'n gweithredu o fewn un segment.

### 3 Costau ariannu

#### a) Llog net cyn colledion gwerth teg ar offerynnau ariannol

	GRŴP	
	2006 £m	2005 £m
Llog taladwy ar fondiau	(91.9)	(120.3)
Mynegeo ar fondiau mynegedig	(17.4)	(17.7)
Llog taladwy ar brydlesi ariannu	(31.9)	(22.3)
Llog taladwy ar fenthyciadau eraill	(12.8)	(3.3)
Amorteiddio costau dyroddi bondiau	(2.9)	(1.3)
	(156.9)	(164.9)
Elw wrth derfynu prydles ariannu	-	6.1
Llog taladwy	(156.9)	(158.8)
Llog derbyniadwy	6.7	16.2
